Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mae'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 wedi cael ei baratoi ar y cyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru a'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac mae'n cynnwys materion fel y'i cyfarwyddwyd gan y Trysorlys.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn dangos y canlynol yn ystod 2015-16:

- mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi cael eu harfer yn gyson â'r Cynllun Blynyddol a baratowyd ar gyfer y flwyddyn o dan adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, heb unrhyw newidiadau sylweddol i'r gwaith a gynlluniwyd; a

- chyflawnwyd blaenoriaethau'r Cynllun ar gyfer 2015-16 ar y cyfan.

Mae'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 wedi cael eu paratoi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru yn unol ag Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac ar ffurf a gyfarwyddwyd gan y Trysorlys.

Os oes angen i chi gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Rydym yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.


Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn 02920 320 500
E-bost post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru
Twitter @WalesAudit


© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2016

# Cipolwg o'r flwyddyn

**Ebrill**

Amlinellwyd bod angen i gynghorau wella eu prosesau cynllunio er mwyn gwarchod eu cydnerthedd ariannol

**Mai**

Tynnwyd sylw at y gwersi ehangach y gellid eu dysgu o gaffael contract Cyflymu Cymru Llywodraeth Cymru

**Mehefin**

Nodwyd bod yr amseroedd aros ar gyfer triniaeth orthopedig yng Nghymru wedi gwaethygu, a'u bod yn hirach nag yn Lloegr a'r Alban

Cyhoeddwyd adroddiadau ar gyfrifon y rhan fwyaf o gyrff y GIG yng Nghymru

**Gorffennaf**

Daethpwyd i'r casgliad na all Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio roi sicrwydd bod y broses o werthu tir ac eiddo wedi sicrhau gwerth am arian

Codwyd ymwybyddiaeth o'n gwaith yn y Sioe Frenhinol ac anogwyd pobl i ymgysylltu ag ef

**Awst**


Cynhaliwyd gweminar a ganolbwyntiodd ar dwyll caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru

Cawsom ein hailachredu ar Lefel 4 (y lefel uchaf ond un) o Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd

**Medi**

Gwnaethom (ar y cyd) gerdded yr 870 milltir o Lwybr Arfordir Cymru dros 24 awr yn ystod penwythnos gan godi arian ar yr un pryd

Cyhoeddwyd adroddiadau ar gyfrifon y rhan fwyaf o'r prif gyrff llywodraeth leol yng Nghymru



**Hydref**

Argymhellwyd bod Cynghorau yn sicrhau bod y gwasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn cael eu rheoli'n fwy effeithiol


**Tachwedd**

Cyhoeddwyd ein hadroddiad blynyddol ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb

Rhannwyd ein barn ar y graddau y mae'r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru yn darparu gwasanaethau cynllunio effeithlon







**Rhagfyr**

Cyflwynwyd ein dadansoddiad o raddau a natur y pwysau ariannol a'r materion pwysig sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yn y blynyddoedd i ddod

**Ionawr**

Cyhoeddwyd canfyddiadau ein harchwiliad o gaffael a pherchenogi Maes Awyr Caerdydd gan Lywodraeth Cymru








**Chwefror**

Daethpwyd i'r casgliad bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni arbedion ariannol a sicrhau buddiannau eraill a fwriadwyd yn sgil ei greu

Croesawyd cydweithwyr o swyddfeydd y Comisiynydd Plant a'r Ombwsdmon Gwasanaethau Cyhoeddus i weithdy a oedd yn anelu at wella ein gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg

**Mawrth**

Cynhaliwyd seminar dysgu ar y cyd ar gyfer cyrff cyhoeddus y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn effeithio arnnynt

Cyhoeddwyd ein cynllun ar gyfer 2016-17, gan gynnwys ein strategaeth a'n blaenoriaethau dros dair blynedd, a'n mesurau a'n targedau perfformiad allweddol





# Cynnwys a chanllaw i ddarllenwyr

## Adroddiad ar Berfformiad

Adolygiad o waith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn 2015-16, gan gynnwys dadansoddiad o’n cyflawniad a’n perfformiad, a’n sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn


9 Trosolwg

Crynodeb o bwy ydym, yr hyn a wnawn, y risgiau allweddol a wynebwn a sut rydym wedi perfformio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

9 Datganiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd

11 Pwy ydym ni

12 Yr hyn a wnawn

13 Ein nod a’n hamcanion

14 Materion allweddol a’r risgiau a wynebwn

15 Mesurau perfformiad

19 Dadansoddiad o berfformiad

Asesiad o’r graddau y mae’r rhaglenni gwaith a’r blaenoriaethau tair blynedd a nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2015-16 wedi cael eu cyflawni

20 Gwaith archwilio mewn cyrff llywodraeth leol

22 Gwaith archwilio yng nghyrff y GIG

24 Gwaith archwilio mewn cyrff llywodraeth ganolog

26 Gwaith archwilio i’w ystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

28 Cyfnewid arfer da

30 Ymgysylltu a chydweithio

32 Ein trefniadau llywodraethu ac arwain

33 Ein defnydd o adnoddau, gan gynnwys ein hadroddiad ar gynaliadwyedd

# Adroddiad ar atebolrwydd

Datganiadau ac adroddiadau allweddol sy'n ein galluogi i fodloni gofynion atebolrwydd a dangos cydymffurfiaeth ag arfer llywodraethu corfforaethol da


## 41 Adroddiad ar lywodraethu corfforaethol

Esboniad o gyfansoddiad a threfniadaeth ein strwythurau llywodraethu a sut maent yn ein helpu i gyflawni ein nod a'n hamcanion

41 Adroddiad y Cyfarwyddwyr

46 Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

48 Datganiad Llywodraethu

## 63 Adroddiad ar gydnabyddiaeth a staff

Ein polisi cydnabyddiaeth, manylion cydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn aelodau o'r Bwrdd, ei bwyllgorau a'r Pwyllgor Rheoli, ein datgeliad cyflog teg ac adroddiad ar staff

63 Adroddiad ar Gydnabyddiaeth

72 Adroddiad ar Staff

## 85 Adroddiad archwilio yr archwilwyr annibynnol

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys ei farn ar y datganiadau ariannol, rheoleidd-dra ac ar faterion eraill


# Datganiadau Ariannol

Datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd â nodiadau ategol ac esboniadol


88 Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

89 Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

90 Datganiad o Lifau Arian Parod

91 Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti

92 Nodiadau i'r cyfrifon

109 Rhestr termau

112 Atodiad 1: Rhaglenni gwaith a gyflawnwyd yn 2015-16

118 Atodiad 2: Cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn tuag at gyflawni ein blaenoriaethau dros dair blynedd

# Adroddiad ar Berfformiad

Adolygiad o waith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn 2015-16, gan gynnwys dadansoddiad o'n cyflawniad a'n perfformiad, a'n sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru
a Swyddog Cyfrifyddu

10 Mehefin 2016

# Trosolwg

## Datganiad yr Archwilydd Cyffredinol



Ein nod yw sicrhau bod pobl Cymru yn gwybod a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth, a bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn deall sut i wella canlyniadau.

Mae cipolwg cyflym ar yr adroddiad hwn yn dangos swm a sylwedd y gwaith archwilio a wnaed gennym yn 2015-16 er mwyn ein helpu i gyflawni'r nod hwn. Diolch i broffesiynoldeb, ymroddiad a gwaith caled staff a chontractwyr Swyddfa Archwilio Cymru, gwnaethom gyflawni'r rhaglen waith a gyflwynwyd yn ein Cynllun ar gyfer 2015-16 bron i gyd, gan gynnwys rhoi barn ar gyfrifon dros 800 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, a chyhoeddi 19 o adroddiadau cenedlaethol.

Mae gwerth y gwaith hwn, o ran cynnig sicrwydd, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau, wedi cael ei gadarnhau gan ein rhanddeiliaid mewn arolwg diweddar. Dywedodd 98 y cant o'r rhai a arolygwyd fod ganddynt ffydd yn ein gwaith, ac mae pedwar allan o bump o'r farn bod ein gwaith yn meithrin dealltwriaeth ddefnyddiol sydd wedi arwain at welliannau yn narpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

Drwy ddefnyddio ein cylch gwaith unigryw i ddilyn arian y cyhoedd, mae ein gwaith yn 2015-16 wedi parhau i danlinellu'r angen i ailgynllunio a thrawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn wyneb adnoddau cyfyngedig a galw cynyddol.

Ac mae ein pwyslais parhaus ar hwyluso'r broses o rannu arfer da a dysgu drwy seminarau a gweminarau er mwyn cefnogi'r broses o newid wedi cael ei groesawu a'i werthfawrogi'n fawr unwaith eto.

Wrth edrych ymlaen, bydd y ffordd rydym yn gwneud ein gwaith dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn parhau i addasu a datblygu, gan gynnwys datblygu dull o gyflawni fy nyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i wella ansawdd bywyd pobl yng Nghymru a helpu cyrff cyhoeddus i lwyddo.

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Datganiad gan y Cadeirydd



Fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn, roedd 2015-16 yn flwyddyn bwysig a chynhyrchiol iawn i Swyddfa Archwilio Cymru. Ynghyd â chyflawni ein rhaglenni gwaith, parhaodd y Bwrdd i herio perfformiad ac mae'n fodlon ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein blaenoriaethau a'n targedau tair blynedd.

Ar ran y Bwrdd, hoffwn ddiolch i'n holl gyflogeion a chontractwyr am eu gwaith caled a'u cyfraniad dros y 12 mis diwethaf. Mae eu balchder yn eu gwaith a'u hymrwymiad iddo yn fy nharo bob amser. Rwy'n hynod falch o'r hyn rydym wedi ei gyflawni.

Fodd bynnag, fel pob corff cyhoeddus, mae angen i ni barhau i addasu, gwella a dod yn fwy effeithlon er mwyn ymateb i'r heriau sylweddol sy'n ein hwynebu.

O 1 Ebrill 2016, bydd rhaglen i hwyluso'r broses o drawsnewid y ffordd rydym yn gweithio, a gefnogir gan gyllid wedi'i gymeradwyo gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol, yn dechrau ac yn gweithredu ar y cyd â'r rhaglenni gwaith a gyflawnir fel rhan o'r cylch busnes blynyddol.

I ddechrau, byddwn yn cymryd camau i wella effaith ein gwaith drwy ystyried ymhellach sut y gallwn ddefnyddio technoleg newydd a sicrhau bod ein prosesau casglu a dadansoddi data, a chyfleu canfyddiadau, mor effeithiol â phosibl.

Byddwn hefyd yn canolbwyntio'n fwy ar ein strategaeth ar gyfer y gweithlu er mwyn sicrhau ein bod yn gallu rhagweld ac ymateb yn ddi-dor i ddatblygiadau gwleidyddol a pholisi yn y dyfodol.

Mae hwn yn gyfnod diddorol i Swyddfa Archwilio Cymru ac rwy'n ffyddiog y gallwn ateb yr heriau sydd o'n blaenau.

**Isobel Garner**
Cadeirydd, ar ran Swyddfa Archwilio Cymru

# Pwy ydym ni

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae Deddfau Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a 2013, Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006, ynghyd ag amrywiaeth o ddeddfwriaeth arall, yn rhoi'r sail statudol dros waith yr Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys yr arian y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn pleidleisio i'w ddyfarnu bob blwyddyn. Trosglwyddir elfennau sylweddol o'r arian hwn gan Lywodraeth Cymru i'r GIG a llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn Fwrdd sy'n cyflogi staff â chymwysterau proffesiynol ac yn defnyddio adnoddau eraill, gan gynnwys arbenigedd ychwanegol gan gwmnïau cyfrifwyr yn y sector preifat, er mwyn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau. Sefydlwyd Swyddfa Archwilio Cymru fel corff corfforaethol ym mis Gorffennaf 2013 ac roedd yn cyflogi bron 248 o staff ar 31 Mawrth 2016.

Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru Bwyllgor Rheoli sy'n gyfrifol am gyfarwyddo'r sefydliad o ddydd i ddydd. Ceir manylion pellach am y Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr, yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a'r Datganiad Llywodraethu.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn defnyddio'r adnoddau a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru i ystyried yn annibynnol a yw arian cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei reoli'n ddoeth ac y rhoddir cyfrif amdano'n briodol.

# Yr hyn a wnawn

## Mae'r gwaith o archwilio'r sector cyhoeddus yn cynnwys rhoi barn ar y cyfrifon yn ogystal â materion fel:

- rheoleidd-dra (p'un a gaiff arian cyhoeddus ei ddefnyddio at ddibenion cymeradwy);
- priodoldeb (p'un a gaiff busnes cyhoeddus ei gynnal yn briodol); a
- gwerth am arian.


Bob blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni rhaglen helaeth ond cymesur o waith archwilio allanol, gan ddefnyddio adnoddau a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, ochr yn ochr â swyddogaethau penodol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn cadw rhywfaint o hyblygrwydd yn ei raglen er mwyn iddo allu ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i unrhyw faterion yr ydym yn dod ar eu traws drwy ein gwaith archwilio neu sy'n cael eu dwyn i'n sylw.

Mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn gymwys mewn gwahanol fathau o gyrff, er mwyn ystyried gwariant cyhoeddus waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau.

Rydym yn nodi arfer da o bob rhan o waith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol ac yn ei ledaenu drwy'r Gyfnewidfa Arfer Da (adnodd am ddim ar y we) a chyfryngau eraill, gan gynnwys seminarau a gweminarau dysgu ar y cyd.

Mae ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2016-17 yn rhoi rhagor o wybodaeth am sut y dilynwn y bunt gyhoeddus yng Nghymru.

# Ein nod a'n hamcanion




Ein nod yw hysbysu pobl Cymru a helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i lwyddo.

Mae ein pedwerydd amcan allweddol yn ategu'r tri cyntaf; er mwyn i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu gwasanaeth archwilio o safon uchel, mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru fod yn sefydliad sydd wedi'i redeg yn dda ac sy'n sicrhau gwerth am arian.

Gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru baratoi Cynllun Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 ar y cyd a'i osod gerbron y Cynulliad.

Yn y Cynllun, nodwyd rhaglenni gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2015-16, yr adnoddau sydd ar gael i Swyddfa Archwilio Cymru, a sut y defnyddid yr adnoddau hynny er mwyn cyflawni'r rhaglenni gwaith.

# Materion allweddol a’r risgiau a wynebwn

Fel yr amlinellir yn fanylach yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2016-17, ystyriwn mai’r ffactorau canlynol a gaiff y dylanwad mwyaf ar y ffordd rydym yn gwneud ein gwaith ac yn cyflawni ein nod a’n hamcanion dros y tair blynedd nesaf:

- Mae hwn yn gyfnod lle mae arian yn brin
- Mae’n ofynnol ehangu cwmpas trefniadau llywodraethu
- Mae’r cyd-destun gwleidyddol a’r cyd-destun polisi’n parhau i esblygu
- Rydym yn byw mewn cymdeithas sydd wedi’i rhwydweithio fwyfwy

Mewn ymateb i’n hamgylchedd gweithredu, caiff ein Cynllun ar gyfer cyflawni ein rhaglenni gwaith yn ystod 2016-17, ac ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2016-19, ei ategu gan bedair thema strategol lefel uchel.

### Parhau i gyflawni ein gwaith archwilio gan roi pwyslais ar gyni




Byddwn yn parhau i roi mwy o bwyslais ar atgyfnerthu rheolaeth ariannol ar draws sector cyhoeddus Cymru a sicrhau bod adnoddau ac asedau cyhoeddus yn cael eu defnyddio mewn ffordd fwy effeithiol ac effeithlon.

Bydd ein gwaith archwilio'n canolbwyntio ar gynorthwyo cyrff cyhoeddus i drawsnewid gwasanaethau a'u helpu i ymdopi ag effaith gostyngiadau yn eu cyllid ac i lwyddo er gwaethaf y gostyngiadau hynny.


### Paratoi adroddiadau mwy cynhwysfawr am effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu



Byddwn yn datblygu ein gwaith archwilio o ran trefniadau llywodraethu i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth newydd.

Yn gynyddol, byddwn yn ystyried y modd y mae cyrff cyhoeddus yn gwarchod adnoddau dynol a naturiol fel rhan o'n gwaith o ystyried adnoddau ariannol a'r modd y mae cyrff cyhoeddus yn cyfrif am y ffordd y maent yn eu defnyddio.


### Cryfhau ein strategaeth o ran y gweithlu er mwyn inni ymateb yn well i ddatblygiadau yn y dyfodol



Byddwn yn cryfhau ein strategaeth o ran y gweithlu, ac yn gwneud y gorau ohoni, i sicrhau bod modd inni ateb y galw presennol, rhagweld datblygiadau yn y dyfodol ac ymateb iddynt.

Byddwn yn canolbwyntio ar gael nifer briodol a chymysgedd amrywiol o bobl sy'n meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad iawn, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn, am y gost iawn.

### Defnyddio data a thechnoleg gwybodaeth yn fwy effeithiol



Byddwn yn mynd ati i sicrhau bod ein gwaith yn cael mwy o effaith drwy ddefnyddio technoleg newydd yn well a sicrhau ein bod yn casglu data, yn dadansoddi ac yn mynegi canfyddiadau yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Byddwn hefyd yn chwilio am gyfleoedd i gyflawni gwaith archwilio sy'n canolbwyntio ar allu'r cyrff sy'n cael eu harchwilio i fanteisio ar y trawsnewid digidol a'u hymwybyddiaeth o risgiau digidol.

Ceir cofnod rheoli risg yn 2015-16, ynghyd â disgrifiad o’r prif risgiau ac ansicrwydd a wynebwn, yn y Datganiad Llywodraethu.

# Mesurau perfformiad

Cafodd fframwaith o fesurau perfformiad allweddol, yn canolbwyntio ar saith thema a chwestiynau am ein gweithgareddau, ei gynnwys yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2015-16. Cafodd cyfres o dargedau ei datblygu hefyd gan gyfeirio at lefelau perfformiad ar ddiwedd 2014-15 a meincnodau priodol.

Yn ystod 2015-16, gwnaethom ddefnyddio cyfuniad o ddulliau meintiol ac ansoddol i fesur ac adrodd ac adlewyrchu ar ein perfformiad a'n risgiau. Roedd hyn yn cynnwys adroddiadau chwarterol i'n Pwyllgor Rheoli a'n Bwrdd ar gynnydd a wnaed wrth gyflawni ein blaenoriaethau a'n targedau. Hefyd, bu ein cyfres o dargedau mesur perfformiad yn destun gwaith craffu a mireinio pellach yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau ei bod yn ddigon heriol ond cyflawnadwy o fewn y terfynau amser penodedig.

Ar y cyfan, yn 2015-16, gwnaethom gyflawni ein targedau ar gyfer 21 o'r 35 o fesurau perfformiad, ac roeddem yn agos at gyflawni ein targedau ar gyfer pedwar mesur arall. Ar gyfer y 10 mesur arall, mae'r tri sydd angen eu gwella fwyaf o ran perfformiad yn 2016-17 i gyd yn ymwneud â'r ffordd rydym yn rheoli ein heffaith ar yr amgylchedd.

## Effaith

I ba raddau y mae ein gwaith yn hysbysu pobl Cymru, yn helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i lwyddo, ac yn cael ei werthfawrogi gan ein rhanddeiliaid?

**98%** o'n hargymhellion wedi cael eu **derbyn yn llawn er mwyn gweithredu arnynt** (Cyflawnwyd ein targed)

**80%** o randdeiliaid wedi meithrin **dealltwriaeth ddefnyddiol** drwy ein gwaith (Cyflawnwyd ein targed)

**98%** o randdeiliaid o'r farn bod yr Archwilydd Cyffredinol yn **sylwebydd awdurdodol** (Cyflawnwyd ein targed)

**£11m** o **arbedion posibl** wedi'u nodi drwy ein gwaith (Cyflawnwyd ein targed)

**79%** o randdeiliaid o'r farn bod ein gwaith wedi arwain at **welliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus** (Yn agos at gyflawni ein targed)

Cyflawnwyd ein targed | Yn agos at gyflawni ein targed | Angen gwella | Angen gwelliant sylweddol

## Cyflawni

A ydym yn cyflawni ein harchwiliadau ar amser neu’n unol â safonau ansawdd a phroffesiynol gofynnol?

**100%**
o geisiadau i dynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru wedi'u **prosesu o fewn 24 awr**

**92%**
o'n cynhyrchion archwilio wedi'u **cyflawni ar amser**

**100%**
o archwiliadau wedi'u cyflawni yn unol â **safonau ansawdd**

**24**
o gynhyrchion **arfer da** wedi'u **cyflawni**

**19**
o **adroddiadau cenedlaethol** wedi'u cyhoeddi

## Arweinyddiaeth

A yw ein trefniadau llywodraethu ac arwain yn gweithredu’n effeithiol?

**97%**
o randdeiliaid yn dweud bod ganddynt **hyder yn ein gwaith**

**98%**
o staff yn teimlo bod eu **perfformiad yn cael ei werthuso'n deg**

**69%**
o staff yn teimlo **y'u cefnogir** i roi cynnig ar syniadau newydd a ffyrdd newydd o weithio

**75%**
o staff yn teimlo yr **ymddiriedir ynddynt** i wneud eu gwaith yn **effeithiol**

**64%**
o **staff yn teimlo eu bod wedi ymgysylltu** â'n dull gweithredu strategol

Cyflawnwyd ein targed | Yn agos at gyflawni ein targed | Angen gwella | Angen gwelliant sylweddol

## Ariannol

Pa mor dda rydym yn rheoli ein cyllid a'n hasedau?

Gwnaeth ein hystad gostio **£3,228** fesul aelod o staff cyfwerth ag amser cyflawn

**£1.2m** o **arbedion cost** wedi'u cynhyrchu drwy'r busnes cyfan

**6.9%** o amrywiad rhwng gwariant gwirioneddol **a gwariant a gyllidebwyd**

**6.7%** o amrywiad rhwng incwm gwirioneddol **a'r incwm a gyllidebwyd**

**Dim ond £59k** mewn hen ddyledion dros 60 diwrnod oed

## Cymdeithasol

Pa mor dda rydym yn hyrwyddo ac yn cefnogi cydraddoldeb, lles a dysgu?

**80%** o staff yn teimlo eu bod yn gallu **achub ar gyfleoedd dysgu priodol**

Cymraeg

**100%** allbwn yn cydymffurfio â'n Cynllun Iaith

**69%** o staff yn teimlo eu bod yn gallu taro **cydbwysedd da rhwng eu gwaith a'u bywyd preifat**

**Collwyd 7.3** diwrnod drwy salwch ar gyfartaledd fesul aelod o staff

**66%** o staff yn teimlo eu bod yn cael eu trin **yn deg a chyda pharch**, a'u bod yn cael eu **gwerthfawrogi**

Cyflawnwyd ein targed · Yn agos at gyflawni ein targed · Angen gwella · Angen gwelliant sylweddol

## Amgylcheddol

Pa mor dda rydym yn rheoli ein heffaith ar yr amgylchedd?

**Achrediad** ar
**Lefel 4**
o Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd

**Cynhyrchwyd**
**555**
tunnell o allyriadau sy'n cyfateb i $CO_2$

**54.6%**
o'n gwastraff wedi cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio

**Defnyddiwyd**
**2,150**
o rimiau o **bapur**

**Cynhyrchwyd**
**86.1**
tunnell o **wastraff**

## Cyfathrebu

Pa mor dda rydym yn codi ymwybyddiaeth o'n gwaith ac yn ennyn diddordeb ynddo?

**1,143**
o bobl wedi **dod** i'n seminarau dysgu ar y cyd

**97%**
o erthyglau yn y cyfryngau a gyhoeddwyd am ein gwaith yn **gadarnhaol neu'n niwtral eu naws**

**Sgôr Klout gyfartalog o**
**50**

Staff wedi'u **gwahodd i gyflwyno** dysgu ym maes archwilio mewn **30** o ddigwyddiadau allanol

**198k**
**o ymweliadau â thudalennau gwe**

Cyflawnwyd ein targed | Yn agos at gyflawni ein targed | Angen gwella | Angen gwelliant sylweddol


# Dadansoddiad o berfformiad

Yn yr adran hon, darparwn asesiad o'r graddau y mae'r rhaglenni gwaith a'r blaenoriaethau tair blynedd a nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2015-16 wedi cael eu cyflawni, gan gynnwys drwy'r defnydd o enghreifftiau o astudiaethau achos.

Dylai'r adran hon gael ei darllen ar y cyd ag:

- Atodiad 1, sy'n rhoi mwy o fanylion am raglen gwaith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol yn 2015-16; ac
- Atodiad 2, sy'n rhoi sylwadau ar y cynnydd a wnaed gennym tuag at gyflawni ein blaenoriaethau tair blynedd.

Fel ein Cynllun, mae ein dadansoddiad wedi'i rannu'n wyth adran sy'n gyson â'n hamcanion. Mae'r chwe adran gyntaf yn ymwneud â rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r ddwy adran arall yn ymwneud â rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru.




Yn 2015-16, gwnaethom gyflawni'r rhaglen waith a gyflwynwyd yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer y flwyddyn bron i gyd. Ac rydym ar y trywydd iawn i gyflawni pob un o'n blaenoriaethau tair blynedd (ac mewn rhai achosion rydym eisoes wedi cwblhau'r gwaith angenrheidiol arnynt).

# Gwaith archwilio mewn cyrff llywodraeth leol

Mae rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol ym maes llywodraeth leol yn cwmpasu amrywiaeth eang o gyrff, gan gynnwys awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid, cronfeydd pensiwn llywodraeth leol a chynghorau tref a chymuned.

Yn ystod 2015-16, cafodd ein gwaith ar archwilio cyfrifon, ardystio hawliadau am grant a ffurflenni, archwiliadau ac asesiadau gwella, ac astudiaethau llywodraeth leol ei gwblhau ar y cyd â'n Cynllun. Rhoddwyd barn archwilio ar gyfrifon pob un o'r prif gyrff llywodraeth leol ar gyfer 2014-15 erbyn y terfyn amser statudol.

Disgwylir i nifer o astudiaethau llywodraeth leol sy'n mynd rhagddynt gael eu cwblhau yn 2016-17.



Cyhoeddwyd bron **800** barn archwilio ar gyfrifon cyrff llywodraeth leol

Cynhaliwyd asesiadau gwella blynyddol yn y **28** o awdurdodau gwella

Cwblhawyd **7** astudiaeth llywodraeth leol ac adroddiad cryno

Ardystiwyd 25 o gynlluniau grant gwerth bron **£3 biliwn**

Mae **pob un** o'n blaenoriaethau tair blynedd ar gyfer gwaith llywodraeth leol ar y trywydd iawn ar hyn o bryd


# Astudiaeth achos:
# Asesiadau corfforaethol Caerdydd ac Ynys Môn

Fel rhan o raglen waith archwilio llywodraeth leol 2015-16, gwnaethom gynnal asesiad corfforaethol o Gyngor Sir Ynys Môn a gwaith dilynol ar asesiad corfforaethol blaenorol o Gyngor Dinas Caerdydd.

Yn asesiad corfforaethol 2014 o Gyngor Dinas Caerdydd, daethom i'r casgliad bod 'trefniadau arwain a rheoli tameidiog wedi golygu nad yw perfformiad gwan mewn meysydd gwasanaeth allweddol wedi gwella.' Flwyddyn yn ddiweddarach, gwnaethom waith dilynol er mwyn adolygu cynnydd, a daethom i'r casgliad 'Mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau gwell ar waith i gefnogi gwelliant ac i fynd i'r afael â phroblemau hirsefydlog, ond mae bellach ar bwynt allweddol yn y broses o'u hymgorffori os yw am gyflawni newid sylweddol o ran sicrhau canlyniadau gwell.' Hefyd, gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol argymhelliad penodol, sef 'Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella fel y'u nodwyd yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau canlyniadau gwell yn ystod y 12 mis nesaf.'

Ffurfiodd yr asesiad corfforaethol o Gyngor Sir Ynys Môn ran o'n rhaglen gylchol ac ni chafodd ei gynllunio mewn perthynas â risg ganfyddedig. Fel y rhan fwyaf o gynghorau, mae Ynys Môn yn wynebu nifer o heriau sylweddol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r sylfeini llywodraethu sydd eu hangen i ymdrin â'r heriau hyn bellach mor ddiogel ar Ynys Môn ag ydynt unrhyw le arall yng Nghymru. Roedd ymyrraeth Llywodraeth Cymru, a orffennodd yn ffurfiol ym mis Mai 2013, wedi helpu'r Cyngor i drawsnewid pethau.

Mae'r ddau gyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'n hasesiadau, gan gydnabod bod angen ymdrin â'r pwyntiau a godwyd drwy weithredu cynllun neu Ddatganiad Gweithredu. Nododd Prif Weithredwr Caerdydd wrth Gabinet y Cyngor fod y Cyngor yn mawr groesawu asesiad yr Archwilydd Cyffredinol o gynnydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mewn arolygon rhanddeiliaid, mae Ynys Môn bob amser wedi sôn am effaith fuddiol ei ddeialog rheolaidd â thîm Swyddfa Archwilio Cymru.






# Gwaith archwilio yng nghyrff y GIG

Mae gwaith yr Archwilydd Cyffredinol o fewn GIG Cymru yn cwmpasu pob un o'r saith bwrdd iechyd lleol a thair Ymddiriedolaeth y GIG, yn ogystal â gwaith Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Yn ystod 2015-16, rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei farn archwilio ar gyfrifon 2014-15 pob un o gyrff y GIG, a chyflwynodd adroddiad cyhoeddus ar y trefniadau a oedd ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau, gan gynnwys drwy gyhoeddi darlun cymharol o adroddiad gwasanaethau orthopedig ar gyfer pob bwrdd iechyd lleol. Cyflawnwyd y gwaith hwn yn unol â'r amserlen a nodwyd yn ein Cynllun.

Fel rhan o raglen gylchol o astudiaethau iechyd, gwnaed gwaith yn unol â Chynllun 2015-16 ar yr astudiaethau a restrir yn Atodiad 1.



Cyhoeddwyd adroddiadau ar gyfrifon y **10** bwrdd iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG

Cynhaliwyd **asesiadau strwythuredig** a gwaith archwilio perfformiad lleol


Cwblhawyd **6** astudiaeth iechyd a dechreuwyd gweithio ar ddwy astudiaeth arall

Sefydlwyd **Panel Arbenigol** yn cynnwys academyddion a gweithwyr iechyd proffesiynol, i gynghori ar ein rhaglen archwilio

Mae **pob un** o'n blaenoriaethau tair blynedd ar gyfer gwaith archwilio'r GIG naill ai wedi eu cwblhau neu ar y trywydd iawn

# Astudiaeth achos:
# Gwaith archwilio llywodraethu'r GIG

Fel rhan o'i ymchwiliad i drefniadau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, cymerodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol dystiolaeth yn 2015 ar sawl agwedd ehangach ar lywodraethu o fewn GIG Cymru. I gefnogi ymchwiliad y Pwyllgor, paratodd yr Archwilydd Cyffredinol femorandwm a oedd yn cynnig trosolwg cynhwysfawr o'r trefniadau llywodraethu sy'n bodoli o fewn GIG Cymru, ynghyd â sylwadau ar y ffordd roedd y trefniadau hynny'n gweithio'n ymarferol, ar sail canfyddiadau ein hasesiadau strwythuredig blynyddol.




Drwy'r memorandwm, gwnaethom ddwyn ynghyd amrywiaeth o wybodaeth am drefniadau llywodraethu'r GIG a fu mewn sawl lle gwahanol yn flaenorol. Yn ogystal â llywio gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, mae'r memorandwm wedi cael ei ddefnyddio gan Grŵp Ysgrifenyddiaeth Bwrdd y GIG er mwyn llywio ei waith gyda Chadeiryddion cyrff y GIG ar wella prosesau llywodraethu. Hefyd, defnyddiodd Ysgrifenyddion Bwrdd y memorandwm wrth baratoi eu hymateb i bapur gwyrdd diweddar GIG Cymru ar ansawdd a llywodraethu.

Yn ehangach, mae canfyddiadau ein gwaith asesu strwythuredig gyda chyrff y GIG yn parhau i'n galluogi i gyfrannu'n effeithiol at drafodaethau Bord Gron Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth y GIG, ac i lywio gwaith craffu Llywodraeth Cymru ar gynlluniau tymor canolig integredig drafft cyrff y GIG. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys sesiwn diwrnod o hyd gyda staff o Swyddfa Archwilio Cymru yn ei rhaglen ar gyfer yr adolygiad blynyddol manwl o gynlluniau tymor canolig integredig, a thrwy hynny alluogi barn swyddogion Llywodraeth Cymru ar y cynlluniau drafft i gael ei llywio gan wybodaeth archwilio berthnasol am effeithiolrwydd sefydliadol ehangach cyrff y GIG.

# Gwaith archwilio mewn cyrff llywodraeth ganolog

Mae'r sector llywodraeth ganolog yng Nghymru yn cwmpasu amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi, swyddfeydd gwahanol gomisiynwyr statudol, arolygwyr a rheoleiddwyr, a Chomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol. Yn 2015-16, rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn flynyddol ar gyfrifon 2014-15 y cyrff llywodraeth ganolog a restrir, yn gyson â'n Cynllun.

Cafodd gwaith archwilio perfformiad ei gynnal yn y sector hwn hefyd, fel rhan o raglen yr Archwilydd Cyffredinol o astudiaethau gwerth am arian.



Cymeradwywyd tua **£1 biliwn** o daliadau o Gronfa Gyfunol Cymru bob mis

Rhoddwyd barn ar gyfrifon Llywodraeth Cymru ac **11** o gyrff a noddir

Ardystiwyd hawliadau gwerth tua **£300 miliwn** mewn perthynas â chronfeydd strwythurol Ewropeaidd

Hwyluswyd **gweithdy** arfer da gyda Chadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg ac Uwch Swyddogion Cyllid

Mae **pob un** o'n blaenoriaethau tair blynedd ar gyfer gwaith llywodraeth ganolog ar y trywydd iawn ar hyn o bryd

## Astudiaeth achos:
## Cefnogi llywodraethu da o fewn y sector llywodraeth ganolog

Mae'r sector llywodraeth ganolog yng Nghymru wedi wynebu rhai o'r toriadau ariannol mwyaf sylweddol yn y sector cyhoeddus. O ystyried y ffaith bod llawer o gyrff llywodraeth ganolog yn gymharol fach, mae hyn yn cyfyngu ar yr adnoddau sydd ar gael i ddatblygu arfer da ym maes llywodraethu ac adrodd. Er bod gwaith archwilio rheolaidd yr Archwilydd Cyffredinol o fewn cyrff llywodraeth ganolog yng Nghymru fel arfer yn gyfyngedig i archwilio eu datganiadau ariannol, mae'n fwriad ganddo gefnogi cyrff yn y sector hwn drwy hwyluso gweithdai bob chwe mis gyda Chadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg ac Uwch Swyddogion Cyllid er mwyn darparu fforwm i rannu gwybodaeth ac arfer da.



Cynhaliwyd y gweithdy cyntaf o'r fath ym mis Chwefror 2016, lle trafodwyd newidiadau i ofynion adrodd blynyddol, ac arfer da ym maes datblygu fframweithiau sicrwydd bwrdd. Ar gyfer pob un o'r pynciau hyn, dilynwyd sesiwn lawn gan drafodaeth am heriau ac arferion yn y gweithdy, cyn cloi gydag adborth a rhannu materion a chamau gweithredu allweddol.

Cadarnhaodd yr adborth cadarnhaol a gafwyd o'r diwrnod y brwdfrydedd i gynnal sesiynau pellach. Bwriedir i'r un nesaf, a gynhelir ym mis Hydref 2016, ailystyried ac adlewyrchu ar adroddiadau blynyddol, ac ystyried effeithlonrwydd Pwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg. Dylai'r cysylltiadau ffurfiol ac anffurfiol a wnaed gan Gadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg ar y diwrnod hwyluso rhannu gwybodaeth a thrafod yn barhaus; yn aml does dim byd gwell na 'sgwrs go iawn'.

# Gwaith archwilio i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Mae'r rhaglen hon o waith archwilio yn cynnwys astudiaethau gwerth am arian, paratoi adroddiadau cryno ar ganfyddiadau gwaith archwilio ar nifer o gyrff y GIG, llywodraeth ganolog a/neu lywodraeth leol, ac archwiliadau a gynhelir mewn ymateb i faterion sydd o bryder i'r cyhoedd a nodwyd drwy ein gwaith archwilio neu a godwyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae allbynnau 2015-16, a gyflawnwyd yn gyson â'n Cynllun, wedi cefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol a phwyllgorau eraill y Cynulliad.

Fel yr amlinellwyd yn ein Cynllun, ar ddechrau 2015-16 ystyriodd yr Archwilydd Cyffredinol feysydd posibl ar gyfer astudiaethau gwerth am arian yn y dyfodol ac ymgynghorodd arnynt. O ganlyniad, mae ein gwaith parhaus yn cynnwys sawl darn newydd o waith a ychwanegwyd at ein rhaglen a roddwyd ar waith o ddifrif yn 2015-16.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom hefyd waith i ystyried ymatebion Llywodraeth Cymru i argymhellion blaenorol yr Archwilydd Cyffredinol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn perthynas ag amrywiaeth o bynciau. Cefnogodd y gwaith archwilio hwnnw ein mewnbwn i adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar ei waith ei hun yn ystod pedwerydd tymor y Cynulliad a bydd yn llywio unrhyw waith dilynol gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus newydd yn y pumed Cynulliad.



Cwblhawyd **12** o astudiaethau gwerth am arian, adroddiadau cryno neu archwiliadau ymatebol

**15** o archwiliadau gwerth am arian, adroddiadau cryno neu archwiliadau ymatebol yn mynd rhagddynt


Cefnogwyd **35** o gyfarfodydd o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Sefydlwyd tîm astudiaethau ymchwilio newydd er mwyn atgyfnerthu ein gallu a'n hadnoddau archwilio **fforensig**

Mae **pob un** o'n blaenoriaethau tair blynedd ar gyfer gwaith archwilio'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus naill ai wedi eu cwblhau neu ar y trywydd iawn

# Astudiaeth achos:
# Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio

Ym mis Gorffennaf 2015, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad ar astudiaeth o werthu asedau tir ac eiddo cyhoeddus am £21 miliwn gan Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, sef un o gyrff hyd braich Llywodraeth Cymru. Yn ystod yr astudiaeth gwnaethom ystyried nodau, trefniadau llywodraethu a gweithrediad y Gronfa, gan gynnwys effeithiolrwydd trefniadau goruchwylio Llywodraeth Cymru. Mae llawer o'n hargymhellion hefyd yn gymwys i weithrediadau hyd braich a chynnal prosesau llywodraethu da yn ehangach.




Daethom i'r casgliad, o ganlyniad i ddiffygion yn y ffordd y sefydlwyd y Gronfa, y broses o ddethol asedau a hefyd y broses werthu ei hun, na allai'r Gronfa na Llywodraeth Cymru ddangos y cyflawnwyd gwerth am arian o drafodyn gwerthu'r portffolio.

Yn sgil cyhoeddi'r adroddiad, cafwyd cryn dipyn o sylw ymhlith y cyhoedd, gwleidyddion ac yn y cyfryngau, gan gynnwys rhaglen ddogfen gan BBC Cymru. Ar ôl ystyried ein hadroddiad, cynhaliodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ei ymchwiliad ei hun i'r Gronfa yn ystod hydref 2015 a lluniodd ei adroddiad ei hun ym mis Ionawr 2016. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod y materion a ystyriwyd yn ystod yr ymchwiliad ymhlith y rhai mwyaf pryderus a chymhleth a welwyd ganddo yn ystod pedwerydd tymor y Cynulliad.

Yn ei adroddiad, cytunodd y Pwyllgor â chanfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol a gwnaeth hefyd fyfyrio ar ddigwyddiadau dilynol, gan gynnwys tystiolaeth o werthu'r asedau ymlaen gan y prynwr sydd '...yn dangos yn argyhoeddiadol na lwyddodd y gwerthiant i sicrhau gwerth da am arian i'r trethdalwr - mae'n ymddangos y gallai, ac yn wir y dylai, degau o filiynau o bunnoedd fod wedi'u cynhyrchu i'w buddsoddi mewn prosiectau adfywio ledled Cymru'. Yn sgil canfyddiadau'r Pwyllgor, ymddiheurodd y Prif Weinidog wrth y Cynulliad Cenedlaethol, a chafwyd dadl lawn hirfaith. Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn cymryd camau cyfreithiol yn erbyn y cwmni preifat a wnaeth gynghori Bwrdd y Gronfa ar delerau'r gwerthiant.

# Cyfnewid arfer da

Un o ddwy brif ran ein gwaith arfer da yw darparu adnoddau ar-lein am ddim sy'n galluogi'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr gwasanaethau, llunwyr polisïau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gael gafael ar wybodaeth ychwanegol. Mae'r rhan arall o'n gweithgarwch yn cynnwys hwyluso sgyrsiau lle y caiff gwersi a ddysgwyd o lwyddiannau a methiannau cymaradwy eu rhannu wyneb yn wyneb.

Yn ystod 2015-16, cyflawnodd y rhaglen hon ystod eang o allbynnau, a oedd naill ai'n gyson â'n Cynllun gwreiddiol neu wedi'u haddasu ohono, a chyda phwyslais penodol ar hyrwyddo'r broses o rannu gwybodaeth ar draws ffiniau sefydliadol, daearyddol a rhyngwladol.



Lluniwyd **canllaw** arfer da ar annibyniaeth barhaus pobl hŷn

Cynhaliwyd **24** o seminarau/gweminarau dysgu ar y cyd, gyda mwy na **1,100** o bobl yn bresennol

Dywedodd **93%** o'r cynadleddwyr a roddodd adborth fod ein seminarau dysgu ar y cyd yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn

Cred **83%** o randdeiliaid fod ein gwaith arfer da wedi bod o fudd i wasanaethau cyhoeddus

Mae ein **pob un** o'n blaenoriaethau tair blynedd ar gyfer gwaith arfer da ar y trywydd iawn ar hyn o bryd



# Astudiaeth achos: Canlyniadau cyfnewid arfer da

Drwy ein seminarau a’n gweminarau dysgu ar y cyd rydym yn annog darparwyr gwasanaethau cyhoeddus i nodi a datblygu ffyrdd newydd a gwell o weithio. Fodd bynnag, gall gymryd amser i welliannau a syniadau arloesol arwain at ganlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae’r enghreifftiau isod yn dangos rhai o effeithiau cadarnhaol trosglwyddo gwybodaeth o seminarau blynyddoedd blaenorol yn ystod 2015-16.

- Bellach, mae gan ganol tref Wrecsam ganolfan triniaeth a lles alcohol gwbl weithredol, sef ‘Hafan y Dref’. Datblygwyd y gwasanaeth ar ôl i Gyngor Wrecsam ddod i’n seminar Mabwysiadu Dulliau Ataliol ym mis Ebrill 2014, lle rhoddwyd sylw i ganolfan Trin Alcohol Caerdydd. Gall canolfan Hafan y Dref frysbennu a thrin unigolion ar ei safle yng nghanol y dref, a thrwy hynny leihau’r baich ar wasanaethau brys a’r costau cysylltiedig.
- Yn 2014, roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn chwilio am gyfleoedd i wella ei wybodaeth a’i sgiliau rheoli prosiect. Drwy ddod i’n seminar Arwain Rhaglenni a Phrosiectau ym mis Medi 2014, dysgodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru am ddull Cyngor Conwy o reoli prosiect. Ers hynny, mae’r ddau sefydliad wedi meithrin cydberthynas waith agosach ac maent bellach yn rhannu dulliau hyfforddi.
- Cafodd Prosiect Canolfan Iechyd Bae Colwyn sylw yn ein seminar Tai a Chwaraeon ym mis Mawrth 2015. Datblygodd cydweithwyr iechyd a llywodraeth leol a gyfarfu yn y seminar y syniad o adleoli’r Ganolfan i ganolfan hamdden awdurdod lleol. Yn sgil hyn, cafwyd gwell ymwybyddiaeth o’r potensial i ddefnyddio gweithgareddau hamdden i drin cyflyrau cronig hirdymor.
- Ers ein seminar Gwneud Defnydd Gwell o Asedau Cyhoeddus ym mis Ionawr 2015, mae Indycube, sef menter gymdeithasol sy’n rhoi cyfleoedd i weithwyr llaw-rydd a microfusnesau gydweithio ag eraill tra’n aros yn agos i gartref, bellach yn gweithio mewn partneriaeth â mwy na dwsin o gyrff yn y sector cyhoeddus ledled Cymru, gan greu llif refeniw bach yn gyfnewid am ddarparu mannau gweithio.

‘Wedi’i drefnu’n dda iawn. Popeth yn rhedeg yn esmwyth. Rhwydweithio cyn ac ar ôl y digwyddiad yn ddefnyddiol iawn.’

‘‘Roedd y siaradwyr yn ddiddorol, yn llawn gwybodaeth ac yn frwdfrydig. Roedd yn wych bod defnyddwyr gwasanaethau yn chwarae rhan ar bob lefel yn ystod y seminar. Gwnaethant rannu’r safbwyntiau pwysicaf am y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a’u derbyn.’

Adborth gan bobl a ddaeth i’n seminar dysgu ar y cyd ar annibyniaeth barhaus pobl hŷn

# Ymgysylltu a chydweithio

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi parhau i weithredu ar eu hymrwymiad i ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid er mwyn llywio'r broses o ddatblygu gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, sicrhau ei fod mor berthnasol â phosibl ac estyn ei gyrhaeddiad a'i effaith. Yn gyson â'n Cynllun, rydym hefyd wedi gweithio'n agos gydag asiantaethau archwilio eraill y DU a'r prif gyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru i wella effaith gyfunol ein gwaith, ac wedi gwneud ychydig o waith archwilio a gomisiynwyd.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu gwneud trefniadau gyda mathau penodol o gyrff er mwyn i'r swyddfa neu'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu gwasanaethau i'r cyrff hynny, neu arfer eu swyddogaethau. Ond, rydym yn ymwybodol y dylai'r holl weithgareddau hynny fod yn hunangyllidol ac na ddylent amharu ar ein gwaith archwilio craidd yng Nghymru.



Gweithiwyd gyda'n partneriaid i ehangu'r wybodaeth a ddefnyddir fel rhan o ymarfer

**paru data**

y Fenter Twyll Genedlaethol

Aelod gweithredol o

**10**

gweithgor allanol allweddol a sylwedydd ar naw grŵp arall

Archwiliwyd

**£250 miliwn**

o gyllid Ewropeaidd a ddefnyddiwyd i gefnogi ffermwyr ac amaethyddiaeth ledled Cymru

**66%**

o randdeiliaid o'r farn ein bod yn gweithio'n dda gyda chyrff adolygu allanol eraill

Mae

**pob un**

o'n blaenoriaethau tair blynedd ar gyfer gwaith ymgysylltu a chydweithio naill ai wedi eu cwblhau neu ar y trywydd iawn

# Astudiaeth achos:
# Archwiliad o gronfeydd amaethyddol Ewrop




Yn ystod 2015-16, archwiliodd yr Archwilydd Cyffredinol tua €318 miliwn (£250 miliwn) o gronfeydd Ewropeaidd a hawliwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi ffermwyr ac amaethyddiaeth ledled Cymru.

Gyda'r arian hwnnw, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud taliadau i ffermwyr er mwyn eu helpu i gadw eu tir mewn cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da ac i gymryd rhan mewn prosiectau eraill er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Datblygu Gwledig Cymru. Hefyd, gwneir taliadau i fusnesau gwledig er mwyn cefnogi agweddau eraill ar y Cynllun, fel prosesu, marchnata a chyflenwi cynhyrchion amaethyddol.

Caiff y ffordd rydym yn gwneud y gwaith hwn ei rhagnodi gan y Comisiwn Ewropeaidd, ac fe'i cyflawnir gan gonsortiwm o archwilwyr yn y DU, gan gynnwys y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon ac Audit Scotland.

Mae'n ofynnol i ni ddilysu gwaith arolygwyr Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am gadarnhau'r wybodaeth amaethyddol sy'n sail i'r hawliadau gan y sawl sy'n gwneud cais am gyllid. Ymhlith y mathau o dasgau dan sylw mae cadarnhau maint y cae, cadarnhau bod coetir yn bodoli, neu fod darn penodol o offer yn cael ei ddefnyddio. Fel rhan o'r gwaith, mae ein harchwilwyr yn dadansoddi mapiau lloeren, yn ymweld â busnesau amaethyddol ac yn cerdded tir amaethyddol ar hyd a lled Cymru er mwyn dilysu casgliadau'r arolygydd - 'gwaith maes' go iawn.

Drwy ein gwaith archwilio, gwnaethom nodi nifer o fân feysydd i'w gwella, ond ar y cyfan roeddem yn gallu dod i'r casgliad bod y gwariant yn berthnasol gywir a bod rheolaethau Llywodraeth Cymru yn gweithio'n dda.

# Ein trefniadau llywodraethu ac arwain

Fel y'i rhagnodwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, rydym bellach yn y sefyllfa unigryw o gael aelodau anweithredol a gweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, yn ogystal ag aelodau etholedig sy'n gyflogeion, er mwyn rhoi dimensiwn ychwanegol o fewnwelediad a phrofiad. Mae ein trefniadau llywodraethu yn rhoi cyfle gwirioneddol i ni ddatblygu ymhellach fel busnes.

Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru strwythur uwch reoli hefyd, sydd â'r nod o gynnig llinellau adrodd ac atebolrwydd clir, a galluogi'r Archwilydd Cyffredinol drwy ei waith i hysbysu'r cyhoedd a dylanwadu ar y ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol.

Ceir amlinelliad o strwythur rheoli Swyddfa Archwilio Cymru, adroddiadau ar lywodraethu corfforaethol a rheoli risg ar gyfer y flwyddyn, a disgrifiad o'r prif risgiau ac achosion o ansicrwydd a wynebwyd yn 2015-16, yn y Datganiad Llywodraethu.

Ceir rhagor o wybodaeth am aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli yn ystod 2015-16 yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Cred

83%

o randdeiliaid fod Swyddfa Archwilio Cymru yn sefydliad a gaiff ei redeg yn dda

'Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn sefydliad proffesiynol yr olwg sydd â systemau cyfathrebu da a rhai pobl dda iawn'

'Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn agored, yn hygyrch ac yn hawdd i ddelio â hi'

Adborth a gafwyd drwy ein harolwg o randdeiliaid

# Ein defnydd o adnoddau

Rydym wedi gweithio'n galed i ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy yn y ffordd rydym yn rhedeg ein busnes, ac yn y ffordd rydym yn neilltuo adnoddau ar gyfer gwaith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol, ers nifer o flynyddoedd. Mae a wnelo datblygu cynaliadwy â diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy.

## Gwaith rheoli ariannol ac arbedion effeithlonrwydd

Yn y cyfnod hwn o gyfyngiadau ariannol, erys rheoli ariannol cadarn a chosteffeithlonrwydd yn flaenoriaeth yn Swyddfa Archwilio Cymru. Gwnaethom leihau ein gwariant gweithredu net o gymharu â'n Hamcangyfrif bron £0.5 miliwn (tua 7 y cant) yn 2015-16. Nid oedd angen i ni ddefnyddio cronfa wrth gefn gyffredinol gwerth £0.2 miliwn a ddelir o fewn y gyllideb gymeradwy, a ddychwelir i Gronfa Gyfunol Cymru.

Roedd ein Hamcangyfrif ar gyfer 2015-16 yn cynnwys targed arbedion o £0.8 miliwn am y flwyddyn. Cyflawnwyd y targed hwn, a chynhyrchwyd £0.5 miliwn arall drwy reoli gwariant, swyddi gwag a chontractwyr yn ofalus, a arweiniodd at leihau ein costau TAW yn sylweddol.

Cyflwynwyd system rheoli gwybodaeth archwilio ariannol (Insight) yn ystod hydref 2015. Cafodd y prosiect ei reoli ar amser ac o fewn y gyllideb sy'n golygu ein bod wedi:

- cyflawni ein prif amcan o sicrhau parhad busnes systemau TG hanfodol;
- rhesymoli ein systemau drwy ddefnyddio Insight i gofnodi amser yn ogystal â'n llwyfan archwilio ariannol; a
- chyflawni gostyngiad o 60 y cant yng nghostau cymorth a chynnal a chadw blynyddol y systemau hyn; arbediad o £48,000 y flwyddyn.

Cafodd gwelliannau effeithlonrwydd eraill mewn amrywiaeth o feysydd eu gwneud yn ystod y flwyddyn, fel cyflwyno:

- system dreuliau ar-lein, gyda'r nod o gynyddu awtomeiddio a gwella gwybodaeth reoli tra'n lleihau amser anghynhyrchiol;
- system recriwtio ar-lein, gyda'r nod o foderneiddio'r broses recriwtio a lleihau gwaith gweinyddol llafurus; a
- gwell cyfleusterau fideo-gynadledda yn cael eu rhedeg o liniaduron staff er mwyn helpu i leihau milltiroedd ac amser teithio.

Mae'r gyfundrefn ariannu sy'n llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru yn gymhleth, yn gyfyngol ac yn ddwys ei hadnoddau. Croesawn ymrwymiad Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol[1] i sicrhau bod trefniadau symlach ar waith ar gyfer gweinyddu ffioedd, a fydd, yn ein barn ni, yn arwain at fwy o gosteffeithlonrwydd gweithredol a llai o faich o ran trafodion ar ein cyrff archwiliedig.

1 Cynulliad Cenedlaethol Cymru Y Pwyllgor Cyllid Adroddiad Etifeddiaeth y Pedwerydd Cynulliad

## Ansawdd ein gwaith

Mae ansawdd ein gwaith o'r pwys mwyaf i ni a'n rhanddeiliaid. Mae'r Cod Ymarfer Archwilio, ynghyd â Datganiad Ymarfer ar gyfer swyddogaethau archwilio, asesu ac arolygu arbennig mewn perthynas â gwella llywodraeth leol, yn rhagnodi'r ffordd y dylid cyflawni swyddogaethau archwilio a rhai o swyddogaethau eraill yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r ddwy ddogfen wedi'u cynllunio i ategu Safonau Archwilio Rhyngwladol ac ymgorffori arfer gorau proffesiynol.

Mae Adroddiad Tryloywder 2015, sy'n rhoi rhagor o fanylion am sut mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyrraedd safonau uchel yn y ffordd y mae'n gweithio ac o ran ansawdd ei gwaith, ar gael ar ein gwefan; caiff adroddiad tebyg ar gyfer 2015-16 ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn 2016.

## Recriwtio, cynllun hyfforddeion a phrofiad gwaith

Fel corff archwilio proffesiynol a darparwr hyfforddiant achrededig â thri chorff cyfrifyddu proffesiynol, mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn ymrwymedig i raglen dreigl o recriwtio hyfforddeion. Drwy ein hymgyrchoedd recriwtio blynyddol anelwn at ddenu ymgeiswyr o'r safon orau bosibl.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2015-16, llwyddodd 14 o hyfforddeion i symud ymlaen i gamau nesaf eu hastudiaethau, gan gyflawni cyfradd pasio ar y cynnig cyntaf o 91 y cant ar gyfer arholiadau Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW).

Yn ogystal â'u hastudiaethau proffesiynol, rydym yn rhoi hyfforddiant pwrpasol a phrofiad gwaith perthnasol i'n hyfforddeion. Yn ystod eu hyfforddiant dros bedair blynedd, maent yn treulio amser yn gweithio gyda thimau archwilio amrywiol, gan wneud cyfraniad allweddol i'n llwyddiant cyffredinol.

Rydym hefyd yn cynnig cyfleoedd profiad gwaith yn Swyddfa Archwilio Cymru drwy ein cysylltiadau â Gyrfa Cymru ac ysgolion a phrifysgolion lleol. Yn ystod 2015-16, bu chwe myfyriwr ar leoliad gwaith gyda ni.

## Dysgu a datblygu

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn ddysgu a datblygiad ein staff i'w helpu i gyflawni eu gwaith. Yn 2015/16, treuliwyd 9.3 diwrnod ar gyfartaledd gan gyflogai ar amrywiaeth o weithgareddau dysgu a datblygu. Cafodd rhywfaint o'r hyfforddiant ei gynllunio a'i ddarparu'n fewnol, a lle y bo'n briodol ac yn gost-effeithiol, comisiynwyd cymorth hyfforddiant allanol hefyd i roi hyfforddiant yn unol â'n gofynion penodol.

Mae ffurflen werthuso electronig yn ein galluogi i gofnodi canlyniadau'n gyflym ac yna fesur llwyddiant ac effaith y cyrsiau hyfforddiant. Teimlai 97 y cant o staff fod y cyrsiau a ddilynwyd ganddynt yn 2015-16 yn effeithiol o ran eu helpu i gyflawni eu hamcanion.

## Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth dwyieithog ac mae'n ymfalchïo yn hynny. Ein Cynllun Iaith Gymraeg yw'r sail dros y ffordd rydym yn gweithredu ac mae'n amlygu ein penderfyniad i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae ein dogfennau cyhoeddus ar gael yn Gymraeg a Saesneg, mae gennym wefan gwbl ddwyieithog ac rydym yn cyfathrebu â'r cyhoedd, cyrff a archwilir a'r cyfryngau yn y ddwy iaith.

Mae ein hadroddiad blynyddol diweddaraf ar ein cynnydd tuag at weithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg ar gael ar ein gwefan.

## Lles cyflogeion

Rydym yn ymrwymedig i annog ffordd o fyw iach a chydbwysedd da rhwng gwaith a bywyd ymhlith ein staff. Rydym hefyd am i'n staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n llawn pan fyddant yn wynebu anawsterau, ni waeth a effeithir ar eu gallu i ymgymryd â'u rôl ai peidio.

Ategir ein polisi lles gan ganllawiau sy'n cefnogi ein hymrwymiadau ac yn sicrhau bod unrhyw faterion iechyd a lles staff yn cael eu nodi a'u rheoli mewn ffordd ragweithiol a sensitif. Rydym hefyd yn hybu ac yn cefnogi iechyd a lles emosiynol a chorfforol staff, a'u llesiant, gan gynnwys drwy raglen flynyddol o ddigwyddiadau.

Hefyd, mae rhaglen cymorth i gyflogeion ar gael naill ai drwy wasanaeth ffôn 24 awr neu drwy gyfleuster ar-lein. Mae'r rhaglen cymorth i gyflogeion yn rhoi cyngor proffesiynol a chymorth emosiynol i staff ar amrywiaeth o faterion.

Rydym yn monitro cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn fanwl ac rydym wedi rhoi nifer o systemau ar waith i helpu staff i ddychwelyd i'r gwaith yn llwyddiannus. Cafodd 7.3 diwrnod cyflogai eu colli ar gyfartaledd oherwydd absenoldeb oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn adrodd a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016. Rydym yn gweithio i ostwng hyn i 6.5 diwrnod.

## Cydraddoldeb a hawliau dynol

Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru gydymffurfio â'r fframwaith diogelu yn erbyn gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae gennym gyfrifoldeb hefyd i gydymffurfio â'r confensiynau a nodwyd yn Neddf Hawliau Dynol 1998. Rydym yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth pawb, gan gynnwys ein staff ein hunain a'r rhai rydym yn dod i gysylltiad â hwy fel rhan o'n gwaith, ac rydym yn llawn gefnogi hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn amlinellu ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb a'n hamcanion cysylltiedig. Mae ein hadroddiadau blynyddol ar gynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb ar gael ar ein gwefan.

# Gwaith cymunedol ac elusennol

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod y buddiannau y gall gwaith cymunedol a gwaith elusennol gan staff eu cyflwyno i'r gymuned ehangach ac yn cymeradwyo'r staff am eu hymdrechion unigol. Gall staff ddefnyddio'r sgiliau a ddatblygwyd ganddynt yn y gweithle a datblygu sgiliau newydd, gan wella eu morâl, eu hiechyd corfforol a'u cydbwysedd bywyd a gwaith ar yr un pryd.

Yn amodol ar ofynion gweithredol rydym yn cefnogi cyflogeion sydd am gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol neu elusennol megis gwaith gofal yn y gymuned, prosiectau cadwraeth, a gweinyddu digwyddiadau cyhoeddus.

At hynny, dewisir elusen bob blwyddyn drwy bleidlais y staff i fod yn ffocws i nifer o weithgareddau codi arian a chyfleoedd i ddysgu. Dewisodd y staff yr elusen Crossroads, sy'n rhan o Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, fel ffocws eu gweithgareddau codi arian yn 2015-16. Dros y flwyddyn, cynhaliodd ein staff nifer o ddigwyddiadau codi arian yn eu hamser eu hunain:

- Bu cydweithwyr o Swyddfa Archwilio Cymru ymhlith y 15,000 o feicwyr a gymerodd ran yn Felothon cyntaf Cymru, gan ymgiprys â chyrsiau 140km a 50km, ddydd Sul 14 Mehefin 2014.
- Ar benwythnos 12 a 13 Medi 2015, cwblhaodd nifer fawr o staff Swyddfa Archwilio Cymru 'y llwybr archwilio', lle gwnaethant, gyda'i gilydd, gerdded yr 870 milltir o Lwybr Arfordir Cymru mewn cyfnod o 24 awr.
- Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau eraill, gan gynnwys gwerthu teisennau, rafflau, noson gwis a noson barbeciw.

Unwaith eto, cododd y staff dros £8,000 at yr elusen. Ar gyfer 2016-17, CDH UK fydd ffocws gweithgareddau codi arian y staff.





# Gwarchod yr amgylchedd[2]

Cawsom ein hailachredu ar Lefel 4 (y lefel uchaf ond un) o Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd ar gyfer 2015-16, gan ddangos ein hymrwymiad parhaus i reoli amgylcheddol effeithiol. Rydym bellach yn gweithio tuag at gyflawni Lefel 5 (y lefel uchaf) yn ystod 2016-17.

Gostyngodd lefel ein hallyriadau cyfwerth â $CO_2$ tua 2 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a gwnaethom fuddsoddiad pellach yn ein cyfleusterau fideo-gynadledda, fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i gefnogi gweithio hyblyg a lleihau costau teithio a chostau cysylltiedig diangen.

Cynhyrchwyd ychydig yn fwy o wastraff yn 2015-16, am ein bod wedi rhesymoli ein cyfleusterau storio a threfnu bod TGCh, dodrefn a chyfarpar segur neu anoperadwy yn cael ei gasglu i'w ailddefnyddio neu ei ailgylchu. Yn y broses, gwnaethom gynhyrchu peth incwm a lleihau ein costau storio.


Yn 2015-16, cafodd 55 y cant o'n gwastraff ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio - gwelliant sylweddol o gymharu â 41 y cant y flwyddyn flaenorol. Rydym yn ymrwymedig i wella'r ffigur hwn ymhellach, fel y dangoswyd yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2016-17, lle rydym wedi cynnal ein targedau, sef 60 y cant yn 2016-17 a 70 y cant erbyn 2018.

Lleihawyd y defnydd o bapur a dŵr yn 2015-16, a gwnaethom wella effeithlonrwydd cyffredinol ein defnydd o swyddfeydd 5 y cant. Rydym wedi sicrhau eiddo newydd yn y gogledd ar gyfer 2016; bydd symud swyddfeydd yn ein helpu i leihau ein costau cyffredinol, gwneud defnydd gwell o'n swyddfeydd a gwella ein perfformiad amgylcheddol.


Yn dilyn cyngor gan ein harchwilydd amgylcheddol, sef y Ddraig Werdd, a chyda chymorth yr elusen amgylcheddol Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP), gwnaethom gynnal adolygiad o'n prosesau ar gyfer mesur ac adrodd ar ein systemau rheoli gwastraff. O 2016-17 ymlaen, byddwn yn dechrau defnyddio Cyfrifiannell Pwysau Gwastraff Busnes WRAP er mwyn mesur yn fwy cywir ein lefelau gwastraff, a byddwn yn defnyddio'r adnodd i ailgyfrifo data blaenorol a phennu llinell sylfaen a thargedau diwygiedig.

2 Paratowyd yn unol â **HM Treasury Public Sector Annual Reports Sustainability Reporting Guidance 2015-16**


## Rheoli gwastraff





## Allyriadau nwyon tŷ gwydr




## Defnydd o ynni




## Defnydd o bapur



| | 2015-16 | 2014-15 | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|---|---|
| **Rheoli amgylcheddol** | | | | |
| Lefel achredu'r Ddraig Werdd | 4 | 4 | 4 | 4 |
| **Defnydd o adnoddau cyfyngedig**[3] | | | | |
| Y defnydd o ddŵr $m^3$ | 2,756 | 2,760 | 2,351 | 2,322 |
| Y defnydd o ddŵr $m^3$ fesul WTE | 10.5 | 12.0 | 10.1 | 9.9 |
| Costau cyflenwi dŵr £ | 6,280 | 4,754 | 4,348 | 3,336 |
| Y defnydd o bapur mewn rimiau | 2,150 | 2,305 | 2,325 | 2,385 |
| Costau cyflenwi papur £ | 5,609 | 6,349 | 6,426 | 6,112 |
| **Rheoli gwastraff**[4] | | | | |
| Cyfanswm y gwastraff (tunelli) | 86.1 | 66.5 | 65.8 | 86.0 |
| Ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio | 47.0 | 27.4 | 26.2 | 26.9 |
| Gwastraff TGCh a ailgylchwyd ac a ailddefnyddiwyd (allanol) | 3.5 | 0 | 0 | 0 |
| Dodrefn a chyfarpar (allanol) | 13.0 | 0 | 0 | 0 |
| Ailgylchu cymysg, papur, gwastraff bwyd, gardd | 30.5 | 27.4 | 26.2 | 26.9 |
| Tirlenwi | 37.2 | 39.1 | 39.2 | 59.2 |
| Peryglus | 1.9 | 0 | .4 | 0 |
| Ailddefnyddio, ailgylchu, compostio fel % o[5] | 54.6 | 41.1 | 39.8 | 31.2 |
| Cyfanswm costau gwaredu £ | 16,400 | 7,337 | 6,229 | 8,586 |
| **Allyriadau nwyon tŷ gwydr**[6] | | | | |
| TCyfanswm yr allyriadau (tunelli) $CO_2$ | 555.6 | 563.1 | 539.5 | 551.6 |
| Y gellir eu priodoli i deithiau busnes | 269.6 | 275.7 | 252.1 | 251.8 |
| Mewn car | 230.1 | 239.1 | 231.2 | 235.9 |
| Ar y rheilffordd neu drwy'r awyr | 39.5 | 36.6 | 20.9 | 16.0 |
| Y gellir eu priodoli i'r defnydd o ynni | 261.6 | 263.3 | 261.8 | 299.8 |
| Trydan | 256.1 | 257.7 | 257.5 | 293.4 |
| Nwy | 5.5 | 5.5 | 4.3 | 6.4 |
| Y gellir ei briodoli i arall[7] | 24.3 | 24.1 | 25.6 | n/a |
| Cyfanswm gwariant ar deithiau busnes £000[8] | 1,258 | 1,214 | 1,173 | 1,142 |
| Cost fesul WTE teithio busnes £ | 4,972 | 5,037 | 4,827 | 5,053 |
| Cyfanswm gwariant ynni £ | 64,394 | 63,119 | 56,556 | 69,874 |
| **Effeithlonrwydd ystad** | | | | |
| Cost fesul WTE £[9] | 3,228 | 3,397 | 3,431 | 3,186 |
| Costeffeithlonrwydd[10] £ fesul $m^2$ | 300 | 278 | 285 | 265 |
| Effeithlonrwydd o ran gofod $m^2$ fesul WTE[11] | 10.7 | 12.2 | 12.0 | 12.0 |

3 Ffigurau defnydd o ddŵr a chostau cyflenwi ar gyfer 2014-15 wedi'u hailddatgan. Ystyrir bod arfer da a gorau o ran y defnydd o ddŵr mewn swyddfa yn 4 m3 i 6 m3 a ≤4 m3 yn y drefn honno fesul Cyfwerth ag Amser Cyflawn (WTE) y flwyddyn (**Greening Government Commitment targets (Saesneg yn unig)**). Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid ydym yn cynnwys ymwelwyr swyddfa yn ein cyfrifiad sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar ein ffigurau oherwydd nifer y digwyddiadau dysgu ar y cyd a gynhelir yn ein pencadlys yng Nghaerdydd.

4 Fe'i cyfrifwyd drwy ddefnyddio ffactorau trosi WRAP priodol, gyda ffigurau rhai blynyddoedd blaenorol wedi'u hailddatgan.

5 Cyfanswm o 75 y cant ar gyfer Llywodraeth Cymru yn 2014-15 (**Adroddiad ar Gyflwr yr Ystad 2014-15**).

6 Cyfrifwyd yn unol â **DEFRA Environmental Reporting Guidelines (Saesneg yn unig)**.

7 Y gellir ei briodoli i allyrru a dosbarthu ynni, gwaredu gwastraff a defnyddio a thrin dŵr.

8 Ailddatganwyd ar gyfer blynyddoedd blaenorol ac mae bellach yn cynnwys costau ceir ar brydles, lwfansau teithio a theithio a chynhaliaeth.

9 O gymharu â £3,139 ar gyfer Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2015.

10 Gan gynnwys rhent, ardrethi a chostau eraill.

11 O gymharu â 14.2 m2 fesul WTE ar gyfer Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2015. Yn 2015-16 y gwnaethom gynnwys contractwyr yn ein cyfanswm WTE gyntaf, er mwyn sicrhau cymhariaeth meincnodi tebyg at ei debyg.

# Adroddiad ar atebolrwydd

Datganiadau ac adroddiadau allweddol sy’n ein galluogi i fodloni gofynion atebolrwydd a dangos cydymffurfiaeth ag arfer llywodraethu corfforaethol da.

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu

10 Mehefin 2016

# Adroddiad ar lywodraethu corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

### Materion cyffredinol

Ar 1 Ebrill 2014, sefydlwyd Swyddfa Archwilio Cymru yn llawn o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 pan drosglwyddwyd staff, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau oddi wrth yr Archwilydd Cyffredinol. Yn unol â hynny, 2014-15 oedd blwyddyn gyfrifyddu lawn gyntaf Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae'r adroddiad ar gydnabyddiaeth a staff yn dangos sut y caiff rhwymedigaethau pensiwn eu trin yn y cyfrifon ac mae'n cyfeirio at ddatganiadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Ceir gwybodaeth am ein cofrestr o fuddiannau a sut y gellir gweld y wybodaeth yn y gofrestr honno yn y datganiad llywodraethu.

Cyflwynir data absenoldeb oherwydd salwch Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd â gwybodaeth am ein hymrwymiad i sicrhau bod pob aelod o staff â nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys nam[12]) yn cael ei drin yn deg ac yn gyfartal ym mhob agwedd ar gyflogaeth, yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth a staff.

Mae gwybodaeth am gofnodi digwyddiadau sy'n ymwneud â data personol wedi'i chynnwys yn yr adran ar lywodraethu gwybodaeth yn y datganiad llywodraethu.

Mae ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2016-17 a gyhoeddwyd yn amlinellu datblygiadau tebygol yn y dyfodol o ran busnes yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru.

12 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymrwymedig i'r Model Cymdeithasol o Anabledd i gydnabod bod pobl â namau yn cael eu hanalluogi gan rwystrau cymdeithasol, amgylcheddol, sefydliadol ac agweddol mewn cymdeithas. Diffiniadau pwysig yn y Model Cymdeithasol:

- Ystyr nam yw anaf, salwch neu gyflwr cynhwynol sy'n achosi neu'n debygol o achosi effaith hirdymor ar ymddangosiad corfforol a/neu gyfyngu ar weithrediad yr unigolyn sy'n wahanol i'r cyffredin.
- Ystyr anabledd yw colli neu gyfyngu ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn cymdeithas ar sail gyfartal ag eraill oherwydd rhwystrau sefydliadol, amgylcheddol ac agweddol.

# Cyfathrebu ac ymgysylltu â staff

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi defnyddio amrywiaeth o gyfryngau a dulliau i wneud y canlynol: rhoi gwybodaeth i gyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru am faterion sy'n peri pryder iddynt fel cyflogeion; ymgynghori â chyflogeion neu eu cynrychiolwyr yn rheolaidd fel bod modd ystyried barn cyflogeion wrth wneud penderfyniadau sy'n debygol o effeithio ar eu buddiannau; annog cyflogeion i ymwneud â pherfformiad y sefydliad;  a sicrhau ymwybyddiaeth gyffredin ymhlith yr holl gyflogeion o'r materion ariannol ac economaidd sy'n effeithio ar berfformiad Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae'r rhain yn cynnwys cyfathrebu, ymgysylltu ac ymgynghori drwy:

- gynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd ag uwch aelodau o staff a chynnwys aelodau'r Bwrdd;
- trefnu cyfarfodydd 'fforwm partneriaeth' â chynrychiolwyr undeb llafur, a chynnwys cynrychiolwyr o'r fath yn y broses o baratoi neu ddiwygio polisïau penodol a mentrau datblygu sefydliadol, lle bo'n berthnasol;
- cyhoeddi blogiau rheolaidd gan aelodau o'r Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli, a sicrhau bod cofnodion Bwrdd a Phwyllgor Rheoli ar gael ar y fewnrwyd;
- cynnal 'carwsél' mewnrwyd o newyddion, adroddiadau ac ymgynghoriadau cyfredol ac annog staff i rannu gwybodaeth ac arfer da drwy rwydwaith cyfryngau cymdeithasol mewnol; a
- pharatoi, cyhoeddi a chodi ymwybyddiaeth o'n Cynllun Blynyddol (ac adroddiadau interim a blynyddol yn erbyn y Cynllun hwnnw), sy'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ein strategaeth a'n blaenoriaethau tair blynedd, ynghyd â chyfres o fesurau a thargedau perfformiad allweddol.

Hefyd, rhoddodd aelodau etholedig sy'n gyflogeion ddimensiwn ychwanegol o ddealltwriaeth a phrofiad, a chafodd canfyddiadau staff eu cyfleu i'r Bwrdd.

Hefyd, yn ystod 2015-16, gwnaethom weithio mewn partneriaeth ag undeb llafur Prospect er mwyn cynnal arolwg o ymddiriedaeth sefydliadol drwy Ganolfan Ymddiriedaeth, Heddwch a Chysylltiadau Cymdeithasol Prifysgol Cofentri. Roedd y gwaith hwn yn tynnu at ei derfyn ar ddiwedd y flwyddyn.

# Archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru


Penodwyd RSM UK Audit LLP (Baker Tilly UK Audit LLP gynt) yn archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru gan Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru am gyfnod o dair blynedd yn dechrau 1 Ebrill 2014.

Yn ogystal â'i waith yn llunio barn ar y datganiadau ariannol, mae RSM UK Audit LLP hefyd yn cyflwyno adroddiadau gwerth am arian ar Swyddfa Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, sydd ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol. Yn ystod 2015-16, gwnaethom gwblhau ein hymateb i adolygiad RSM UK Audit LLP o'n trefniadau fflyd a theithio.

Caiff manylion cost gwasanaethau archwilio allanol eu datgan yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilydd yn ymwybodol ohoni, ac rwyf wedi cymryd pob cam y dylwn fod wedi'i gymryd er mwyn bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, a chadarnhau bod ein harchwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

# Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru




David Corner

Aelod anweithredol



Amanda Hughes

Aelod a etholwyd o blith y staff



Kevin Thomas

Aelod a benodwyd o blith y staff




Steve Burnett

Aelod anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol



Isobel Garner

Cadeirydd anweithredol




Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Prif Weithredwr



Lindsay Foyster

Aelod anweithredol



Peter Price

Aelod anweithredol



Louise Fleet

Aelod a etholwyd o blith y staff

**Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am y canlynol:**

Monitro arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol

Rhoi cyngor i'r Archwilydd Cyffredinol

Cyflogi staff a darparu adnoddau i gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol

Codi ffioedd am waith a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol

Ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, paratoi cynllun blynyddol ac amcangyfrif o incwm a chostau

# Pwyllgor Rheoli Swyddfa Archwilio Cymru



**Huw Vaughan Thomas**

Archwilydd Cyffredinol, Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr



**Anthony Barrett**

Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol a Phennaeth Archwilio Ariannol



**Gillian Body**

Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol a Phennaeth Archwilio Perfformiad



**Alan Morris**

Arweinydd Sector, Llywodraeth Leol a Chyfiawnder Troseddol



**Mike Usher**

Arweinydd Sector, Iechyd a Llywodraeth Ganolog



**Kevin Thomas**

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol



**Steve O'Donoghue**

Cyfarwyddwr Cyllid

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan baragraff 33 o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, yr Archwilydd Cyffredinol yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru a rhaid iddo, ar gyfer pob blwyddyn ariannol:

- gadw cyfrifon priodol a chofnodion priodol mewn perthynas â hwy; a
- pharatoi datganiad o gyfrifon yn unol â'r ffurf a'r sail a bennir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon.

Paratoir y cyfrifon ar sail gronnus ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Archwilydd Cyffredinol, yn ogystal â'i alldro adnoddau net, y defnydd o adnoddau, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Cyflwyno Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gwneud y canlynol yn benodol:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Cyflwyno Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon; a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes byw.

Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol drosto, ac am gadw cofnodion priodol a diogelu asedau Swyddfa Archwilio Cymru, yn Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fel y Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, a gyhoeddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, rhaid i'r Swyddog Cyfrifyddu:

- sicrhau bod safon uchel o reolaeth ariannol yn Swyddfa Archwilio Cymru a bod ei systemau a'i gweithdrefnau ariannol yn hyrwyddo proses effeithlon a darbodus o gynnal busnes a diogelu priodoldeb a rheoleidd-dra ariannol;
- sicrhau mai dim ond i'r graddau ac at y dibenion a awdurdodir gan y Cynulliad y cymhwysir cronfeydd;
- sicrhau bod yr adnoddau y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol amdanynt yn cael eu rheoli a'u diogel'n briodol ac yn dda; a
- chynghori Swyddfa Archwilio Cymru ar faterion priodoldeb a rheoleidd-dra ariannol.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, gallaf gadarnhau'r canlynol:

- hyd y gwn, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol ohoni;
- rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno; ac
- mae'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon hyn yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac rwyf yn cymryd cyfrifoldeb personol amdanynt ac am y farn sydd ei hangen er mwyn pennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

# Datganiad Llywodraethu

Mae'r datganiad hwn yn amlinellu strwythur rheoli Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn rhoi adroddiad ar drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg, ynghyd â disgrifiad o'r prif risgiau ac achosion o ansicrwydd a wynebwn.

Nodir fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu yn y datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu. Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn ac ymhlith gofynion eraill, mae'n rhaid i mi geisio sicrhau:

- bod system gadarn o reolaeth fewnol yn cael ei chynnal yn Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys proses archwilio mewnol gadarn, er mwyn ategu'r broses o arfer swyddogaethau statudol yn briodol; a
- bod Swyddfa Archwilio Cymru, wrth reoli cyfleoedd a risgiau, yn sicrhau'r cydbwysedd cywir sy'n gymesur â busnes yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru.

## Llywodraethu corfforaethol

### Y fframwaith llywodraethu

Ceir crynodeb o fframwaith llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys gwybodaeth am gwmpas gwaith y Bwrdd a'i bwyllgorau, yn yr arddangosyn canlynol.

Mae ein Bwrdd llawn o naw aelod, fel y'i pennwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, yn cynnwys mwyafrif o bum aelod anweithredol (gan gynnwys y Cadeirydd), yr Archwilydd Cyffredinol, cyflogai a benodwyd a dau gyflogai etholedig.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cynnwys pum aelod anweithredol y Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (PASR) yn cynnwys dau aelod anweithredol o'r Bwrdd, cyflogai etholedig o'r Bwrdd ac aelod annibynnol.

Ceir rhagor o wybodaeth am aelodaeth y Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Mae'r Pwyllgor Rheoli a Chyfarwyddwyr eraill hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd fel Uwch Dîm Arwain ehangach. Mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau, a'r Pwyllgor Rheoli, yn cael eu cefnogi gan Ysgrifennydd Bwrdd.

Wrth gynnal ei waith, mae'r Bwrdd yn cymhwyso Cynllun Dirprwyo ffurfiol, cylch gorchwyl sy'n ymgorffori ei reolau gweithdrefnol, Cod Ymddygiad i Aelodau a Chod Ymarfer sy'n Llywodraethu'r Berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol.

## Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol

Craffu ar ddefnydd Swyddfa Archwilio Cymru o adnoddau ac yn gyfrifol am benodi aelodau anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru a'r archwilydd allanol

## Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Monitro'r gwaith o gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol

Cynghori'r Archwilydd Cyffredinol

Cyflogi staff a darparu adnoddau i gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol

Codi ffioedd am waith yr Archwilydd Cyffredinol

Ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, paratoi amcangyfrif o incwm a threuliau, cynllun ffioedd, cynllun blynyddol, adroddiad(au) interim ac adroddiad blynyddol

## Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Cynghori'r Bwrdd ynghylch p'un a yw'r trefniadau cydnabyddiaeth yn:

a) cefnogi ei nodau strategol;

b) galluogi cynnal busnes mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus; a

c) chydymffurfio â gofynion rheoliadol

## Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Cynghori'r Bwrdd ynghylch p'un a yw'r trefniadau archwilio a sicrhau risg yn:

a) cefnogi ei nodau strategol;

b) galluogi cynnal busnes mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus; a

c) chydymffurfio â gofynion rheoliadol

## Pwyllgor Rheoli

Darparu adnoddau llywodraethu a rheoli gweithredol ar gyfer gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru. Cadeirir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu.

## Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn 2015-16

| | Y Bwrdd | PASR | PC | PRh |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd | 7 | 4 | 5 | 14 |
| **Aelodau'r Bwrdd a'i bwyllgorau** | | | | |
| Isobel Garner – Cadeirydd Anweithredol | 7 | | 5 | 1 |
| Steve Burnett – Aelod Anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol | 7 | | 3 | |
| David Corner – Aelod Anweithredol a Chadeirydd PASR | 7 | 4 | 5 | |
| Peter Price – Aelod Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth (PC) | 7 | | 5 | |
| Lindsay Foyster – Aelod Anweithredol | 7 | 4 | 5 | |
| Huw Vaughan Thomas - Archwilydd Cyffredinol Cymru, Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu[1] | 7 | 4 | 4 | 13 |
| Kevin Thomas – Aelod Penodedig sy'n Gyflogai a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol[2] | 7 | 4 | | 11 |
| Amanda Hughes, Aelod Etholedig sy'n Gyflogai[3] | 7 | 1 | | |
| Louise Fleet – Aelod Etholedig sy'n Gyflogai | 7 | 3 | | |
| Alison Gerard – Aelod Anweithredol Annibynnol PASR | 1 | 4 | | |
| **Aelodau o'r Pwyllgor Rheoli (PRh) nad ydynt yn aelodau'r Bwrdd[4]** | | | | |
| Anthony Barrett | 3 | 2 | | 12 |
| Gillian Body | 5 | 1 | | 12 |
| Mike Usher | 1 | | | 14 |
| Alan Morris | | | | 12 |
| Steve O'Donoghue[5] | 7 | 4 | 5 | 14 |

1 Bu Huw Vaughan Thomas yn bresennol yng nghyfarfodydd PASR a PC yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu.

2 Bu Kevin Thomas yn bresennol yng nghyfarfodydd PASR yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

3 Bu Amanda Hughes yn bresennol mewn un cyfarfod PASR fel sylwedydd.

4 Bu aelodau o'r Pwyllgor Rheoli yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd a PASR yn ôl yr angen i friffio neu dderbyn eu cyngor.

5 Mae'n ofynnol i Steve O'Donoghue, fel Cyfarwyddwr Cyllid, fod yn bresennol yn holl gyfarfodydd y Bwrdd a PASR. Mae'n eistedd ar y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn rhinwedd y swydd honno ac fel Pennaeth Strategol y gwasanaeth adnoddau dynol.

## Adroddiad ar lywodraethu corfforaethol

Mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd bod ei amcanion yn cael eu cyflawni drwy:

- adroddiadau rheoli mewnol, adroddiadau ar berfformiad a briffiadau amserol;
- adroddiadau mewnol annibynnol, gan gynnwys adroddiadau archwilio mewnol ac adroddiadau'r Pwyllgor Sicrwydd Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth; ac
- adroddiadau archwilio allanol.

Mae'r lefel o sicrwydd a geisir ac a ddarperir yn gymesur â'r lefelau cysylltiedig o risg a aseswyd.

Yn 2015-16, cymeradwyodd y Bwrdd, ymhlith ei fusnes arall, amcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer 2016-17, adroddiad interim ar gynnydd a wnaed yn erbyn cynllun blynyddol 2015-16, cynllun ffioedd ar gyfer 2016 a chynllun blynyddol ar gyfer 2016-17, sy'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ein strategaeth a'n blaenoriaethau tair blynedd. Gosodwyd y dogfennau hyn gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a chraffodd y Pwyllgor Cyllid arnynt.

Cydnabu'r Bwrdd y gwelliannau parhaus yn ansawdd y wybodaeth a gafodd er mwyn rhoi sicrwydd a llywio ei benderfyniadau. Yn sgil adroddiadau rheolaidd ar berfformiad yn erbyn y mesurau perfformiad allweddol a'r blaenoriaethau yn y Cynllun Blynyddol, bu'r Bwrdd mewn sefyllfa well i herio'r Prif Weithredwr. Cafodd y broses adrodd ei chefnogi gan systemau rheoli ansawdd, gan gynnwys adolygiadau ar lefel Cyfarwyddwr, craffu gan y Pwyllgor Rheoli cyn ystyriaeth y Bwrdd, ynghyd ag adolygiadau archwilio mewnol o drefniadau sicrhau ansawdd, gwybodaeth reoli a rheolaethau adrodd corfforaethol.

Yn 2016-17, bydd PASC yn gweithio gyda'r Pwyllgor Rheoli er mwyn cynnal ymarfer mapio sicrwydd i gysoni ffynonellau sicrwydd â gofynion gwybodaeth y Bwrdd yn systematig, a thrwy hynny sicrhau bod adroddiadau yn gynhwysfawr ac yn gadarn, ac nad oes unrhyw fylchau na dyblygu.

Mae'r Cynllun Dirprwyo yn gwneud y Bwrdd yn gyfrifol am bennu polisïau adnoddau dynol. Yn 2015-16 ystyriodd y Bwrdd y ffordd orau o gyflawni'r swyddogaeth honno. Ym mis Tachwedd 2015, cymeradwyodd y Bwrdd gynnig i ailgyfansoddi'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth fel Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol gyda chylch gwaith ehangach i gynghori'r Bwrdd ar fframwaith polisi adnoddau dynol a'i addasrwydd i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion strategol Swyddfa Archwilio Cymru. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i sefydlu'r trefniadau ymarferol i weithredu'r penderfyniad hwn.

Cynhaliodd Ysgrifennydd y Bwrdd gofrestr o fuddiannau, a ddiweddarwyd yn ystod y flwyddyn i gofnodi unrhyw wybodaeth ychwanegol o ddatganiadau yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau. Gwnaeth hyn sicrhau y cafodd achosion posibl o wrthdaro buddiannau eu nodi cyn cyfarfodydd lle y bo'n ymarferol ac y cymerwyd camau priodol i'w lliniaru. Yn amodol ar eithriadau cymwys, mae'r wybodaeth hon ar gael ar gais drwy anfon neges e-bost i post@archwilio.cymru.

Mae gan Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru a chadeiryddion ei phwyllgorau hawl mynediad, a gallant hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn uniongyrchol am unrhyw faterion sy'n achos pryder.

Gwnaeth y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r archwilydd allanol barhau i gael mynediad agored a chyfrinachol at PASC, gan gynnwys drwy sesiwn breifat cyn pob cyfarfod o'r pwyllgor.

Mae'r Bwrdd yn fodlon bod Swyddfa Archwilio Cymru yn cydymffurfio â gofynion y Cod Ymarfer Da ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol i'r graddau y mae ei ofynion yn berthnasol ac yn ymarferol. Ni chydymffurfiodd y trefniadau â gofynion y Cod mewn perthynas ag aelodaeth y bwrdd gan fod hynny'n statudol, a byddai cynnwys cynrychiolaeth weinidogol a swyddogion y llywodraeth wedi peryglu fy annibyniaeth fel Archwilydd Cyffredinol.

## Adolygiad o berfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd

Yn 2014-15, comisiynodd y Bwrdd gymorth allanol ar gyfer adolygiad o effeitholrwydd y Bwrdd, a chafodd yr adroddiad interim ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2015. Helpodd yr adroddiad hwnnw o ymarfer meincnodi a oedd yn canolbwyntio ar dasgau a rolau, rhyngweithio a chyfraniadau unigol, i lywio sesiwn ddatblygu wedi'i hwyluso ym mis Mai 2015.

Cyflwynodd y sesiwn ddatblygu nifer o gamau a gynlluniwyd i wella trefniadau ymarferol cyfarfodydd y Bwrdd, yn ogystal â helpu aelodau i ddeall yn well eu dulliau unigol o weithio ac ymddwyn a sut i fanteisio ar eu heffaith gronnol er mwyn gwella effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd.

Bydd cam nesaf y prosiect yn esgor ar adroddiad asesu terfynol a fydd yn amlinellu cryfderau, meysydd i'w datblygu ymhellach a chyfeiriad, ac yn argymell camau gweithredu a gweithgarwch er mwyn gwella perfformiad. Bydd y Bwrdd yn adrodd ar y canlyniadau i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yn ddiweddarach yn 2016 a byddaf yn eu crynhoi yn fy natganiad llywodraethu blynyddol ar gyfer 2016-17.

Hefyd yn ystod y flwyddyn:

- parhaodd y Bwrdd â'i gonfensiwn o gynnal sesiynau briffio anffurfiol cyn cyfarfodydd fel ffordd effeithiol o wella gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau o agweddau penodol ar y busnes a thrwy hynny wella effeithiolrwydd y Bwrdd;
- cwblhaodd y Cadeirydd adolygiadau un i un o bob aelod o'r Bwrdd lle y trafododd eu cyfraniadau unigol gyda hwy;
- cwblhaodd y Cadeirydd arfarniad o'r Archwilydd Cyffredinol yn ei rôl fel Prif Weithredwr; a
- chwblhaodd yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol arfarniad o berfformiad y Cadeirydd yn erbyn ei hamcanion.

## Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Cyflwynodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ei adroddiad blynyddol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ym mis Mehefin 2016, a oedd yn crynhoi ei gasgliadau o'r gwaith a wnaeth yn ystod 2015-16.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon ei fod wedi gwneud digon o waith i roi sicrwydd bod systemau Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth effeithiol.

Yn arbennig:

- ymddengys fod y trefniadau rheoli risg newydd yn gweithio'n effeithiol, er bod y Bwrdd eisoes wedi nodi bod angen gofalu bod y gofrestr risg strategol yn gyfredol ac yn cael ei defnyddio i lywio penderfyniadau busnes;
- mae'r trefniadau adrodd ym maes rheoli ariannol a rheoli yn datblygu i ateb her darpariaethau "cost swyddogaeth" Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013; ac
- mae'r datganiad llywodraethu blynyddol yn gyson â barn y Pwyllgor am amgylchedd rheolaeth fewnol Swyddfa Archwilio Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, eglurodd y Bwrdd rôl y Pwyllgor wrth graffu ar y gofrestr risg strategol, fel bod ei ffocws ar brofi risgiau unigol er mwyn pennu p'un a oedd trefniadau Swyddfa Archwilio Cymru yn gadarn yn gyffredinol. Ystyriodd y Pwyllgor dair risg strategol  yn ymwneud â chyflwyno system TG newydd ar gyfer gwaith archwilio ariannol a chofnodi amser, contractau cyflenwi archwilio, a diogelwch data.

Am y tro cyntaf yn 2015-16, gwnaeth y Pwyllgor hefyd asesu perfformiad yr archwilwyr mewnol ac allanol, gan ddefnyddio rhestrau gwirio a ddatblygwyd ar sail y rheini a ddefnyddiwyd gan un o'r cwmnïau cyfrifyddu mawr. Ar y cyfan, disgrifiodd yr ymatebion gydberthnasau adeiladol ac agored ag archwilwyr mewnol ac allanol. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nodi rhai meysydd i'w gwella mewn agweddau penodol ar waith archwilwyr mewnol ac allanol.

## Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Cyflwynodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ei adroddiad blynyddol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ym mis Mehefin 2016.

Yn 2015-16, yr adolygiad o drefniadau teithio i gefnogi staff symudol oedd y mater mwyaf arwyddocaol yn rhaglen waith y Pwyllgor oherwydd y risg uchel iawn o staff digymell ac wedi'u hymddieithrio,  yn ogystal â'r posibilrwydd o wneud niwed i enw da petai'r trefniadau newydd yn cael eu hystyried yn rhy hael.

Roedd y Bwrdd yn fodlon bod y cynnig terfynol ar gyfer cynllun teithio newydd, yn seiliedig ar gyngor cynhwysfawr y Pwyllgor drwy gydol y flwyddyn, yn cynrychioli'r gorau y gallai ei gyflawni i Swyddfa Archwilio Cymru a'i staff o ran bod yn gyson â'n cyfrifoldebau a'n dyletswyddau mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a lles staff, cydraddoldeb, cynaliadwyedd amgylcheddol a chyflawni gwerth am arian. Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi iddo dderbyn yn glir y telerau newydd mewn pleidlais a gynhaliwyd gan ddau undeb llafur Swyddfa Archwilio Cymru.

Hefyd, treuliodd y Pwyllgor amser yn cynllunio ei ddull gweithredu strategol a'i weithdrefnau ar gyfer y cyfnod ar ôl i'w gwmpas gael ei ymestyn ac i'w aelodaeth newid. Yn 2016-17, mae'n bwriadu edrych ar y fframwaith polisi adnoddau dynol o safbwynt holistaidd yn ogystal â safbwynt thematig.

## Adroddiad yr archwilydd mewnol

Penodwyd BDO LLP yn archwilwyr mewnol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016. Paratowyd cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2015-18 i'w ystyried ac fe'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ei gyfarfod ar 25 Chwefror 2015.

Yn ystod 2015-16, cyhoeddwyd 10 adroddiad archwilio mewnol gan BDO LLP ar adolygiadau o'r canlynol: y fframwaith awdurdod dirprwyedig, parhad busnes, rheoli risg, systemau a rheolaethau ariannol (interim a therfynol), gweithredu iTrent a phrosesau adnoddau dynol, trefniadau sicrhau ansawdd, gwybodaeth reoli ac adroddiadau corfforaethol a chofnodi amser real a phrisiad WIP.

## Crynodeb o'r lefelau o sicrwydd a roddwyd ym marn adrodd archwilio mewnol yn 2015-16

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynllun y fframwaith rheolaeth fewnol | Sylweddol | | | 3 | 6 |
| | Cymedrol | | | | 1 |
| | Cyfyngedig | | | | |
| | Dim | | | | |
| | Lefel sicrwydd | Dim | Cyfyngedig | Cymedrol | Sylweddol |
| | | Effeithiolrwydd gweithredol rheolaethau mewnol | | | |

Yn ei ddatganiad blynyddol o sicrwydd ar gyfer 2015-16, nododd y Pennaeth Archwilio Mewnol y canlynol:

'Fel darparwr gwasanaethau archwilio mewnol i Swyddfa Archwilio Cymru, mae'n ofynnol i ni gyflwyno i'r Bwrdd farn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau rheoli mewnol, sy'n cefnogi datganiad llywodraethu'r sefydliad ei hun.

Wrth roi ein barn dylid nodi na allwn fyth bod yn gwbl sicr. Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd rhesymol i Swyddfa Archwilio Cymru nad oes unrhyw wendidau mawr yn y system rheolaeth fewnol ar gyfer y meysydd a adolygwyd rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016.

Rydym yn fodlon bod gwaith archwilio mewnol digonol wedi cael ei wneud i'n galluogi i ddod i gasgliad rhesymol ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg a rheolaeth fewnol Swyddfa Archwilio Cymru.

Yn ein barn ni, yn seiliedig ar yr adolygiadau a gynhaliwyd ac a gwblhawyd yn ystod y cyfnod, rydym yn gallu dod i'r casgliad bod trefniadau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu yn gweithredu'n ddigon effeithiol i roi sicrwydd rhesymol bod yr amcanion rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu cysylltiedig wedi cael eu cyflawni'n gyffredinol erbyn diwedd y cyfnod dan sylw.'

# Rheoli risg

O gofio natur ein busnes, nid ydym yn goddef lefel uchel o risg o ran barn archwilio broffesiynol, rheoleidd-dra a phriodoldeb, na rheoli ariannol. Mewn meysydd eraill, megis cyfnewid arfer da ac ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd, rydym yn barod i dderbyn mwy o risg er mwyn manteisio ar gyfleoedd i gyflawni ein nod a'n hamcanion.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymrwymedig i fabwysiadu arfer gorau o ran nodi risgiau, eu gwerthuso a'u rheoli'n gosteffeithiol er mwyn sicrhau y cânt eu lleihau i lefel dderbyniol neu eu dileu.  Cydnabyddir y bydd rhai risgiau yn bodoli o hyd ac na chânt eu dileu byth – ond mae'n rhaid i'r rhain gael eu monitro a'u rheoli.

## Fframwaith rheoli risg

Y Bwrdd sy'n bennaf gyfrifol am reoli risg, ac mae'n cael ac yn ystyried cofrestr o risgiau strategol ac adroddiad sy'n crynhoi unrhyw newidiadau o bwys i broffil risg y sefydliad ym mhob un o'i gyfarfodydd.

Cynorthwyir y Bwrdd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, sy'n adolygu ac yn cynghori'r Bwrdd ar y canlynol:

- ei strategaeth risg, gan gynnwys priodoldeb y ffordd y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn pennu ei hawydd i fentro;
- prosesau asesu risg cyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru sy'n llywio penderfyniadau gweithredol;
- gallu Swyddfa Archwilio Cymru i nodi a rheoli risg;
- cylch gwaith y swyddogaeth rheoli risg, gan gynnwys ei mynediad at adnoddau a gwybodaeth er mwyn cyflawni ei rôl yn effeithiol ac yn unol â'r safonau proffesiynol perthnasol, heb gyfyngiadau rheoli na chyfyngiadau eraill; ac
- ymatebolrwydd rheolwyr i asesiadau risg.

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn gyfrifol am reoli risg o ddydd i ddydd, ac mae'n cynnal cofrestr risg sy'n cynnwys risgiau strategol a gweithredol a nodwyd a allai effeithio ar gyflawni nod ac amcanion Swyddfa Archwilio Cymru.

Gwnaeth y Pwyllgor Rheoli adolygu'r gofrestr risg strategol cyn iddi gael ei hystyried gan y Bwrdd drwy gydol 2015-16, ac mae'n cynnal adolygiad ffurfiol o'r gofrestr risg weithredol bob chwe mis.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cynghori'r Bwrdd a'i bwyllgorau ar y system o reolaeth fewnol, ac fe'i cynorthwyir i wneud hynny gan y Pwyllgor Rheoli.

## Asesiad risg

Cafodd trefniadau rheoli risg newydd ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru eu lansio'n ffurfiol ar 1 Ebrill 2015, ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd. Datblygwyd y trefniadau newydd yn dilyn adolygiad archwilio mewnol ar ddechrau 2014-15, a ddaeth i'r casgliad bod angen atgyfnerthu trefniadau rheoli risg mewn sawl maes, a gwella'r ymwybyddiaeth o risgiau a pherchenogaeth ohonynt drwy'r sefydliad cyfan.

Yn ei holl gyfarfodydd yn 2015-16, ystyriodd y Bwrdd y risgiau strategol allweddol a wynebwyd gan y sefydliad, ynghyd â chofrestr risg strategol fanylach a oedd yn:

- darparu asesiad o lefelau cynhenid o risg a thargedau risg a bennwyd;
- disgrifio'r rheolaethau allweddol a roddwyd ar waith er mwyn lliniaru'r tebygolrwydd o risg, effaith hynny a chyflawni targedau;
- darparu asesiad o lefelau gweddilliol o risg, a nodi symudiadau ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd; a
- chrynhoi cynnwys y gofrestr drwy fapiau gwres a phroffiliau risg gynhenid a gweddilliol.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, yn 2015-16, bu nifer o risgiau strategol allweddol a amrywiodd yn ystod y flwyddyn ac a oedd wedi mynd â chryn dipyn o amser y Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli:

- Parhaodd archwilio ariannol i brofi prinder adnoddau sylweddol a mynych o ganlyniad i drosiant staff ac anawsterau recriwtio ar ddechrau 2015. Mewn ymateb, cafodd staff eu symud rhwng prosiectau ar sail blaenoriaeth, defnyddiwyd staff asiantaeth i lenwi bylchau byrdymor, cyfyngwyd ar faint o wyliau a gymerwyd a faint o hyfforddiant a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod cyfrifyddu prysur, rhoddwyd cynnig ar ddulliau newydd o recriwtio a chyflymwyd y broses o benodi archwilwyr dan hyfforddiant.
- Mae ystod eang o ffactorau polisi a gwleidyddol yn debygol o ddylanwadu ar ein gwaith dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, gan gynnwys: newidiadau i ddatganoli; datganoli ariannol - trosglwyddo rhai pwerau codi trethi a benthyca o San Steffan i Gymru erbyn 2018; cyflymu'r broses o newid modelau darparu gwasanaethau a systemau cyllido; gofyniad i gau cyfrifon llywodraeth leol yn gynharach erbyn 2018-19; ad-drefnu llywodraeth leol o bosibl, a diwygiadau i drefniadau cyllid grant ac ardystio Llywodraeth Cymru. Dechreuwyd atgyfnerthu a gwella ein strategaeth ar gyfer y gweithlu er mwyn sicrhau ein bod yn gallu bodloni gofynion cyfredol a rhagweld ac ymateb i ddatblygiadau yn y dyfodol.

- Rydym yn parhau i weithio gyda Phwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn goresgyn cymhlethdod a lleihau risg yn ein trefniadau codi ffioedd. Mae Adran 23 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol na all y ffi a godir am bob darn unigol o waith archwilio mewn corff a archwilir fynd y tu hwnt i gost lawn y gwaith hwnnw. Gall y gofyniad hwn arwain at sefyllfa lle mae'n rhaid i ni ad-dalu costau am un darn o waith tra'n paratoi anfonebau ychwanegol am ddarn arall, a'r cyfan ar gyfer yr un corff a archwilir.
- Mae'n rhaid i'n gweithlu fod yn ddigon symudol i gyflawni rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol yn effeithiol mewn cyrff cyhoeddus ledled Cymru. Cafodd ein trefniadau teithio eu hadolygu a'u diwygio yn 2015-16 er mwyn sicrhau bod ein polisïau yn fwy cyson â'n cyfrifoldebau a'n dyletswyddau o ran iechyd, diogelwch a lles staff, cydraddoldeb, cynaliadwyedd amgylcheddol, a gwerth am arian.

Rwy'n fodlon bod y risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosiectau hyn wedi cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.

Cafodd nifer o risgiau eu rheoli'n llwyddiannus a'u dileu o'r gofrestr risg strategol yn ystod 2015-16, gan gynnwys:

- y risg o drefniadau rheoli risg aneffeithiol; a'r
- risg na fyddai system TG newydd i gefnogi gwaith archwilio ariannol a chofnodi amser yn cael ei gweithredu'n llawn ar amser, a thrwy hynny effeithio ar barhad busnes.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn wynebu nifer o risgiau sydd newydd eu nodi wrth fynd ymlaen yn 2016-17, sydd wedi'u hadlewyrchu yn ein cofrestr risg. Yn arbennig, mae risg na fydd sgiliau Cymraeg staff Swyddfa Archwilio Cymru yn ddigon da i fodloni gofynion y Safonau Iaith newydd. Rydym wedi comisiynu gwaith i liniaru'r risgiau newydd hyn.

Byddaf yn parhau i sicrhau y caiff risgiau eu rheoli'n dda yn gyffredinol, a lle ceir gwendidau, y caiff camau priodol eu cymryd i fynd i'r afael â hwy, ac y caiff rheolaethau mewnol Swyddfa Archwilio Cymru eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod yn effeithiol.

## Proffil risg strategol Swyddfa Archwilio Cymru

Ceir crynodeb o broffil risg strategol Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Mawrth 2016 yn y ‘map gwres’ canlynol, sy’n tynnu sylw at nifer y risgiau strategol a’r lefelau o risg weddilliol a aseswyd yn sgil cymhwyso rheolaethau i liniaru eu heffaith a’u tebygolrwydd.

| | | Tebygolrwydd | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Annhebygol | Posibl | Tebygol | Bron yn sicr |
| Effaith | Difrifol | | | | |
| | Mawr | 2 | 1 | 2 | |
| | Cymedrol | 3 | 2 | | 1 |
| | Bach | | | 1 | |

Allwedd:

| | |
|---|---|
| | Uchel iawn |
| | Uchel |
| | Canolig |
| | Isel |

## Llywodraethu gwybodaeth

Fel Archwilydd Cyffredinol, mae gennyf fynediad eang i wybodaeth er mwyn cyflawni fy swyddogaethau archwilio. Law yn llaw â'r hawliau mynediad pwerus hyn mae cyfrifoldeb i sicrhau bod y wybodaeth yr wyf i a Swyddfa Archwilio Cymru yn ei chael yn cael ei diogelu'n briodol.

Felly, mae gan Swyddfa Archwilio Cymru Bolisi Diogelu Gwybodaeth sy'n nodi rhwymedigaethau a chyfrifoldebau staff, gofynion prosesu data, trefniadau monitro ac adrodd, ac yn egluro sut y gall staff gael rhagor o gymorth ac arweiniad.

Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn atebol i'r Bwrdd am lywodraethu gwybodaeth. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi mabwysiadu ISO 27001, sef y safon ryngwladol ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth, gan raddio ei threfniadau yn unol ag anghenion y sefydliad.

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â data personol y dylid hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ohonynt yn 2015-16.

Rydym yn ymrwymedig i weithredu mewn ffordd agored a thryloyw ac rydym wedi mabwysiadu'r Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol a gafodd ei baratoi a'i gymeradwyo gan y Comisiynydd Gwybodaeth. O dan y Cynllun rydym yn ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth benodol ar gael i'r cyhoedd fel mater o drefn.

Yn y flwyddyn ariannol 2015-16, daeth 50 o geisiadau am wybodaeth i law. Mewn un achos, ni lwyddwyd i ymateb yn unol â'r terfyn amser statudol. Y rheswm dros hyn oedd yr ymdriniwyd â'r cais fel gohebiaeth a dylem, yn rhannol, fod wedi ymdrin ag ef fel cais am wybodaeth. Fodd bynnag, ni fu oedi sylweddol a chafwyd datgeliad llawn.

Nid oeddem yn destun unrhyw adolygiadau gan y Comisiynydd Gwybodaeth yn 2015-16.

## Chwythu'r chwiban

Anogir holl aelodau o staff Swyddfa Archwilio Cymru i godi pryderon ynghylch camymddwyn neu gamwedd a ddaw i'w sylw yn y gwaith. Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried bod nodi camwedd yn fewnol yn gyfraniad pwysig at reoli risg gorfforaethol a sicrhau llywodraethu da.

Mae gennym bolisi chwythu'r chwiban mewnol sefydledig, sy'n adlewyrchu darpariaethau Deddf Diogelu er Budd y Cyhoedd 1998, yn nodi'r drefn ar gyfer codi materion o'r fath, ac yn gymwys i staff Swyddfa Archwilio Cymru a phob contractwr ac eraill sy'n gweithio i Swyddfa Archwilio Cymru mewn unrhyw rôl.

Yn ddiweddar, rydym wedi mireinio ein polisi a'n trefniadau er mwyn ystyried newidiadau mewn deddfwriaeth a datblygiadau o fewn y sefydliad. Mae'n anodd asesu effeithiolrwydd ein trefniadau, oherwydd ni fu unrhyw ddatgeliadau mewnol yn y flwyddyn, nac mewn blynyddoedd blaenorol. Mae gennym drefniadau penodol ar gyfer rhoi gwybod am broblemau o ran llywodraethu gwybodaeth, fel bygythiadau posibl i ddiogelwch gwybodaeth, a weithredir gan yr un staff â'r trefniadau ar gyfer chwythu'r chwiban. Er na roddir gwybod am fawr ddim problemau - codwyd llond llaw o bryderon yn ystod y flwyddyn - mae hyn yn dangos bod gan staff beth hyder yn y broses pan fo'n briodol.

Fodd bynnag, rydym yn bwriadu ystyried ymhellach faterion o ran ymddiriedaeth a hyder (sy'n hanfodol i effeithiolrwydd) yn ein trefniadau chwythu'r chwiban, o bosibl drwy staff arolygu. Ni wnaeth arolwg diweddar o ymddiriedaeth a gynhaliwyd gan Brifysgol Cofentri yn Swyddfa Archwilio Cymru ddatgelu unrhyw faterion o bwys mewn perthynas â threfniadau chwythu'r chwiban.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn 'berson rhagnodedig' o dan y Ddeddf Diogelu er Budd y Cyhoedd ar gyfer codi pryderon ynghylch y materion canlynol:

- cynnal busnes cyhoeddus yn briodol; a
- thwyll, gwerth am arian, a llygredd mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Rhoddir rhagor o wybodaeth am chwythu'r chwiban ar ein gwefan, drwy ein taflen: Ydych chi'n pryderu am gamweddau neu gamymarfer yn y gweithle?

Fel person rhagnodedig, nid oes dyletswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol i ymchwilio i bob datgeliad a gaiff. Dim ond yn unol â'i bwerau a'i ddyletswyddau archwilio a'i bwerau a'i ddyletswyddau cysylltiedig presennol (nid yw'r Ddeddf yn rhoi unrhyw bwerau ychwanegol i'r Archwilydd Cyffredinol) y gall ystyried datgeliadau.

Er ein bod yn cydnabod bod y materion a godir gan chwythwyr chwiban allanol yn bwysig iddynt, rhaid i ni sicrhau nad ydym yn defnyddio arian cyhoeddus i edrych ar faterion nad ydynt yn berthnasol i waith yr Archwilydd Cyffredinol, nac yn treulio gormod o amser ar fân faterion.

Rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2015 cawsom gyfanswm o 36 o eitemau o ohebiaeth drwy ein trefniadau chwythu'r chwiban allanol. O'r rhain roedd 24 yn perthyn i gylch gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Ym mis Mawrth 2016, gwnaethom gyhoeddi cylchlythyr yn tynnu sylw at y materion a'r datblygiadau allweddol ym maes chwythu'r chwiban y tu mewn a'r tu allan i Swyddfa Archwilio Cymru dros y 12 mis diwethaf, gan gynnwys crynodeb o gynnwys a chanlyniadau'r ddau ddigwyddiad Cyfnewidfa Arfer Da a gynhaliwyd yn ystod hydref 2015 ar thema chwythu'r chwiban.

# Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff

## Adroddiad ar Gydnabyddiaeth

### Archwilydd Cyffredinol Cymru

Pennir cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac, yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ac mae i'w chael yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na chael ei thalu gan Swyddfa Archwilio Cymru. Er mwyn bod yn fwy tryloyw, caiff cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol ei dangos yn yr Adroddiad hwn ar Gydnabyddiaeth.

Penodwyd yr Archwilydd Cyffredinol presennol, Mr Huw Vaughan Thomas, gan Ei Mawrhydi'r Frenhines a dechreuodd yn ei swydd ar 1 Hydref 2010 am gyfnod o wyth mlynedd na ellir ei adnewyddu. Cost cyflog gros yr Archwilydd Cyffredinol yn ystod 2015-16 oedd £153,000 (2014-15: £153,000).

Mae Mr Huw Vaughan Thomas wedi dewis cyfrannu at gyfrif pensiwn partneriaeth (math o bensiwn cyfranddeiliaid personol y mae cyflogwr yn cyfrannu ato). Gwnaed cyfanswm o £31,237 o gyfraniadau i'r cyfrif hwn yn ystod 2015-16 (gan gynnwys £26,701 gan y cyflogwr a £4,536 gan yr aelod) (2014-15: £27,927 yn cynnwys £23,079 gan y cyflogwr a £4,848 gan yr aelod).

### Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys pum aelod anweithredol a benodir gan y Cynulliad, dau aelod etholedig sy'n gyflogeion, Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r aelod sy'n gyflogai a enwebwyd ganddo, sef y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Nid yw cydnabyddiaeth aelodau anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn bensiynadwy ac fe'i pennir gan y Cynulliad, ac yn achos y Cadeirydd, daw'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Er mwyn bod yn fwy tryloyw, caiff cydnabyddiaeth Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ei dangos yn yr adroddiad hwn. Penodwyd y ddau aelod etholedig sy'n gyflogeion gan aelodau anweithredol y Bwrdd, ar ôl pleidlais gan y staff ym mis Mai 2014. Caiff y lwfansau a roddir iddynt am eu dyletswyddau sy'n ymwneud â'r Bwrdd eu pennu gan y Bwrdd[13] a'u dangos yn yr adroddiad hwn. Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn cael unrhyw lwfansau ychwanegol am eu dyletswyddau sy'n ymwneud â'r Bwrdd.

**Caiff y wybodaeth ganlynol yn yr adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff ei harchwilio.**

13 Nid yw'r aelodau sy'n gyflogeion yn cymryd rhan yn y drafodaeth hon

## Cyfanswm ffigur unigol cydnabyddiaeth aelodau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

| | Cydnabyddiaeth/ Lwfans | | Treuliau, gan gynnwys treth[1] | | Cyfanswm ffigur unigol cydnabyddiaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015-16 | 2014-15 | 2015-16 | 2014-15 | 2015-16 | 2014-15 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Steven Burnett | 12,500 | 12,500 | 1,687 | 3,031 | 14,187 | 15,531 |
| David Corner | 12,500 | 12,500 | 9,720[2] | 9,643 | 22,220 | 22,143 |
| Lindsay Foyster[3] | 12,500 | 537 | 602 | 112 | 13,102 | 649 |
| Isobel Garner (Cadeirydd)[4] | 25,000 | 25,000 | 6,419 | 8,108 | 31,419 | 33,108 |
| Christine Hayes[5] | – | 7,882 | – | 1,818 | – | 9,700 |
| Peter Price | 12,500 | 12,500 | 557 | 1,304 | 13,057 | 13,804 |
| Amanda Hughes[6] | 4,167 | 3,573 | 866 | 378 | 5,033 | 3,951 |
| Louise Fleet | 4,167 | 3,573 | 667 | 693 | 4,834 | 4,266 |
| **Cyfanswm** | **83,334** | **78,065** | **20,518** | **25,087** | **103,852** | **103,152** |

1 Yn ogystal â'r gydnabyddiaeth neu'r lwfans am eu rôl, gall aelodau'r Bwrdd ac aelodau anweithredol pwyllgorau hawlio am eu costau teithio a threuliau. Caiff y rhwymedigaeth dreth bersonol mewn perthynas â'r treuliau hyn ei setlo gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan Gytundeb Setliad TWE gyda CThEM.

2 Mae David Corner yn byw yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr felly mae ei dreuliau yn adlewyrchu'r pellter teithio hirach i swyddfeydd Swyddfa Archwilio Cymru.

3 Penodwyd Lindsay Foyster o 16 Mawrth 2015.

4 Telir Isobel Garner, fel Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru ac nid yw'n cael unrhyw gydnabyddiaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru heblaw am ad-dalu costau teithio a threuliau. Dangoswyd ei chydnabyddiaeth er mwyn bod yn fwy tryloyw.

5 Ymddiswyddodd Christine Hayes o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ar 18 Tachwedd 2014 a phenodwyd Lindsay Foyster yn ei lle.

6 Mae Amanda Hughes a Louise Fleet yn aelodau sy'n gyflogeion o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ac fe'u penodwyd gan yr aelodau anweithredol ym mis Mai 2014 ar ôl pleidlais gan y staff. Mae'r lwfansau a ddangosir uchod yn ymwneud â'u dyletswyddau fel aelodau o'r bwrdd yn unig.

## Aelodau anweithredol pwyllgorau

Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru wedi penodi aelod annibynnol o'i Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Pennwyd cydnabyddiaeth y swydd hon gan y Bwrdd ac nid yw'n bensiynadwy.

## Cyfanswm ffigur unigol cydnabyddiaeth aelodau anweithredol pwyllgorau

| | Cydnabyddiaeth | | Treuliau, gan gynnwys treth | | Cyfanswm ffigur unigol cydnabyddiaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015-16 | 2014-15 | 2015-16 | 2014-15 | 2015-16 | 2014-15 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Alison Gerrard[1] | 5,000 | 2,500 | 184 | 107 | 5,184 | 2,607 |
| **Cyfanswm** | **5,000** | **2,500** | **184** | **107** | **5,184** | **2,607** |

1 Penodwyd Alison Gerrard yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar 1 Hydref 2014.

Roedd y cyfrifon ar gyfer 2014-15 yn cynnwys cyfanswm o £3,795 o daliadau i aelodau anweithredol blaenorol pwyllgorau, yr oedd cyfnod eu swydd wedi dod i ben erbyn 31 Mawrth 2015.

## Staff Swyddfa Archwilio Cymru

Cyflogir pob aelod o staff gan Swyddfa Archwilio Cymru ar y cyfryw delerau ac amodau a bennir gan y Bwrdd. Mae cydnabyddiaeth pob aelod o staff yn destun adolygiadau rheolaidd yn unol â strategaethau a bennir gan y Bwrdd a thrwy ymgynghori ag undebau llafur o dan gydgytundeb. Mae cydnabyddiaeth yn bensiynadwy o dan Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Mae aelodau o staff Swyddfa Archwilio Cymru fel arfer yn dal swyddi penagored. Byddai dod â phenodiad i ben yn gynnar, ac eithrio o ganlyniad i gamymddwyn, yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Wrth bennu strategaethau cyflog, mae'r Bwrdd yn ystyried y canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell unigolion â galluoedd a chymwysterau addas o safon uchel;
- fforddiadwyedd cyffredinol;
- arferion cyflogau yn y sector cyhoeddus ehangach a sefydliadau cymharol; a
- rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol, gan gynnwys gofynion o ran cydraddoldeb a gwahaniaethu.

Mae'r ystodau cyflog ar gyfer pob aelod o staff ar gael ar ein gwefan. Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn talu bonysau sy'n gysylltiedig â pherfformiad i unrhyw aelodau o staff, ond mae trefniadau arfarnu perfformiad blynyddol ar waith sy'n atal codiadau cyflog os na fydd perfformiad aelodau unigol o staff yn foddhaol.

Yn ystod 2015-16, talwyd £15,265 fel iawndal am ymddeoliad cynnar ar gyfer cyn gyfarwyddwr (2014-15 : £30,583). Gwrthbwyswyd y costau hyn yn erbyn darpariaeth a ddaliwyd at y diben hwn a sefydlwyd yn 2010-11.

Nodir drosodd fanylion cydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn aelodau'r Pwyllgor Rheoli. Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd yn craffu ar grynodeb arfarnu perfformiad yr Archwilydd Cyffredinol o aelodau'r Pwyllgor Rheoli.

## Cyfanswm ffigur unigol cydnabyddiaeth uwch reolwyr

| | Year to 31 March 2016 | | | | | Year to 31 March 2015 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflog[1] | Buddiannau mewn da | Treuliau trethadwy[2] | Budd pensiwn | Cyfanswm ffigur unigol cydnabyddiaeth | Cyflog[1] | Buddiannau mewn da | Treuliau trethadwy | Budd pensiwn | Cyfanswm ffigur unigol cydnabyddiaeth |
| | **Bandiau o £5,000** | **I'r £100 agosaf** | **I'r £100 agosaf** | **I'r £1,000 agosaf** | **Bandiau o £5,000** | **Bandiau o £5,000** | **I'r £100 agosaf** | **I'r £100 agosaf** | **I'r £1,000 agosaf** | **Bandiau o £5,000** |
| Anthony Barrett | 115-120 | 4,600 | 11,800 | 63 | 190-195 | 115-120 | 4,700 | 14,300 | 26 | 160-165 |
| Gillian Body | 120-125 | – | – | 40 | 160-165 | 120-125 | – | – | 13 | 135-140 |
| Mike Usher | 105-110 | – | – | 41 | 145-150 | 105-110 | – | – | 13 | 115-120 |
| Alan Morris | 95-100 | 2,800 | – | 72 | 165-170 | 90-95 | 2,200 | – | 94 | 185-190 |
| Kevin Thomas | 120-125[3] | – | 15,000 | 54 | 190-195 | 115-120 | 3,500 | 19,600 | 62 | 200-205 |
| Steve O'Donoghue | 80-85 | – | – | 67 | 145-150 | 70-75[4] | – | – | 42 | 110-115 |

1 Gan gynnwys Lwfans Trafnidiaeth a dalwyd i Gillian Body a Kevin Thomas. Mae gan Mike Usher yr hawl i Lwfans Trafnidiaeth ond nid arferodd yr hawl hon yn 2015-16 na 2014-15. Nid oes gan Steve O'Donoghue yr hawl i'r lwfans hwn.

2 Sef gwerth taliadau yn cynnwys treth a wnaed i Anthony Barrett a Kevin Thomas am deithio i brif weithle.

3 Gan gynnwys gwerthu gwyliau blynyddol fel sydd ar gael i bob aelod o staff.

4 Penodwyd Steve O'Donoghue ar 28 Ebrill 2014

## Cyflog

Mae ‘cyflog’ yn cynnwys cyflog gros ac unrhyw lwfans arall (ee, lwfans trafnidiaeth) i’r graddau ei fod yn destun trethiant yn y DU.

## Buddiannau mewn da

Mae gwerth ariannol buddiannau mewn da yn cynrychioli buddiannau ceir ar brydles a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru ac a gaiff eu trin gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) fel enillion trethadwy. Mae’r buddiannau hyn yn unol â hawl safonol i bob aelod o staff symudol.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu budd-dal marw yn y swydd sy’n cyfateb i flwyddyn o gyflog ar gyfer unrhyw aelod o staff sy’n marw tra’n gweithio i Swyddfa Archwilio Cymru. Cost flynyddol y cynllun hwn yn 2015-16 oedd £15,487 (2014-15: £10,684). Polisi yswiriant grŵp yw hwn, ac fel y cyfryw ni ellir ei briodoli’n uniongyrchol i unrhyw aelod penodol o staff ac felly ni chaiff ei gynnwys yn y tabl uchod.

## Treuliau uwch aelodau o staff

Cyhoeddir gwybodaeth am dreuliau aelodau’r Pwyllgor Rheoli ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

## Hawliadau pensiwn i uwch reolwyr

| | Pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2016 a chyfandaliad cysylltiedig | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn | CETV ar 31 Mawrth 2016 | CETV ar 31 Mawrth 2015 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV | Cyfraniad y cyflogwr i gyfrif pensiwn partneriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | I'r £100 agosaf |
| Anthony Barrett | 40-45 | 2.5-5 | 676 | 574 | 35 | – |
| Gillian Body | 50-55 ynghyd â chyfandaliad o 150-155 | 7.5-10 | 1,088 | 974 | 36 | – |
| Mike Usher | 35-40 ynghyd â chyfandaliad o 105-110 | 0-2.5 | 672 | 593 | 19 | – |
| Alan Morris | 55-60 | 2.5-5 | 1,088 | 947 | 71 | – |
| Kevin Thomas | 45-50 | 2.5-5 | 738 | 644 | 26 | – |
| Steve O'Donoghue | 30-35 | 2.5-5 | 451 | 371 | 36 | – |

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Mae darpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn berthnasol i gyflogeion presennol Swyddfa Archwilio Cymru a chyn gyflogeion. Mae'r cynllun yn gynllun budd diffiniedig a'r Cynllun sy'n atebol, ac nid Swyddfa Archwilio Cymru. Telir costau'r buddiannau gan arian y mae'r Senedd yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud cyfraniadau fel y'u pennir gan Swyddfa'r Cabinet i dalu hawliadau pensiwn cronedig staff a gyflogir.

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar ei wefan.

## Gwerthoedd trosglwyddo sy’n cyfateb i arian parod (CETV)

Y CETV yw gwerth y buddiannau cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi’u cyfalafu’n actiwaraidd. Y buddiannau a gaiff eu prisio yw’r buddiannau a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn i briod sy’n daladwy o’r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddiannau pensiwn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo’r buddiannau a gronnwyd yn ei hen gynllun. Mae’r ffigurau pensiwn a ddangosir yn nodi’r buddiannau a gronnwyd gan yr unigolyn drwy gydol ei gyfnod fel aelod o’r cynllun pensiwn, nid dim ond ei gyfnod yn yr uwch swydd y mae’r datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae’r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae’r aelod wedi’i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol a gronnir gan yr aelod ar ôl iddo brynu buddiannau pensiwn ychwanegol gyda’i arian ei hun. Cyfrifir CETVs yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl mewn buddiannau sy’n deillio o dreth lwfans oes a all fod yn ddyledus pan fydd buddiannau pensiwn yn cael eu codi.

## Cynnydd gwirioneddol mewn gwerthoedd trosglwyddo sy’n cyfateb i arian parod

Mae hyn yn adlewyrchu’r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw’n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd o ganlyniad i chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae’n defnyddio ffactorau prisio’r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Datgeliad cyflog teg

Caiff y gydberthynas rhwng cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf a chydnabyddiaeth ganolrifol y gweithlu ei dangos yn y tabl canlynol.

| | 2015-16 | 2014-15 |
|---|---|---|
| Band cyfanswm cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf heb gynnwys cyfraniadau pensiwn (£'000)[1] | 135-140 | 135-140 |
| Cyfanswm cydnabyddiaeth canolrifol yn seiliedig ar staff cyfwerth ag amser llawn (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn) | £43,850 | £44,704 |
| Ystod cyfanswm y gydnabyddiaeth heb gynnwys cyfraniadau pensiwn | £18,219-£136,336 | £14,900-£138,575 |
| Cymhareb cydnabyddiaeth | 3.11 | 3.10 |

1 Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, lwfans trafnidiaeth a buddiannau mewn da. Yn achos y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf, mae hefyd yn cynnwys treuliau trethadwy a gwerthu gwyliau blynyddol. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerthoedd trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod pensiynau.

Yn 2015-16, ni chafodd unrhyw gyflogeion gydnabyddiaeth a oedd yn fwy na'r hyn a gafodd y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf (2014-15: dim). Roedd y gydnabyddiaeth yn amrywio o £18,219 i £136,336 (2014-15: £14,900 i £138,575). Roedd y gydnabyddiaeth isaf yn 2014-15 yn adlewyrchu lleoliadau profiad gwaith.

Mae'r gostyngiad yn y cyflog canolrifol o gymharu â 2014-15 yn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer yr hyfforddeion archwilio a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn.

Nid oes unrhyw ofyniad i ddatgelu cyflog yr Archwilydd Cyffredinol gan ei fod yn cael ei dalu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru ac nid gan Swyddfa Archwilio Cymru. Er mwyn bod yn fwy tryloyw, £153,000 oedd cyfanswm ei gydnabyddiaeth (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn) sef 3.49 gwaith cyfanswm cydnabyddiaeth ganolrifol Swyddfa Archwilio Cymru (2014-15: £153,000, cymhareb: 3.42).

# Adroddiad ar Staff

## Niferoedd staff

Cynyddodd nifer gyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd o wyth aelod yn ystod y flwyddyn, gan adlewyrchu newidiadau a gynlluniwyd yng nghydbwysedd y gwaith a wneir yn fewnol o gymharu â'r gwaith a gaiff ei osod allan ar gontract i gwmnïau archwilio.

| | 2015-16 | 2014-15 |
|---|---|---|
| Nifer y staff parhaol cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn y DU yn ystod y flwyddyn, ar gyfartaledd | 229 | 227 |
| Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd ar gontractau cyfnod penodol yn y DU yn ystod y flwyddyn, ar gyfartaledd | 24 | 14 |
| Contractwyr archwilio ac arolygu (nifer y staff cyfwerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn ar gyfartaledd) | 8 | 12 |

## Costau staff a chostau cysylltiedig

| | 2015-16<br>£'000 | 2014-15[1]<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau staff | 10,826 | 10,429 |
| Staff a secondiwyd i mewn | 210 | - |
| Staff ar gontractau byrdymor | 285 | 226 |
| Cydnabyddiaeth aelodau anweithredol[2] | 68 | 59 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 1,095 | 1,055 |
| Costau pensiwn (PCPS)[3] | 2,335 | 2,115 |
| Costau pensiwn (pensiynau cyfranddeiliaid) | 4 | 3 |
| | 14,823 | 13,887 |
| Lwfans trafnidiaeth a cheir ar brydles | 782 | 722 |
| Newidiadau cytundebol i'r cynllun ceir | 128 | 50 |
| Tanysgrifiadau[4] | 42 | 48 |
| | 15,775 | 14,707 |
| Contractwyr archwilio ac arolygu[5] | 222 | 548 |
| | 15,997 | 15,255 |
| Costau dileu swyddi, ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau[6] | 31 | 240 |
| Llai arian a dderbyniwyd mewn perthynas â secondiadau i'r tu allan | (45) | (89) |
| Costau staff net | 15,983 | 15,406 |

1 Ailddatganwyd 2014-15 er mwyn dangos staff ar gontractau byrdymor a chostau newidiadau cytundebol i'r cynllun ceir ar wahân

2 Ac eithrio cydnabyddiaeth Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru y telir ei gydnabyddiaeth o Gronfa Gyfunol Cymru.

3 Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

4 Ffioedd ar gyfer aelodaeth cyrff proffesiynol, profion llygaid ac archwiliadau meddygol staff.

5 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio nifer o gontractwyr archwilio ac arolygu dros dro ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn i ateb y galw am adnoddau ar gyfnodau brig.

6 Costau sy'n gysylltiedig ag unigolion a ymddeolodd yn gynnar yn y gorffennol sy'n uwch na'r costau a nodwyd ar y pryd.

## Dileu swyddi, ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu trefniadau diswyddo gwirfoddol yn unol â rheolau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil ac fel y'u cymeradwywyd gan Swyddfa'r Cabinet.

Ni chytunwyd ar unrhyw drefniadau o'r fath yn 2015-16 ac felly cost y cynllun yn 2015-16 oedd £Dim (2014-15: £316,825).

Ceir crynodeb o fanylion nifer y cyflogeion a adawodd drwy becynnau ymadael cymeradwy yn ystod 2014-15 isod:

| Band costau'r pecyn ymadael | 2015-16 | | | 2014-15 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau cytûn eraill | Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul band costau | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau cytûn eraill | Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul band costau |
| Llai na £25,000 | - | - | - | - | 1 | 1 |
| £25,001 – £50,000 | - | - | - | - | 2 | 2 |
| £50,001 – £100,000 | - | - | - | - | 2 | 2 |
| £100,001 – £150,000 | - | - | - | - | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **-** | **-** | **-** | **-** | **6** | **6** |

Nid ymddeolodd unrhyw aelodau o staff yn gynnar am resymau iechyd yn ystod y flwyddyn.

## Gwasanaethau allanol

| | 2015-16 | 2014-15 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Taliadau i gwmnïau cyfrifyddu preifat | 2,269 | 3,070 |
| Costau ymchwil a chostau ymgynghori eraill | 101 | 86 |
| | 2,370 | 3,156 |

Mae'r costau hyn yn ymwneud â gwasanaethau allanol a brynwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â swyddogaethau archwilio, arolygu, cyngor neu ymchwil. Mae'r gost wedi lleihau yn unol â gostyngiad a gynlluniwyd yn lefel y gwaith a osodir ar gontractau allanol fel rhan o gynllun arbedion hirdymor a threfniadau cynllunio'r gweithlu.


**Ni chaiff y wybodaeth ganlynol yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff ei harchwilio.**

## Absenoldeb oherwydd salwch

- Gostyngodd ein lefelau absenoldeb oherwydd salwch bron i ddeuddydd fesul person ar gyfartaledd oherwydd gostyngiad mewn salwch hirdymor.
- Roedd y ffigur absenoldeb cyffredinol ddeuddydd yn llai na meincnod y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD)[14], er ei fod ychydig yn uwch na'n targed corfforaethol, sef 6.5 diwrnod.

| | 2015-16 | 2014-15 |
|---|---|---|
| Diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul aelod o staff | 7.3 | 9.1 |
| Oherwydd absenoldeb byrdymor | 3.9 | 3.7 |
| Oherwydd absenoldeb hirdymor (cyfnodau o ≥21 diwrnod) | 3.4 | 5.4 |

## Absenoldeb oherwydd salwch staff 2009-10 i 2015-16




14 Cymedr o 9.3 diwrnod fesul cyflogai y flwyddyn ar gyfer y sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus hynny a ymatebodd i Arolwg Rheoli Absenoldeb blynyddol CIPD yn 2015.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

- Mae ein proffil oedran yn gymharol debyg i broffil y Gwasanaeth Sifil, er bod gennym gyfran uwch o staff o dan 30 oed a chyfran is o staff dros 60 oed.[15]

Mae'n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru gydymffurfio â'r fframwaith diogelu yn erbyn gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae gennym gyfrifoldeb hefyd i gydymffurfio â'r confensiynau a nodwyd yn Neddf Hawliau Dynol 1998. Rydym yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth pawb, gan gynnwys ein staff ein hunain a'r rhai rydym yn dod i gysylltiad â hwy fel rhan o'n gwaith, ac rydym yn llawn gefnogi hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.


Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn amlinellu ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb a'n hamcanion cysylltiedig. Mae ein hadroddiadau blynyddol ar ein cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb ar gael ar ein gwefan. Mae ein Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau y caiff pob aelod o staff â nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys nam) eu trin yn deg ac yn gyfartal ym mhob agwedd ar gyflogaeth. Mae'r polisi yn darparu ar gyfer cydraddoldeb wrth ddethol ym maes cyflogi, recriwtio, dyrchafu, dysgu a datblygu a/neu unrhyw fudd arall, yn seiliedig yn llwyr ar gymhwysedd a gallu yn unol â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth gysylltiedig.

15 Ffigurau Ystadegau'r Gwasanaeth Sifil 2015: tua 9.1 y cant o dan 30 oed, 82 y cant rhwng 30 a 59 oed ac 8.3 y cant yn 60 oed a throsodd.

| | 2015-16 | 2014-15 |
|---|---|---|
| Amrywiaeth | % | % |
| Merched | 49.6 | 51.0 |
| O dan 30 oed | 13.1 | 9.8 |
| Rhwng 30 a 59 oed | 83.1 | 84.5 |
| 60 oed a throsodd | 3.8 | 5.7 |
| Staff ag anabledd[1] | 8.0 | –[2] |
| Staff o leiafrif ethnig[3] | 2.7 | – |
| Staff LGBT+[4] | 3.1 | – |

1 Canran y staff a ddatganodd eu statws anabledd.
2 Ni chasglwyd data ar gyfer staff â nodweddion gwarchodedig yn llawn yn 2014-15.
3 Canran y staff a ddatganodd eu hethnigrwydd fel Du, Asiaidd neu hil gymysg.
4 Canran y staff a ddatgelodd eu cyfeiriadedd rhywiol fel Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol neu Drawsryweddol.

## Dadansoddiad oedran a rhywedd staff 2015-16 (Nifer)




## Ein gweithlu

- Gostyngodd cyfran y cyflogeion rhan amser ychydig ar gyfer dynion a merched.
- Cynyddodd cyfran y merched mewn swyddi rheoli
- Gostyngodd canran y staff ar gontractau cyflogaeth parhaol gan adlewyrchu cynnydd yn nifer yr hyfforddeion archwilio ar gontractau hyfforddi pedair blynedd
- Gostyngodd ein cyfradd trosiant staff flynyddol i 5.3 y cant ac mae'n is na meincnod CIPD, sef 13.6 y cant[16]

| | 2015-16 | 2014-15 |
|---|---|---|
| **Patrymau gweithio** | | |
| Cyflogeion rhan amser fel canran o'r cyfanswm[1] | 15.3 | 18.0 |
| I ddynion | 6.1 | 7.5 |
| I ferched | 24.6 | 28.0 |
| **Math o gontract cyflogaeth** | | |
| Canran y staff ar gontractau cyflogaeth parhaol | 90.5 | 95.1 |
| **Trosiant** | | |
| Canran trosiant staff flynyddol | 5.3 | 9.8 |

1 25.4 y cant ar gyfer y Gwasanaeth Sifil yn 2015 a 17 y cant ar gyfer Llywodraeth Cymru.






16 Canolrif o 13.6 y cant ar gyfer yr holl sefydliadau a ymatebodd i Arolwg Adnoddau a Chynllunio Talent CIPD yn 2014.

| Dosbarthiad graddau[1] | 2015-16 | 2014-15 |
|---|---|---|
| Canran y staff mewn bandiau uwch dîm arwain[2] (A i C) | 5.6 | 6.0 |
| Canran y staff mewn bandiau rheoli (6 a 7) | 21.6 | 22.8 |
| Staff mewn bandiau cyflog goruchwyliol (4 a 5) | 33.2 | 33.0 |
| Canran y staff mewn bandiau cyflog eraill (1 i 3) | 39.6 | 38.2 |
| Canran staff yr uwch dîm rheoli sy'n ferched | 20.3 | 20.3 |
| Canran y staff rheoli sy'n ferched | 37.9 | 34.5 |
| Canran y staff mewn swyddi goruchwyliol sy'n ferched | 48.0 | 50.4 |
| Canran y staff mewn bandiau cyflog eraill sy'n ferched | 59.7 | 61.9 |

1 Yn gyfystyr ag amser llawn ar 31 Mawrth
2 Ac eithrio'r Archwilydd Cyffredinol ac Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd.

## Gradd staff a dosbarthiad o ran rhywedd



**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu

10 Mehefin 2015

## Datganiad o Alldro Adnoddau 2015-16

Mae'r datganiad hwn yn cymharu'r Amcangyfrif ar gyfer 2015-16 fel y cytunwyd arno gan y Cynulliad Cenedlaethol ag incwm a gwariant gwirioneddol yn ystod y flwyddyn.

Roedd yr Amcangyfrif yn cynnwys swm o £200,000 wrth gefn ar gyfer gwaith nas cynlluniwyd a fyddai'n codi yn ystod y flwyddyn. Ni fu ei angen yn 2015-16.

## Crynodeb o arian parod sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

Yn sgil gweithrediadau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-16, mae swm o £177,000 yn ad-daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru.

| | | Amcangyfrif 2015-16 | | | Alldro 2015-16 | | | | Alldro 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nodiad | | Cyfanswm gwariant | Incwm | Cyfanswm Net | Cyfanswm gwariant | Incwm | Cyfanswm Net | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif | Cyfanswm Net |
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| SORO1 | Refeniw | 23,580 | (17,324) | 6,256 | 21,962 | (16,155) | 5,807 | (449) | 5,293 |
| SORO1 | Cyfalaf | 50 | – | 50 | 39 | - | 39 | (11) | 289 |
| | Cyfanswm Adnoddau | 23,630 | (17,324) | 6,306 | 22,001 | (16,155) | 5,846 | (460) | 5,582 |
| SORO2 | Gofyniad Arian Parod Net | 6,146 | - | 6,146 | - | - | 6,003 | (143) | 5,276 |

# Nodiadau i'r Crynodeb o Alldro Adnoddau

## Nodyn SORO1: Cysoni alldro adnoddau net â'r gofyniad arian parod net

| | 2015-16 Amcangyfrif £'000 | 2015-16 Alldro £'000 | 2015-16 Amrywiant £'000 | 2014-15 Alldro £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Adnoddau refeniw | | 5,807 | (449) | 5,293 |
| Adnoddau cyfalaf | | 39 | (11) | 289 |
| **Addasiadau:** | | | | |
| Eitemau anariannol (dibrisiant) | (160) | (193) | (33) | (177) |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio ac eithrio arian parod | - | 350 | 350 | (129) |
| **Cyfanswm y gofyniad arian parod net** | **6,146** | **6,003** | **(143)** | **5,276** |

Nid yw'r symudiadau mewn cyfalaf gweithio ac eithrio arian parod yn y tabl uchod (£350,000) yn cynnwys cynnydd mewn symiau derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo (£550,000), gostyngiadau mewn symiau taladwy ac incwm gohiriedig (£14,000) a darpariaethau cyfredol (£186,000) fel y'u cynhwyswyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

## Nodyn SORO2: Dadansoddiad o alldro adnoddau net 2015-16

| | 2015-16 Amcangyfrif £'000 | 2015-16 Alldro £'000 | Amrywiant £'000 | Rheswm dros amrywiannau sylweddol | 2014-15 Alldro[1] £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Treuliau** | | | | | |
| Costau staff | 14,828 | 14,388 | (440) | Addaswyd swyddi gwag yn ystod y flwyddyn ar gyfer disgwyliadau incwm | 13,786 |
| Staff contractwyr | 862 | 507 | (355) | Gostyngodd y galw am staff contractwyr yn unol ag incwm | 548 |
| Teithio a chynhaliaeth | 1,319 | 1,258 | (61) | Yn gysylltiedig â swyddi gwag | 1,264 |
| Cwmnïau yn y sector preifat (gan gynnwys TAW) | 2,728 | 2,582 | (146) | Yn gysylltiedig â gostyngiad mewn ffioedd ardystio grantiau | 3,684 |
| Swyddfeydd | 971 | 969 | (2) | | 913 |
| TGCh | 524 | 427 | (97) | Yn cynnwys arbedion effeithlonrwydd ar ôl gweithredu Insight | 426 |
| Balans TAW anadenilladwy | 500 | 344 | (156) | Yn adlewyrchu gwariant is na'r disgwyl ar benawdau eraill yn y gyllideb | 368 |
| Trefniadau Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru | 300 | 306 | 6 | | 300 |
| Hyfforddiant allanol | 266 | 266 | - | | 203 |
| Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | 203 | 167 | (36) | | 231 |
| Cyfieithu dogfennau | 110 | 145 | 35 | | 141 |
| Costau eraill | 969 | 603 | (366) | Yn cynnwys darpariaeth wrth gefn nas defnyddiwyd | 548 |
| CYFANSWM Y TREULIAU | 23,580 | 21,962 | (1,618) | | 22,412 |
| **Incwm** | | | | | |
| Ffioedd archwilio | (14,139) | (13,632) | 507 | Gweler nodyn isod | (13,841) |
| Ffioedd ardystio grantiau | (2,279) | (1,560) | 719 | Gostyngiad yn y galw i ardystio grantiau'r UE a Llywodraeth Cymru | (2,267) |
| Grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella | (906) | (951) | (45) | | (947) |
| Incwm arall | 0 | (12) | (12) | | (64) |
| CYFANSWM YR INCWM | (17,324) | (16,155) | 1,169 | | (17,119) |
| ADNODD REFENIW NET | 6,256 | 5,807 | (449) | | 5,293 |
| GWARIANT CYFALAF | 50 | 39 | (11) | | 289 |

1 Ailddatganwyd 2014-15 er mwyn darparu dadansoddiad pellach.

Yn 2015-16, roedd cost net Swyddfa Archwilio Cymru £449,000 yn llai na'r swm a ragwelwyd pan gytunwyd ar yr Amcangyfrif. Mae'r gostyngiad hwn yn cynnwys arbedion sy'n deillio o swyddi gwag a galw is na'r disgwyl am staff contractwyr a chwmnïau yn y sector preifat. Roedd hyn mewn ymateb i ostyngiad mewn incwm ffioedd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys gofyniad is o ran ardystio grantiau. Nid oedd angen y £200,000 wrth gefn ar gyfer gwaith nas cynlluniwyd.


Mae'r crynodeb rheoli ariannol ar dudalen 33 yn darparu esboniad pellach o gosteffeithlonrwydd yn Swyddfa Archwilio Cymru.

Llywodraethir incwm ffioedd archwilio gan y Cynllun Ffioedd a gymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol. Roedd yr Amcangyfrif ar gyfer 2015-16 yn cynnwys darpariaeth i'r incwm ffioedd a gwariant cysylltiedig gynyddu uwchlaw'r lefel a gafwyd yn 2014-15 er mwyn caniatáu ar gyfer gwaith ychwanegol nas rhagwelwyd y byddai ffioedd yn daladwy ar ei gyfer. Fel y bu, nid oedd angen y symiau hyn wrth gefn ac roedd incwm ffioedd yn 2015-16 mewn gwirionedd yn is na'r flwyddyn flaenorol, o ganlyniad i gyfuniad o ostyngiad bach yn nifer y cyrff a archwiliwyd a gostyngiad yn y gwaith ychwanegol y bu angen ei wneud.

## Tueddiadau gwariant hirdymor

Ers 2009-10, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi lleihau ei gwariant 25 y cant mewn termau real[17], fel y dangosir isod. Mae'r arbediad cronnol a sicrhawyd yn ystod y blynyddoedd hynny (yr ardal wedi'i lliwio) yn cyfateb i dros £36 miliwn, sy'n lleihau'r galw ar Gronfa Gyfunol Cymru, ac eithrio ar gyfer cyfrifoldebau newydd, a'r swm sydd angen ei godi o ffioedd archwilio a godir ar gyrff archwiliedig.

## Gwariant 2009-10 i 2015-16




Caiff gwariant cyllidebol Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol ei bennu bob blwyddyn gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ymwybodol o unrhyw rwymedigaethau pell wrth gefn a fydd yn effeithio ar gynlluniau gwariant hirdymor.

Ymdrinnir â chwynion am waith Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â chanllawiau a gyhoeddir ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru. Ni ragwelir y bydd unrhyw rwymedigaeth ariannol mewn perthynas ag unrhyw gwynion sy'n mynd rhagddynt ar ddiwedd y flwyddyn.

17 Yn seiliedig ar ddatchwyddwyr CDG a gyhoeddwyd gan y SYG ym mis Mehefin 2015.

# Adroddiad yr archwilwyr annibynnol

Rydym yn ardystio ein bod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 o dan Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cynnwys y Crynodeb o Alldro Adnoddau, y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad am Lifau Arian Parod a'r Datganiad o Newidiadau o ran Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan Drysorlys EM o dan Ddeddf 2013. Rydym hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad. Rydym hefyd wedi ymgymryd â gwaith, fel sy'n ofynnol o dan Atodlen 1 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, er mwyn cael sicrwydd rhesymol yr aed i'r gwariant y mae'r datganiad yn cyfeirio ato mewn modd cyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac na wariwyd yr arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan SAC at ddiben penodol neu ddibenion penodol, ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y mae wedi'i gyfeirio ato yn unig yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac nid at unrhyw ddiben arall. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio fel y gallaf ddatgan i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddo mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un arall heblaw am Gynulliad Cenedlaethol Cymru am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

## Priod gyfrifoldebau Swyddfa Archwilio Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Archwilydd

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a nodir ar dudalen 46, mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni eu hunain eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gyfrifol am sicrhau yr aed i'r gwariant y mae'r datganiad yn cyfeirio ato mewn modd cyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac na wariwyd yr arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan SAC at ddiben penodol neu ddibenion penodol, ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) a mynegi barn arnynt. Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr. Rydym hefyd yn gyfrifol am roi barn sicrwydd resymol yr aed i'r gwariant y mae'r datganiad yn cyfeirio ato mewn modd cyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac na wariwyd yr arian hwnnw y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan SAC at ddiben penodol neu ddibenion penodol, ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

## Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Disgrifir cwmpas archwiliad o ddatganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol.

Mae hefyd yn ofynnol i ni gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol yr aed i'r gwariant y mae'r datganiad yn cyfeirio ato mewn modd cyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac na wariwyd yr arian hwnnw y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan SAC at ddiben penodol neu ddibenion penodol, ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny. Rydym wedi cynnal ein gwaith yn unol â Nodyn Ymarfer 10 y Bwrdd Arferion Archwilio yn hyn o beth.

## Barn ar y datganiadau ariannol

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Swyddfa Archwilio Cymru ar 31 Mawrth 2016 a'i chost gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r cyfarwyddiadau gan Drysorlys EM o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn ein barn ni, ym mhob ffordd berthnasol:

- aed i'r gwariant y mae'r datganiad yn cyfeirio ato mewn modd cyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu; ac
- ni wariwyd yr arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

## Barn ar faterion eraill

Yn ein barn ni:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM o roddwyd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

RSM UK Audit LLP (Baker Tilly UK Audit LLP gynt)
9 Mehefin 2016

Archwilwyr Cofrestredig
Davidson House
Forbury Square
Reading
RG1 3EU

# Datganiadau ariannol

Datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd â nodiadau ategol ac esboniadol

# Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | Nodyn | 2015-16 £'000 | 2014-15 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Costau staff a chostau cysylltiedig | Adroddiad staff[1] | 15,983 | 15,406 |
| Gwasanaethau allanol | Adroddiad staff | 2,370 | 3,156 |
| Costau gweithredu eraill | 3 | 3,609 | 3,850 |
| | | **21,962** | **22,412** |
| **Incwm** | | | |
| Incwm o ffioedd archwilio | 1 | (15,192) | (16,108) |
| Grant arolygu | 1 | (951) | (947) |
| Incwm gweithredu arall | 2 | (10) | (57) |
| | | **(16,153)** | **(17,112)** |
| **(Gwariant) net** | | **5,809** | **5,300** |
| Llog derbyniadwy | | (2) | (7) |
| **Gwariant net ar ôl treth a llog** | | **5,807** | **5,293** |
| **Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **5,807** | **5,293** |

1 Nodyn costau staff ar dudalen 73 yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 92 i 108 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

Ni chafwyd unrhyw weithrediadau a derfynwyd, caffaeliadau na gwarediadau yn ystod y cyfnod nac unrhyw enillion na cholledion anghydnabyddedig.


# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

## ar 31 Mawrth 2016

| | Nodyn | 31 Mawrth 2016<br>£'000 | 31 Mawrth 2015<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 533 | 623 |
| Asedau anniriaethol | 5 | 188 | 252 |
| | | **721** | **875** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo | 6 | 1,633 | 2,166 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 7 | 549 | 566 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 8 | 2,950 | 2,841 |
| | | **5,132** | **5,573** |
| **Cyfanswm asedau** | | 5,853 | **6,448** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill | 9 | (2,225) | (2,055) |
| Incwm gohiriedig | 10 | (2,220) | (2,404) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 11 | (350) | (536) |
| Dosbarthu cronfeydd wrth gefn i gyrff llywodraeth leol | 9 | - | (2) |
| Cronfa Gyfunol Cymru (gweler y Crynodeb o Alldro Adnoddau) | | (143) | (698) |
| | | **(4,938)** | **(5,695)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **915** | **753** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 11 | **(736)** | (770) |
| | | (736) | (770) |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau** | | **179** | **(17)** |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Cronfa gyffredinol | | **179** | (17) |
| | | **179** | **(17)** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 92 i 108 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 88 i 108 gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ac fe'u hawdurdodwyd i'w cyhoeddi ar 8 Mehefin 2016 ac fe'u llofnodir ar ei ran gan:



**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu

10 Mehefin 2016

# Datganiad o Lifau Arian Parod

## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | Nodyn | 2015-16<br>£'000 | 2014-15<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant net cynhwysfawr | | 5,807 | 5,293 |
| Anariannol: dibrisiant ac amorteiddio | 3 | (193) | (177) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 6, 7 | (550) | 164 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 9,10 | 14 | (136) |
| (Cynnydd)/gostyngiad wrth ddosbarthu cronfeydd wrth gefn i gyrff llywodraeth leol | 9,10 | 2 | 1,631 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn darpariaethau | 11 | 220 | 221 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **5,300** | **6,996** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 35 | 72 |
| Prynu asedau anniriaethol | 5 | 4 | 217 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **39** | **289** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau ariannu** | | | |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | (6,146) | (5,974) |
| Ad-daliadau i Gronfa Gyfunol Cymru | | 698 | 337 |
| **Ariannu net** | | **(5,448)** | **(5,637)** |
| **Symudiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | 8 | **(109)** | **1,648** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 92 i 108 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

# Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr

## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | £'000 |
|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2014** | 0 |
| Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr yn 2014-15 | |
| Cyfanswm gwariant cynhwysfawr | (5,293) |
| Arian o Gronfa Gyfunol Cymru | 5,974 |
| | 681 |
| Yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | (698) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2015** | **(17)** |
| Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr yn 2015-16 | |
| Cyfanswm gwariant cynhwysfawr | (5,807) |
| Arian o Gronfa Gyfunol Cymru | 6,146 |
| | 322 |
| Yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru[1] | (143) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2016** | **179** |

1 Fel y nodwyd yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau ar gyfer 2015-16 (tudalen 80).

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 92 i 108 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

# Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â FReM 2015-16, a gyhoeddwyd gan yr awdurdodau perthnasol. Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol fel y nodir yn Nodyn 17: Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd.

Mae'r polisïau cyfrifyddu yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan yr UE fel y'u haddaswyd neu'u dehonglwyd yng nghyd-destun y sector cyhoeddus. Lle y caniata'r FReM ddewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa. Disgrifir polisïau pwysig a fabwysiadwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ochr yn ochr â'r nodyn y aent yn cyfeirio ato. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrid eu bod yn berthnasol mewn perthynas â'r cyfrifon.

Trafodir effaith bosibl IFRS 16 (Prydlesi) a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016 ond nad yw'n weithredol tan 1 Ionawr 2019 yn Nodyn 12.

Nid oes unrhyw safonau cyfrifyddu newydd eraill a gyhoeddwyd, ond nad ydynt yn weithredol eto, a fyddai wedi cael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol hyn pe baent wedi'u cymhwyso i'r cyfnod adrodd hwn.

## Amcangyfrifon cyfrifyddu critigol a meysydd barn

- Mae'r broses o gydnabod refeniw yn seiliedig ar yr amser a godir ar brosiectau wedi'i addasu lle y bo'n berthnasol i adlewyrchu cam cwblhau'r gwaith a wnaed.
- Gwnaed darpariaethau lle mae'n fwy tebygol na pheidio, ym marn y swyddog cyfrifyddu, bod rhwymedigaeth ariannol yn bodoli na ellir ei hamcangyfrif yn gywir ar hyn o bryd.

# Nodyn 1 (a): Segmentau gweithredu Swyddfa Archwilio Cymru

## 2015-16

| | Archwilio ariannol | Archwilio perfformiad | Gweithgareddau a ariannwyd o Gronfa Gyfunol Cymru | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ffioedd archwilio | (11,585) | (3,607) | - | (15,192) |
| Grant | – | (951) | - | (951) |
| Incwm arall | – | – | (10) | (10) |
| Cyfanswm | (11,585) | (4,558) | (10) | (16,153) |
| Gwariant | 11,924 | 4,221 | 5,817 | 21,962 |
| | **339** | **(337)** | **5,807** | **5,809** |

## 2014-15

| | Archwilio ariannol | Archwilio perfformiad | Gweithgareddau a ariannwyd o Gronfa Gyfunol Cymru | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ffioedd archwilio | (12,268) | (3,840) | - | (16,108) |
| Grant | - | (947) | - | (947) |
| Incwm arall | - | - | (57) | (57) |
| Cyfanswm | (12,268) | (4,787) | (57) | (17,112) |
| Gwariant | 12,582 | 4,480 | 5,350 | 22,412 |
| | **314** | **(307)** | **5,293** | **5,300** |

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cofnodi incwm a gwariant ar ei dwy brif swyddogaeth archwilio y codir ffioedd amdanynt ac hefyd ar gyfer gweithgareddau a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

## Cysoni â'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

| | 2015-16 | 2014-15 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Gwariant net yn unol â'r dadansoddiad uchod | 5,809 | 5,300 |
| Llog derbyniadwy | (2) | (7) |
| Yn unol â'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | 5,807 | 5,293 |

# Nodyn 1 (b): Dadansoddiad o incwm o ffioedd archwilio

| | 2015-16 | | | 2014-15 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Archwilio Ariannol | Archwilio Perfformiad | Cyfanswm | Archwilio Ariannol | Archwilio Perfformiad | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Archwilio Llywodraeth Leol | 5,841 | 2,217 | 8,058 | 6,146 | 2,556 | 8,702 |
| Ardystio Grantiau Llywodraeth Leol | 1,560 | - | 1,560 | 2,079 | - | 2,079 |
| Y GIG | 2,090 | 1,389 | 3,479 | 2,107 | 1,273 | 3,380 |
| Archwilio Llywodraeth Ganolog | 2,094 | 1 | 2,095 | 1,936 | 11 | 1,947 |
| | 11,585 | 3,607 | 15,192 | 12,268 | 3,840 | 16,108 |

Nodir y ffioedd a godir am waith archwilio yn unol â Chynllun Ffioedd y cytunwyd arno gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol.

## Nodyn 2: Incwm gweithredu arall

| | 2015-16 | 2014-15 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Incwm amrywiol[1] | 10 | 57 |
| | 10 | 57 |

1 Mae incwm amrywiol yn cynnwys taliadau am hyfforddiant a ddarperir, defnydd personol o ffonau symudol a thaliadau a ailgodir am luniaeth.

Cydnabyddir incwm ffioedd gros ac incwm gweithredu arall yn seiliedig ar werth gwaith y codir tâl amdano heb gynnwys TAW. Caiff y gwerth hwn ei asesu drwy gyfeirio at daliadau amser a cham cwblhau prosiectau.

Caiff incwm gweithredu, p'un a ddaw drwy grantiau uniongyrchol gan y llywodraeth neu ffioedd a godir ar gyrff a archwilir, ei gredydu i'r flwyddyn gyfrif y gwneir y gwaith ynddi. Caiff incwm a dderbynnir cyn i'r gwaith gael ei wneud ei ddosbarthu'n incwm gohiriedig (gweler Nodyn 10). Caiff gwaith a wneir cyn i'r incwm gael ei dderbyn ei ddosbarthu'n waith sy'n mynd rhagddo (gweler Nodyn 6). Ni chaiff arian a dynnir o Gronfa Gyfunol Cymru ei ystyried yn grant uniongyrchol gan y llywodraeth a chaiff ei gredydu'n uniongyrchol i ecwiti trethdalwyr.

## Nodyn 3: Costau gweithredu eraill

| | 2015-16 | 2014-15 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Swyddfeydd | | |
| Costau prydlesi rhent | 482 | 459 |
| Costau eraill | 407 | 373 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | 1,598 | 1,931 |
| Recriwtio a throsglwyddiadau | 61 | 62 |
| Dibrisiant ac amorteiddio | 193 | 177 |
| Ffioedd proffesiynol | | |
| Gwasanaethau archwilio mewnol | 49 | 30 |
| Ffioedd archwilio allanol | 40 | 37 |
| Ffioedd proffesiynol eraill | 78 | 78 |
| Teithio a chynhaliaeth | 476 | 492 |
| Dysgu a datblygu | 225 | 203 |
| Dileu dyledion | – | 8 |
| | 3,609 | 3,850 |

# Nodyn 4: Eiddo, offer a chyfarpar

| 2015-16 | Dodrefn a ffitiadau £'000 | Technoleg gwybodaeth £'000 | Offer swyddfa £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 1,377 | 272 | 138 | 1,787 |
| Ychwanegiadau | - | 35[1] | - | 35 |
| Gwarediadau | (81)[2] | (1) | (6) | (88) |
| Ar 31 Mawrth 2016 | 1,296 | 306 | 132 | 1,734 |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 907 | 152 | 105 | 1,164 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 79 | 35 | 9 | 123 |
| Gwarediadau | (79) | (1) | (6) | (86) |
| Ar 31 Mawrth 2016 | 907 | 186 | 108 | 1,201 |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2016 | 389 | 120 | 24 | 533 |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 470 | 120 | 33 | 623 |
| **Ariannu asedau** | | | | |
| A berchenogir | 389 | 120 | 24 | 533 |

1 Rhaglen adnewyddu gliniaduron.

2 Gwaredu dodrefn a chyfarpar anarferedig yn ystod 2015-16.

| 2014-15 | Dodrefn a ffitiadau £'000 | Technoleg gwybodaeth £'000 | Offer swyddfa £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 1,377 | 223 | 115 | 1,715 |
| Ychwanegiadau | - | 49 | 23 | 72 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 1,377 | 272 | 138 | 1,787 |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 826 | 137 | 86 | 1,049 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 81 | 15 | 19 | 115 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 907 | 152 | 105 | 1,164 |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 470 | 120 | 33 | 623 |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 551 | 86 | 29 | 666 |
| **Ariannu asedau** | | | | |
| A berchenogir | 470 | 120 | 33 | 623 |

Delir asedau sefydlog ar gost adnewyddu wedi'i dibrisio fel amcangyfrif i werth teg.

O dan bolisi cyfalafu Swyddfa Archwilio Cymru, cyfalafir offer cyfrifiadurol unigol ac wedi'i grwpio a meddalwedd gwerth dros £5,000, offer arall gwerth dros £1,000 a gwaith adnewyddu swyddfa. Cyfrifir dibrisiant o ddyddiad dechrau oes ddefnyddiol yr ased.

Darperir dibrisiant ar bob ased eiddo, offer a chyfarpar ac fe'i cyfrifir i ddibrisio cost pob ased, llai y gwerth amcangyfrifedig dros ben, mewn rhandaliadau blynyddol cyfwerth yn ystod ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dodrefn a ffitiadau (gan gynnwys seilwaith TG) | 10 mlynedd (neu oes yr ased neu hyd y brydles ar gyfer ffitiadau mewn adeiladau ar brydles, pa un bynnag sydd fyrraf) |
| Offer cyfrifiadurol | Tair blynedd |
| Offer swyddfa | Pum mlynedd |

Ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau ar werthoedd presennol ac ar eu cost adnewyddu wedi'i dibrisio.

# Nodyn 5: Asedau anniriaethol

Caiff asedau anniriaethol, sef trwyddedau meddalwedd, eu datgan ar gost hanesyddol wedi'i hamorteiddio. Caiff yr asedau eu hamorteiddio ar sail llinell syth naill ai dros gyfnod y drwydded neu oes economaidd ddefnyddiol yr ased (pum mlynedd), pa un bynnag sydd fyrraf). Cyfrifir amorteiddiad o ddyddiad dechrau oes ddefnyddiol yr ased anniriaethol.

| 2015-16 | Cyfanswm<br>£'000 |
|---|---|
| **Cost** | |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 829 |
| Ychwanegiadau | 4 |
| Gwarediadau[1] | (354) |
| Ar 31 Mawrth 2016 | 479 |
| **Amorteiddio** | |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 577 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 68 |
| Gwarediadau | (354) |
| Ar 31 Mawrth 2016 | 291 |
| **Gwerth llyfr net** | |
| Ar 31 Mawrth 2016 | 188 |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 252 |
| **Ariannu asedau** | |
| A berchenogir | 188 |

1 Rhoi'r gorau i ddefnyddio meddalwedd cofnodi amser a rheoli archwilio ar ôl gweithredu Insight.

| 2014-15 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|
| **Cost** | |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 719 |
| Ychwanegiadau | 217 |
| Gwarediadau | (107) |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 829 |
| **Amorteiddio** | |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 622 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 62 |
| Gwarediadau | (107) |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 577 |
| **Gwerth llyfr net** | |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 252 |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 97 |
| **Ariannu asedau** | |
| A berchenogir | 252 |

Ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau ar werthoedd presennol ac ar eu cost hanesyddol.

Ni ddelir rhestrau eiddo perthnasol.

## Nodyn 6: Symiau masnach derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo

Caiff symiau derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo eu prisio ar werth gwireddadwy amcangyfrifedig. Mae gwaith sy'n mynd rhagddo yn cyfeirio at symiau sy'n daladwy am waith a gwblhawyd lle nad yw'r ffi wedi'i chodi eto neu lle bo'r gwaith a wnaed yn perthyn i gyfnodau cyfrifyddu gwahanol. Fe'i nodir ar sail y gost lawn llai darpariaeth am golledion rhagweladwy a symiau a gafodd eu bilio ar y cyfrif. Câi darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy ei phennu pan fo tystiolaeth na fydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu adennill pob swm sy'n ddyledus yn unol â'r contractau.

| | 31 Mawrth 2016 £'000 | 31 Mawrth 2015 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach derbyniadwy | | |
| Llywodraeth ganolog | 41 | 102 |
| Llywodraeth leol | 257 | 616 |
| Y GIG | 52 | 242 |
| Y tu allan i'r llywodraeth | 26 | 18 |
| Gwaith sy'n mynd rhagddo | | |
| Llywodraeth ganolog | 553 | 455 |
| Llywodraeth leol | 703 | 587 |
| Y GIG | 1 | 6 |
| Y tu allan i'r llywodraeth | - | 140 |
| | 1,633 | 2,166 |

Nid oes symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod.

Ni fu angen darpariaeth ar gyfer drwgddyledion a dyledion amheus yn 2015-16 (2014-15: dim angen).

# Nodyn 7: Symiau derbyniadwy eraill

| | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2015 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig[1] | 548 | 565 |
| Benthyciadau i gyflogeion[2] | 1 | 1 |
| | 549 | 566 |

1 Blaendaliadau rhent a chostau eraill sy'n gysylltiedig ag eiddo yn bennaf.

2 Cynllun beicio i'r gwaith.

Nid oes symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod.

# Nodyn 8: Arian parod a’r hyn sy’n cyfateb i arian parod

Mae arian parod a’r hyn sy’n cyfateb i arian parod yn cynnwys yr holl gronfeydd a ddelir mewn cyfrifon y gall Swyddfa Archwilio Cymru gael gafael arnynt ar unwaith. Mae’r Cyfrif cyfredol yn cynnwys cyfleuster llog dros nos.

Yn ystod 2015-16, dechreuodd Swyddfa Archwilio Cymru ar y broses o drosglwyddo ei holl gronfeydd i Wasanaeth Bancio’r Llywodraeth yn unol â’r argymhellion yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Caewyd Cronfa Fyd-eang y Trysorlys a’r cyfrif Ewro o ganlyniad.

| | **31 Mawrth 2016** | **31 Mawrth 2015** |
|---|---:|---:|
| | **£’000** | **£’000** |
| Balans ar 1 Ebrill | 2,841 | 4,489 |
| Newid net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 109 | (1,648) |
| Balans ar 31 Mawrth | 2,950 | 2,841 |

| | **31 Mawrth 2016** | **31 Mawrth 2015** |
|---|---:|---:|
| | **£’000** | **£’000** |
| Cyfrif cyfredol (Gwasanaeth Bancio’r Llywodraeth) | 1,748 | 2,128 |
| Cyfrif cyfredol (Cyfrifon Masnachol[1]) | 1,202 | - |
| Cyfrif Ewro | - | 1 |
| Cronfa Fyd-eang y Trysorlys | - | 712 |
| | 2,950 | 2,841 |

1 Ac eithrio balans o £10,000 a gedwir mewn cyfrif cyfredol, delir y balans hwn mewn cyfrif sy’n ennill llog dros nos.

## Nodyn 9: Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2016 £'000 | 31 Mawrth 2015 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach taladwy[1] | 410 | 585 |
| TAW | 61 | 80 |
| Trethiant a chostau nawdd cymdeithasol | 340 | 327 |
| Croniadau ar gyfer hawl gwyliau nas cymerwyd eto | 519 | 481 |
| Ailddosbarthu cronfeydd wrth gefn i gyrff llywodraeth leol[2] | – | 2 |
| Croniadau eraill[3] | 895 | 582 |
| | 2,225 | 2,057 |

1 Mae pob swm masnach taladwy (symiau sy'n ddyledus i gyrff eraill) yn ddyledus o fewn blwyddyn.

2 Dosbarthwyd cronfeydd wrth gefn cronedig hyd at 31 Mawrth 2014 i gyrff llywodraeth leol yn unol â'r ymrwymiad a wnaed yn yr Amcangyfrif blynyddol ar gyfer 2014-15.

3 Mae'r rhan fwyaf o'r croniadau eraill (£623,000) yn ymwneud ag anfonebau am symiau masnach sy'n daladwy a dderbyniwyd ar ôl diwedd y flwyddyn. Mae £260,000 yn ymwneud â chyfraniadau pensiwn ar gyfer mis Mawrth 2016, a dalwyd ym mis Ebrill 2016.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at dalu 95 y cant o'r holl anfonebau gan gyflenwyr nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 30 diwrnod o'u derbyn ac 84 y cant o fewn 10 diwrnod. Yn 2015-16, talwyd 99.3 y cant o fewn 30 diwrnod a thalwyd 84.6 y cant o fewn 10 diwrnod.

## Nodyn 10: Incwm gohiriedig

Yn unol â safonau cyfrifyddu, mae'n ofynnol i ni asesu i ba raddau mae prosiectau wedi'u cwblhau fel canran (gan gyfeirio at daliadau amser ac asesiad o'r gwaith sy'n mynd rhagddo) a chydnabod y gyfran honno o'r incwm ffioedd disgwyliedig fel refeniw yn ystod y cyfnod. Mae incwm gohiriedig yn cyfeirio at incwm sydd wedi'i filio ond sydd heb ei gydnabod eto.

| | 31 Mawrth 2016 £'000 | 31 Mawrth 2015 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm gohiriedig | 2,220 | 2,404 |
| | 2,220 | 2,404 |

# Nodyn 11: Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

Cydnabyddir darpariaethau lle y gellir amcangyfrif rhwymedigaeth ar y dyddiad adrodd o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n debygol o arwain at drosglwyddo buddiannau economaidd mewn modd dibynadwy.

Caiff darpariaethau eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau o'r symiau sydd eu hangen i setlo'r rhwymedigaeth. Lle mae effaith gwerth amser arian yn berthnasol, mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar werth presennol y symiau hynny, wedi'u disgowntio yn ôl y gyfradd ddisgowntio cyn-treth sy'n adlewyrchu'r risgiau sy'n benodol i'r rhwymedigaeth. Cydnabyddir y ffaith bod y disgownt wedi dirwyn i ben o fewn llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg.

| | Dadfeiliadau[1] | Ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau[2] | CThEM | Gadael y cynllun ceir | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 584 | 606 | 66 | 50 | 1,306 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 41 | - | 21 | 128 | 190 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | - | (385) | - | - | (385) |
| Darpariaethau a ryddhawyd yn ystod y flwyddyn | - | - | (25) | - | (25) |
| Ar 31 Mawrth 2016 | 625 | 221 | 62 | 178 | 1,086 |

1 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio cyfradd ddisgowntio Trysorlys EM yn glir o CPI ym mis Tachwedd 2015 ar gyfer balansau o 0-5 mlynedd, sef -1.5 y cant ac ar gyfer 5 i 10 mlynedd, sef -1.05 y cant, i gyfrifo'r balans hwn.

2 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio cyfradd ddisgowntio Trysorlys EM yn glir o CPI ym mis Tachwedd 2015, sef 1.37 y cant, i gyfrifo'r balans hwn

Dadansoddiad o'r amseru disgwyliedig:

| | Dadfeiliadau | Ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau | CThEM | Gadael y cynllun ceir | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| O fewn blwyddyn | 70 | 47 | 62 | 171 | 350 |
| Dros flwyddyn ond o fewn pum mlynedd | - | 174 | - | 7 | 181 |
| Dros bum mlynedd | 555 | - | - | - | 555 |
| | 625 | 221 | 62 | 178 | 1,086 |

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dadfeiliadau'n rhoi amcangyfrif o'r costau y gallai Swyddfa Archwilio Cymru fynd iddynt wrth wella'r eiddo a brydlesir ganddi ar ddiwedd y prydlesi.

Cronnodd y ddarpariaeth hon drwy dâl dadfeiliadau blynyddol, a gyfrifwyd drwy gymhwyso cyfradd ddadfeilio flynyddol i arwynebedd llawr yr asedau ar brydles. Rhoddir cyfrif am rwymedigaethau dadfeilio sy'n ymwneud â chost newidiadau adfer a wnaed i adeiladau ar brydles drwy ddarpariaeth a neilltuwyd yn ystod y flwyddyn y nodwyd y gost, yn seiliedig ar amcangyfrifon a ddarparwyd gan dirfesurwyr annibynnol. Caiff darpariaethau o'r fath eu cyfalafu a'u dibrisio dros oes yr ased neu gyfnod y brydles, pa un bynnag sydd fyrraf.

Mae'r darpariaethau ar gyfer ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau'n cyfeirio at rwymedigaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol mewn perthynas ag aelodau o staff sydd wedi gadael o dan gynlluniau dileu swyddi, ymddeol yn gynnar a diswyddo. Daw'r rhwymedigaeth hon i ben ym mis Mehefin 2019.

Roedd darpariaeth CThEM ar ddechrau'r flwyddyn yn ymwneud â'r canlynol:

- achos posibl o dandalu cyfraniadau treth TWE ac yswiriant gwladol i gontractwyr a ddarparodd wasanaethau i Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2013;
- achos posibl o dandalu cyfraniadau treth TWE ac yswiriant gwladol mewn perthynas â threuliau a dalwyd i rai aelodau o staff Swyddfa Archwilio Cymru cyn 2011; ac
- achos posibl o dandalu cyfraniadau treth TWE ac yswiriant gwladol mewn perthynas â'r budd-dal Marw yn y Swydd i Gyflogai.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru bellach wedi dod i gytundeb gyda CThEM mewn perthynas â'r ddau bwynt cyntaf uchod. Cytunwyd, ar ôl ystyried taliad o £90,000 a dalwyd i'r cyfrif yn 2012, nad oedd unrhyw rwymedigaeth yn ddyledus a bod balans o £42,518 yn ddyledus i Swyddfa Archwilio Cymru.

Ni ddaethpwyd i gytundeb eto o ran unrhyw rwymedigaeth bosibl mewn perthynas â'r budd-dal Marw yn y Swydd i Gyflogai ac felly cadwyd y ddarpariaeth hon ac fe'i cynyddwyd er mwyn adlewyrchu'r rhwymedigaeth bosibl a allai gronni yn ystod y flwyddyn.

Mae'r ddarpariaeth cynllun ceir yn adlewyrchu ymrwymiad i ddigolledu staff sydd wedi cytuno i ildio'r telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â darparu ceir ar brydles a'r lwfans trafnidiaeth.

# Nodyn 12: Prydlesi gweithredu

Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru brydlesi gweithredu ar gyfer ceir ac ar gyfer ei swyddfeydd gweithredol. Codir tâl am rentu prydlesi gweithredol ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Caiff cymhellion prydles a dderbynnir eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fel rhan annatod o gyfanswm treuliau prydlesi. Lle y cynigir cyfnodau heb rent i Swyddfa Archwilio Cymru o fewn prydlesi, caiff y budd hwnnw ei gredydu ar sail gyson dros y cyfnod o ddechrau'r brydles tan yr adolygiad rhent cyntaf.

Roedd isafswm taliadau prydlesi cyfanredol ar 31 Mawrth 2016 o ran prydlesi ceir na ellir eu canslo:

| | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2015 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| O fewn blwyddyn | 21 | 189 |
| O fewn blwyddyn i bum mlynedd | 204 | 226 |
| | 225 | 415 |

Roedd isafswm taliadau prydlesi cyfanredol ar 31 Mawrth 2016 o ran prydlesi pedair swyddfa[18]:

| | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2015 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | Nifer yr eiddo | £'000 | Nifer yr eiddo |
| O fewn blwyddyn | 452 | 4 | 440 | 3 |
| O fewn blwyddyn i bum mlynedd | 1,634 | 2 | 1,563 | 2 |
| Dros bum mlynedd | 792 | 2 | 1,042 | 1 |
| | 2,878 | | 3,045 | |

Adolygir rhent prydlesi swyddfeydd yn rheolaidd.

Mae IFRS16 a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016 ond nad yw'n weithredol tan 1 Ionawr 2019 yn ei gwneud yn ofynnol cydnabod pob prydles â chyfnod prydlesu o fwy na 12 mis fel asedau a rhwymedigaethau yn y datganiadau ariannol. Nid yw'n hysbys eto a gaiff y safon hon ei mabwysiadu o fewn y Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM); pe byddai wedi cael ei mabwysiadu ar gyfer 2016-17, byddai wedi arwain at gynnydd o £3.073 miliwn mewn asedau a rhwymedigaethau.

18 Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru dair swyddfa weithredol yng Nghaerdydd, Abertawe ac Ewlo. Llofnodwyd prydles newydd ym mis Mawrth 2016 am swyddfa yn Abergele a fydd yn disodli'r ganolfan yn Ewlo ym mis Mehefin 2016.

## Nodyn 13: Ymrwymiadau cyfalaf

Roedd £10,000 o ymrwymiadau cyfalaf ar gyfer eitemau a archebwyd ond nas derbyniwyd eto ar 31 Mawrth 2016 (31 Mawrth 2015: dim).

## Nodyn 14: Colledion a thaliadau arbennig

Nid oedd unrhyw daliadau arbennig na cholledion i'w datgelu yn 2015-16 (2014-15: dim).

## Nodyn 15: Deilliadau ac offerynnau ariannol

Mae IFRS 7 Datgeliadau Offerynnau Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu gwybodaeth am bwysigrwydd offerynnau ariannol i endid, a natur a graddau'r risgiau sy'n deillio o'r offerynnau ariannol hynny, mewn termau ansoddol a meintiol. Oherwydd natur gweithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru a'r ffordd y caiff y gweithrediadau eu hariannu, nid yw'r swyddfa'n agored i lefel uchel o risg ariannol. Er y gall Swyddfa Archwilio Cymru fenthyca arian at ddibenion ariannu byrdymor, ni fu'n rhaid i'r swyddfa wneud hynny yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Gall Swyddfa Archwilio Cymru hefyd fuddsoddi arian dros ben, a gwnaed hynny drwy gyfrif sy'n ennill llog dros nos yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r gweithgareddau hyn yn peri unrhyw risgiau ariannol sylweddol.

### Risg o hylifedd

O gofio natur ein busnes, ni oddefir lefel uchel o risg o ran rheoli ariannol.

Yn sgîl y chwaeth hon am risg, a chefnogaeth Cronfa Gyfunol Cymru, nid yw' Swyddfa Archwilio Cymru yn agored i risgiau sylweddol o ran hylifedd.

### Risg cyfradd llog

Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru yn agored i risg cyfradd llog.

### Risg arian cyfred tramor

Mae'r graddau y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn agored i risg arian cyfred tramor yn fach iawn gan mai dim ond pryniannau bach iawn o arian cyfred tramor a wna ymlaen llaw mewn perthynas â theithio tramor a chostau cysylltiedig eraill megis gwestai. Hefyd, caiff unrhyw ffioedd o waith neu secondiadau tramor eu trosi pan ddônt i law. Cofnodir unrhyw wahaniaethau cyfnewid yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn wrth gyfrifo'r warged weithredu.

### Risg o ran credyd

Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, GIG Cymru a chyrff llywodraeth leol yng Nghymru yw prif gleientiaid Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn codi ffioedd o dan ddeddfwriaeth yn unol â Chynllun Ffioedd cymeradwy ac felly nid yw'n agored i unrhyw risgiau credyd perthnasol.

### Gwerthoedd teg

Nid oes gwahaniaeth rhwng gwerthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ar 31 Mawrth 2016 (31 Mawrth 2015: dim).

## Nodyn 16: Trafodion â phartïon cysylltiedig

Corff corfforaethol a sefydlwyd o dan statud yw Swyddfa Archwilio Cymru ac mae wedi ymgymryd â thrafodion perthnasol â Chronfa Gyfunol Cymru a chyrff a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol fel y'u datgelwyd yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth.

Yn ystod y flwyddyn, nid oedd unrhyw aelod o'r pwyllgorau anweithredol nac aelodau allweddol o staff na'u partïon cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol gyda'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru. Mae gwybodaeth am bersonél rheoli allweddol wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth.

## Nodyn 17: Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio yn unol â threfniadau ariannu blynyddol drwy statud. Er i gyllid y pleidleisiwyd i'w ddyfarnu gael ei gymeradwyo am naw mis yn unig ar ôl dyddiad llofnodi'r datganiadau hyn, caiff Amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18 ei gyflwyno i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod hydref 2016-17 ac nid oes unrhyw reswm dros gredu na chaiff cyllid ei gymeradwyo ar gyfer y flwyddyn ariannol honno.

# Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **Ar sail croniadau** | Cydnabyddir effeithiau trafodion a digwyddiadau eraill wrth iddynt ddigwydd (ac nid wrth dderbyn neu dalu arian parod neu eitemau sy'n cyfateb i arian parod) ac fe'u cofnodir yn y cofnodion cyfrifyddu ac adroddir arnynt yn y datganiadau ariannol ar gyfer y cyfnodau y maent yn berthnasol iddynt. |
| **Amorteiddio** | Dosrannu cost ased sefydlog anniriaethol dros ei oes ddefnyddiol |
| **Asedau** | Rhywbeth y mae'r sefydliad yn berchen arno neu'n ei ddefnyddio ee, offer neu hawliau meddalwedd. |
| **Gwariant cyfalaf** | Gwariant ar asedau (sefydlog) anghyfredol |
| **Asedau cyfredol** | Ased y disgwylir iddo gael ei drosi'n arian parod o fewn y deuddeg mis nesaf |
| **Rhwymedigaeth gyfredol** | Rhwymedigaeth y disgwylir iddi gael ei setlo o fewn y 12 mis nesaf |
| **Incwm gohiriedig** | Yn cynrychioli incwm a filiwyd ond nas cydnabuwyd eto yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr |
| **Dibrisiant** | Dosrannu cost ased sefydlog diriaethol dros ei oes ddefnyddiol |
| **Amcangyfrif** | Ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, yr Amcangyfrif blynyddol o Incwm a Threuliau a gymeradwyir mewn cyfarfod llawn drwy Gynnig Cyllidebol. Mae Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yn cyflwyno adroddiad i ategu hyn. Cyfeirir ati hefyd fel y gyllideb gymeradwy. |
| **Asedau sefydlog** | Ased a ddelir gan sefydliad i'w ddefnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol ar sail barhaus fel rhan o weithgareddau'r endid sy'n cyflwyno'r adroddiad. Ymhlith enghreifftiau ceir offer, cerbydau, tir ac adeiladau. |
| **Sail busnes hyfyw** | Caiff datganiadau ariannol eu paratoi ar y sail hon gan dybio y bydd y sefydliad yn parhau i weithredu hyd y gellir gweld. |
| **Ased sefydlog anniriaethol** | Ased, megis hawl, na ellir ei gyffwrdd |
| **Prydlesu** | Caffael y defnydd o ased drwy gytundeb rhentu |
| **Rhagdaliadau** | Swm a delir ymlaen llaw megis premiymau yswiriant neu flaendaliadau rhent. Caiff ei gydnabod i ddechrau fel ased, wedyn ei drosglwyddo fel traul yn ystod y cyfnod lle daw'r budd yn weithredol. |

| | |
|---|---|
| **Darpariaeth** | Atebolrwydd o ran amseru neu swm ansicr |
| **Ecwiti trethdalwyr** | Asedau net y sefydliad |
| **Symiau masnach taladwy** | Symiau sy'n ddyledus i'w talu i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau |
| **Symiau masnach derbyniadwy** | Symiau sy'n ddyledus gan gleientiaid |
| **Ased sefydlog diriaethol** | Ased sefydlog (a elwir hefyd yn ased anghyfredol) â bodolaeth ffisegol. Fe'i defnyddir er mwyn gwahaniaethu rhwng Ased sefydlog anniriaethol. |
| **Cronfa Gyfunol Cymru** | Y gronfa a ddefnyddir gan y Cynulliad Cenedlaethol i gadw symiau y pleidleisir arnynt gan y Senedd a gaiff wedyn eu dyrannu drwy Gynnig Cyllidebol i Lywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. |
| **Gwaith sy'n mynd rhagddo** | Gwaith a wnaed ac a gydnabuwyd fel incwm yn y cyfrifon nad anfonwyd anfoneb ar ei gyfer eto i'r cleientiaid. |

# Atodiadau

# Atodiad 1: Rhaglenni gwaith a gyflawnwyd yn 2015-16

## Rhaglen waith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol a gyflawnwyd mewn cyrff llywodraeth leol

### Archwilio cyfrifon

22 o awdurdodau unedol

3 awdurdod tân ac achub

3 awdurdod parc cenedlaethol

4 comisiynydd yr heddlu a throseddu

4 prif gwnstabl

8 cronfa bensiwn

Nifer o gyrff llywodraeth leol llai o faint gan gynnwys cydbwyllgorau ac awdurdodau harbwr

Archwiliadau sicrwydd cyfyngedig o fwy na 740 o gynghorau tref a chymuned

### Ardystio hawliadau a ffurflenni grant

Hyd at 25 o gynlluniau gwerth bron £3 biliwn ac yn cynnwys tua 450 o hawliadau unigol

### Archwiliadau ac asesiadau gwella

22 o awdurdodau unedol (gan gynnwys chwe asesiad corfforaethol manylach)

3 awdurdod tân ac achub

3 awdurdod parc cenedlaethol

### Astudiaethau ac adroddiadau cryno a gwblhawyd neu a gwblhawyd ar y cyfan

Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru

Diogelu – trefniadau llywodraethu

Rheoli ariannol a llywodraethu mewn cynghorau cymuned a thref 2013-14

Ymdrin â'r galw am ofal iechyd a gofal cymdeithasol – helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol

Cyflawni â llai – gwasanaethau hamdden

Cyfrifon llywodraeth leol 2014-15

Llywodraethu a rheolaeth ariannol mewn cynghorau lleol 2014-15

### Astudiaethau sy'n mynd rhagddynt

Sefyllfa a chydnerthedd ariannol

Y modd y mae cynghorau'n ariannu gwasanaethau'r trydydd sector

Sut mae cynghorau'n cynhyrchu incwm ac yn codi tâl am wasanaethau mewn ffordd strategol

Effeithiolrwydd partneriaethau diogelwch cymunedol lleol

## Rhaglen waith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol a gyflawnwyd yng nghyrff y GIG

### Archwilio cyfrifon

7 bwrdd iechyd lleol
3 ymddiriedolaeth y GIG
Cyfrifon cryno byrddau iechyd lleol
Cyfrifon cryno ymddiriedolaethau'r GIG
Cronfeydd elusennol y GIG

### Gwaith archwilio perfformiad lleol

7 bwrdd iechyd lleol
3 ymddiriedolaeth GIG

### Asesiadau strwythuredig

7 bwrdd iechyd lleol
3 ymddiriedolaeth y GIG

### Astudiaethau a gwblhawyd neu a gwblhawyd ar y cyfan

Gwasanaethau orthopedeg
Rheoli meddyginiaethau yn y sector acíwt
Gwasanaethau cleifion allanol: apwyntiadau dilynol
Seilwaith a chapasiti TG
Arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai (astudiaeth ddilynol)
Trefniadau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (astudiaeth ddilynol gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru)

### Astudiaethau sy'n mynd rhagddynt

Gwasanaethau radioleg
Contract Meddygon Ymgynghorol y GIG (astudiaeth ddilynol)

## Rhaglen waith archwilio’r Archwilydd Cyffredinol a gyflawnwyd mewn cyrff llywodraeth ganolog

### Cyfrifon Llywodraeth Cymru

- Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru
- Cyfrif Ardrethu Annomestig
- Cyfrif Derbyniadau a Thaliadau Cronfa Gyfunol Cymru
- Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan
- Cymeradwyo taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru

### Cyfrifon cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cronfa Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Gofal Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Prif Gyfrifon a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru
- Cronfa Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
- Cymwysterau Cymru

### Cyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru

- Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Cronfa Bensiwn Aelodau'r Cynulliad

### Cyfrifon comisiynwyr, arolygwyr a rheoleiddwyr

- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Estyn
- Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

### Ardystio hawliadau a ffurflenni grant

Hawliadau gwerth oddeutu £300 miliwn i gronfa strwythurol Ewrop gan Lywodraeth Cymru a'r cyrff a ariennir ganddi

### Cwmnïau Llywodraeth Cymru

- Hybu Cig Cymru
- Dewis Gyrfa
- Hwb Gwyddorau Bywyd
- Sector Development Wales

## Rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o waith archwilio a wnaed i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

### Astudiaethau gwerth am arian, adroddiadau cryno neu archwiliadau adweithiol a gwblhawyd

- Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf
- Consortia addysg rhanbarthol
- Gwasanaethau orthopedeg
- Rhagnodi ym maes Gofal Sylfaenol – crynodeb o ganfyddiadau archwilio lleol – memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
- Llywodraethu yn y GIG yng Nghymru - Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
- Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio
- Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus
- Llywodraeth Cymru yn caffael Maes Awyr Caerdydd
- Rhestrau aros y GIG a phractis preifat
- Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru
- Theatrau Llawdriniaethau

### Adroddiadau cryno sydd yn yr arfaeth

- Arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai – adolygiad dilynol
- Menter Twyll Genedlaethol
- Rheoli meddyginiaethau

### Archwiliadau gwerth am arian sy'n mynd rhagddynt

- Rheoli'r perygl o lifogydd ac erydu
- Gwasanaethau rheilffyrdd
- Caffael cyhoeddus a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol
- Goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru o gyllid a chyflawni sefydliadau addysg bellach
- Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
- Rhaglen Cefnogi Pobl
- Rheoli gwastraff
- Llefydd mewn ysgolion a buddsoddi cyfalaf mewn ysgolion
- Mynediad i wasanaethau cyhoeddus gyda chymorth gwasanaethau dehongli a chyfieithu arbenigol

### Archwiliadau adweithiol sy'n mynd rhagddynt

- Adolygiad llywodraethu o Lyfrgell Cenedlaethol Cymru
- Llywodraethu a goruchwylio cyrff hyd braich

## Ein rhaglen o waith arfer da

### Seminarau dysgu ar y cyd a gynhaliwyd

Ymddiriedolwyr
Annibyniaeth Barhaus Pobl Hŷn
Profiad defnyddwyr gwasanaeth
Trosglwyddo gwybodaeth i greu dilyniant
Ymddiriedaeth staff
Gwneud integreiddio'n realiti
Dyfodol parciau a'u heffaith gadarnhaol ar les
Cau cyfrifon llywodraeth leol yn gynt
Chwythu'r chwiban
Rhannu data personol i wasanaethu dinasyddion a chymunedau'n well
Rheoli a gwella gweithrediadau busnes
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

### Canllawiau arfer da a gyflwynwyd

Annibyniaeth barhaus pobl hŷn

### Gweminarau dysgu ar y cyd a gynhaliwyd

Syniadau staff ac ymgysylltu
Atal twyll caffael

### Hwyluso dysgu ar y cyd yn allanol a chymorth cymunedol

Ysgol haf Academi Cymru
Rhwydwaith Cyfarwyddwyr Cyllid GIG Cymru
Arfer Da Cymru
Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan
Asedau Cymru

## Rhaglen o weithgarwch ar y cyd yr Archwilydd Cyffredinol

### Cydgyflawni

Menter Twyll Genedlaethol ag asiantaethau archwilio eraill yn y DU

Gweithio gydag Estyn i gynnal astudiaethau gwerth am arian o gonsortia addysg rhanbarthol

Gweithio gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'r Comisiynydd Pobl Hŷn ar astudiaeth o annibyniaeth pobl hŷn

Ardystiad blynyddol o gyfrifon Cronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig

Adolygiad dilynol ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o drefniadau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

### Aelodaeth o weithgorau allanol

EURORAI

Rhwydwaith Adrodd Integredig Sector Cyhoeddus y Cyngor Adrodd Integredig Rhyngwladol

Fforwm Archwilio Cyhoeddus

Bwrdd Cynghori Adroddiadau Ariannol

Bwrdd Cod Awdurdod Lleol CIPFA/LASAAC

Pwyllgor Archwilio Sector Cyhoeddus ICAEW

Panel Safonau Archwilio a Chyfrifyddu CIPFA

Menter Aroylgu Cymru

Grŵp cyswllt Arolygiaethau Budd-daliadau Tai a Diwygio Lles y DU yr Adran Gwaith a Phensiynau

Panel cyswllt 'Cadw mewn Cysylltiad' y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid/Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

### Gwaith archwilio a gomisiynwyd

Archwiliad o hawliadau grant yr UE ar gyfer Prifysgol Morgannwg

Prif Archwilydd Llywodraeth Anguilla ac archwiliad o'i chyfrifon

Grwpiau meincnodi gwastraff masnachol a rheoli gwastraff

### Aelod arsylwi o weithgorau allanol

Cyngor Partneriaeth Cymru

Bwrdd Rhaglen Ad-drefnu Llywodraeth Leol

Grŵp cyfeirio a chynghori Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Bwrdd Gweithredu Trysorlys Llywodraeth Cymru

Fforwm Treth Cymru'r Gweinidog Cyllid

Bwrdd Fframwaith Arolygu Awdurdodau Lleol AGGCC

Bwrdd Uned Ddata Llywodraeth Leol

Bwrdd Prosiect y Fframwaith Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub

Gweithgor Penodiadau Cyhoeddus

# Atodiad 2: Cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn tuag at gyflawni ein blaenoriaethau dros dair blynedd

## Sylwadau ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer gwaith archwilio llywodraeth leol

| Blaenoriaethau dros dair blynedd a gynlluniwyd | Pryd | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Sicrhau gwelliant pellach i'n hasesiadau lleol o gyflwr ariannol ac o ansawdd cynllunio ariannol a pharhau i roi trosolwg blynyddol o Gymru gyfan | 2015 a phob blwyddyn ar ôl hynny | Ar y trywydd cywir | Cynhaliwyd asesiadau lleol o gyflwr ariannol llywodraeth leol ym mhob Awdurdod Unedol, a bwriedir cyhoeddi adroddiad trosolwg ar gyfer Cymru gyfan ym mis Mehefin 2016. |
| Integreiddio'n well y gwaith o gynllunio ac adrodd ar ein harchwiliad lleol o gyfrifon a'n gwaith archwilio perfformiad, yn enwedig o ran archwilio effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, a chysoni ein gwaith ymhellach â gwaith cyrff adolygu allanol eraill | 2015-2016 | Cwblhawyd | Cafodd gwaith ei wneud yn 2015-16 i integreiddio'r broses o gynllunio ein rhaglenni archwilio lleol yn well. Gwneir rhagor o waith yn dilyn ystyried ymatebion rhanddeiliaid i ymgynghoriad yr Archwilydd Cyffredinol ar ei ddull archwilio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| Paratoi i gyflwyno trefn lle caiff cyfrifon llywodraeth leol eu cau ynghynt, ac am effaith newidiadau i'r gyfundrefn cyllid grant yng Nghymru – newidiadau sy'n deillio o delerau ac amodau newydd a osodwyd gan Lywodraeth Cymru neu sy'n deillio o'r Credyd Cynhwysol a gyflwynwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau | 2015-2016 | Ar y trywydd cywir | Rydym wedi dechrau gwaith ar baratoi ar gyfer cau cyfrifon llywodraeth leol yn gyflymach. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n nodi'r amserlen arfaethedig ar gyfer cau cyfrifon yn gynharach. Rydym eisoes wedi ystyried lefel sy'n lleihau o ardystio grantiau yn ein gwaith cynllunio ariannol a chynllunio'r gweithlu ar gyfer 2016-17 a thu hwnt. Cyn bo hir, byddwn yn dechrau paratoi ar gyfer cyflwyno Credyd Cynhwysol, na chaiff ei gyflwyno'n llawn yng Nghymru tan 2020. |
| Addasu ein fframwaith ar gyfer archwilio cynghorau tref a chymuned er mwyn cynnwys mwy o wybodaeth mewn adroddiadau ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu | 2016 | Ar y trywydd cywir | Mae ein fframwaith ar gyfer archwilio cynghorau tref a chymuned bellach wedi'i addasu, a bwriedir i waith newydd yn y maes hwn ddechrau yn gynnar ym mlwyddyn galendr 2016. Caiff ein hadroddiadau archwilio cyntaf o dan y trefniadau newydd eu llunio yn hydref 2016. |
| Archwilio pa mor barod yw cyrff llywodraeth leol ar gyfer diwygio ac uno, a'u cynlluniau ar gyfer hynny | 2016-2018 | Heb ddechrau eto | Bydd ein gwaith yn y maes hwn yn dechrau ar ôl i ddeddfwriaeth ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol gael ei chadarnhau. Mae thema addasrwydd i drawsnewid a newid wedi cael ei chynnwys yn ein rhaglenni archwilio llywodraeth leol ar gyfer 2016-17. |

## Sylwadau ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer archwilio'r GIG

| Blaenoriaethau dros dair blynedd a gynlluniwyd | Pryd | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Sefydlu Panel Arbenigwyr y GIG, gan gynnwys academyddion a chyrff proffesiynol iechyd, i gynghori ynghylch pob agwedd ar ein rhaglen archwilio iechyd | 2015 | Cwblhawyd | Mae Panel Arbenigol wedi cael ei sefydlu bellach a chyfarfu ddiwedd 2015 er mwyn ein cynghori ar raglen 2016 a rhaglen tymor hwy archwilio perfformiad lleol a chenedlaethol yn y sector iechyd. |
| Datblygu ymhellach gynnwys ac effaith ein hadroddiadau i gyrff y GIG ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, er mwyn rhoi cefnogaeth well ar gyfer gwella gwasanaethau a gwelliant corfforaethol | 2015 | Cwblhawyd | Cafodd Memorandwm ar Lywodraethu yn y GIG wedi ei ddiweddaru ei baratoi ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2015, er mwyn cefnogi ymchwiliadau'r Pwyllgor. Caiff effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ei fonitro'n rheolaidd erbyn hyn, fel rhan o'n gwaith asesu strwythuredig blynyddol o fewn 10 corff y GIG, gyda theilwra lleol i ganolbwyntio ar y cynnydd a wneir yn erbyn meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn flaenorol. |
| Cymryd rhan yn llawn er mwyn gweithredu'r protocol newydd ar gyfer nodi ac ymateb i faterion difrifol sy'n amharu ar ddarpariaeth gwasanaeth, ansawdd a diogelwch gofal ac effeithiolrwydd trefniadol ar draws GIG Cymru | 2015 a phob blwyddyn ar ôl hynny | Ar y trywydd cywir | Ymgysylltu parhaus â threfniadau protocol teirochrog GIG Cymru gyda Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae systemau trafod wedi'u trefnu ac ad hoc wedi bod yn gweithredu'n llwyddiannus, a gwnaeth y tri pharti adolygu effeithiolrwydd y protocol ar y cyd ddiwedd 2015. |
| Defnyddio gwaith archwilio lleol i gyflwyno darlun cenedlaethol o berfformiad cymharol yng nghyrff y GIG o ran cyllid a gwasanaethau | 2015 a phob blwyddyn ar ôl hynny | Cwblhawyd | Ar gyfer 2015-16 cymerodd adroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015, le adroddiad cyllid blynyddol y GIG. Gwneir gwaith asesu strwythuredig yng nghyrff lleol y GIG yn ystod 2016 i gefnogi ein hadroddiadau cenedlaethol. |
| Cyhoeddi adolygiad archwilio o weithrediad cychwynnol cynlluniau cyflenwi integredig tair blynedd y GIG | 2017 | Ar y trywydd cywir | Dechreuodd y gwaith cynllunio a chwmpasu manwl ar gyfer y prosiect hwn ym mis Ebrill 2016, a bydd yr adolygiad yn adeiladu ar waith a wnaed yn 2015-16 fel rhan o'n rhaglen waith ar gyfer archwilio'r GIG. |

## Sylwadau ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer archwilio llywodraeth ganolog

| Blaenoriaethau dros dair blynedd a gynlluniwyd | Pryd | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Cyhoeddi adroddiad trosolwg blynyddol ar ganlyniadau gwaith archwilio a gwblhawyd yn y sector llywodraeth ganolog | 2015 a phob blwyddyn ar ôl hynny | Ar y trywydd cywir | Ar gyfer 2015, roedd ein hadroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys gwybodaeth am y sector llywodraeth ganolog. |
| Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, archwilio'r potensial i gynnal rhaglen gylchol o adolygiadau archwilio llywodraethu a pherfformiad ar draws holl adrannau Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi | 2015-2016 | Heb ddechrau eto | Bydd gwaith ar y flaenoriaeth hon yn dechrau ar ôl etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016. |
| Rhoi sylwadau archwilio i Bwyllgor Cyllid a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ynghylch pa mor barod ydynt am y pwerau ariannol a gyflwynir ac ar gynnydd a wneir drwy'r camau cynllunio a gweithredu | 2015-2018 | Ar y trywydd cywir | Ceir cadarnhad erbyn hyn mai'r dyddiad y daw datganoli cyllidol i rym yng Nghymru yw 1 Ebrill 2018. Ar sail profiad yr Alban, rydym yn rhagweld y byddwn yn cyhoeddi sylwadau cychwynnol gan yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Tachwedd 2016, gydag adroddiad pellach yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ym mis Medi 2017. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â Phwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn cefnogi ei waith craffu parhaus. |
| Gwerthuso a pharatoi am y goblygiadau cyfrifo ac archwilio yn sgil gweithredu pwerau ariannol Cymru, ynghyd â'r ymateb sydd ar ddod gan Lywodraeth y DU i adroddiad 'Silk 2' | 2015-2018 | Ar y trywydd cywir | Rydym wedi dechrau trafodaethau â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac Audit Scotland ynghylch goblygiadau datganoli cyllidol i Gymru o ran cyfrifyddu ac archwilio ac maent yn cydweithio'n wych. Mae gennym hefyd sylwedydd ar Fwrdd Rhaglen Llywodraeth Cymru a'i Fforwm Treth, ac felly gallwn gael gafael ar wybodaeth amser real er mwyn helpu i lywio ein hasesiadau o oblygiadau cyfrifyddu ac archwilio. |

## Sylwadau ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer gwaith archwilio'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| Blaenoriaethau dros dair blynedd a gynlluniwyd | Pryd | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Rhoi trefniadau ar wahân ar waith i atgyfnerthu ein capasiti archwilio fforensig, a sicrhau ymatebion amserol i faterion sy'n destun pryder i'r cyhoedd, heb dynnu oddi ar ein gwaith archwilio statudol | 2015-2016 | Cwblhawyd | Mae'r tîm astudiaethau ymchwilio newydd wedi'i staffio'n briodol ac yn cymryd rhan mewn gwaith archwilio fforensig. Rydym wedi cydweithio'n agos â'n cydweithwyr yn y Swyddfa Archwilio Genedlaethol sydd â threfniadau tebyg ar waith, i ddysgu o'u profiadau. |
| Cynyddu effaith ein hadroddiadau cyhoeddus, a'r diddordeb ynddynt, drwy wella dyluniad ein hadroddiadau ac ehangu ein sianelau cyfathrebu | 2015-2017 | Ar y trywydd cywir | Mae ein Tîm Cyfathrebu wedi ailwampio ein templedi adrodd er mwyn ei gwneud yn haws i ddarllenwyr ar-lein eu defnyddio. Yn dilyn hyfforddiant staff ar 'straeon data', rydym yn defnyddio mwy o ffeithluniau a chyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo negeseuon allweddol yn ein hadroddiadau. Rydym hefyd wedi bod yn darparu mwy a mwy o ganllawiau arfer da neu restrau gwirio er mwyn ategu a chefnogi'r negeseuon yn ein prif adroddiadau archwilio. |
| Gwella'r gwaith yr ydym yn ei wneud sy'n archwilio systemau cyfan a'r cysylltiadau rhwng darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys y rhyngwyneb rhwng darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn enwedig | 2015-2018 | Ar y trywydd cywir | Gwnaed gwaith blaengynllunio ar gyfer y cylch archwilio perfformiad nesaf yn ystod haf 2015. Yn dilyn ymgynghoriad, mae ein rhaglenni archwilio perfformiad ar gyfer 2016 a thu hwnt yn cynnwys cyfres o astudiaethau trawsbynciol sy'n archwilio systemau cyfan a byddant yn gofyn am waith integredig gan yr holl dimau archwilio. |
| Cael dealltwriaeth well o ddisgwyliadau a gofynion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, drwy gynnal arolygon ymhlith yr aelodau o'u safbwyntiau ynglŷn â'r gefnogaeth a roddwn i'w gwaith craffu, a gofyn am adborth ar adroddiadau archwilio unigol | 2016-2017 | Heb ddechrau eto | Heb ddechrau eto. Fodd bynnag, mae gwaith paratoadol eisoes yn mynd rhagddo i ystyried y dull gweithredu a'r amseru gorau.  Yn dilyn etholiadau'r Cynulliad yn 2016, rydym yn anelu at feithrin perthynas adeiladol â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus newydd a nodi ffyrdd o wella ymhellach gefnogaeth i'w waith craffu. |
| Codi ymwybyddiaeth ymhlith Pwyllgorau'r Cynulliad ynghylch gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys cyfrannu at ymsefydlu Aelodau Cynulliad newydd ar ôl etholiadau'r Cynulliad yn 2016 | 2016-2017 | Ar y trywydd cywir | Cynhaliwyd trafodaethau â Chomisiwn y Cynulliad er mwyn sicrhau cwmpas rôl a gwaith yr Archwilydd Cyffredinol fel rhan o drefniadau sefydlu Aelodau newydd y Cynulliad. Rydym hefyd wedi gweithio gydag Arolygu Cymru i ddatblygu briffiad ar gyfer Aelodau newydd y Cynulliad a'u cynghorwyr ar rôl a gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio. |

## Sylwadau ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer hwyluso’r broses o gyfnewid arfer da

| Blaenoriaethau dros dair blynedd a gynlluniwyd | Pryd | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Annog gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus drwy sicrhau o leiaf 50 o addewidion i weithredu o raglen flynyddol o 12 digwyddiad dysgu ar y cyd, a monitro’r broses o roi’r addewidion hynny ar waith | 2015 a phob blwyddyn ar ôl hynny | Ar y trywydd cywir | Gwnaethom gofnodi addewidion i weithredu arnynt ar ddiwedd pob seminar dysgu ar y cyd. Gwnaethom hefyd gyflwyno 'Treialon Coffi ar Hap' yn ystod 2015-16, lle gwnaethom hwyluso sgyrsiau dilynol rhwng unigolion ynghylch sut maent yn gweithredu ar addewidion. Mae llwyddiant hyn yn cael ei werthuso ar hyn o bryd. |
| Datblygu rhaglenni gwaith arfer da ar heriau allweddol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys llywodraethu, rheoli risg, rheolaeth ariannol strategol a chynllunio ar gyfer y tymor hir | 2015 a phob blwyddyn ar ôl hynny | Ar y trywydd cywir | Mae seminarau diweddar a'r rhaglen arfaethedig ar gyfer 2016-17 yn ymdrin â nifer o'r heriau allweddol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys: llywodraethu a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru); cyflenwi digidol; cynllunio'r gweithlu; gweithio mewn partneriaeth; a rhannu data. |
| Buddsoddi i ddatblygu a chefnogi 'cymunedau buddiant' hunangynhaliol ymhlith cyrff cyhoeddus er mwyn adeiladu ar y momentwm a grëwyd gan ein gweithgarwch arfer da a dysgu ar y cyd | 2015 a phob blwyddyn ar ôl hynny | Ar y trywydd cywir | Mae gwaith yn mynd rhagddo'n barhaus gyda phartneriaid seminarau i ddatblygu cymunedau buddiant er mwyn adeiladu ar y momentwm a grëir mewn digwyddiadau. Bydd adolygiad o ffyrdd o ymdrin â newid ymddygiad ymhob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus yn cael ei gyflawni mewn ffordd arloesol, gan ddefnyddio dulliau arfer da a chyda ffocws cryf ar ddatblygu cymunedau arfer. |
| Cynyddu'r gyfran o brosiectau archwilio sy'n cynnwys gweithgarwch ac allbwn arfer da a dysgu ar y cyd | 2015 a phob blwyddyn ar ôl hynny | Ar y trywydd cywir | Mae cysylltiadau rhwng y tîm arfer da a'n timau archwilio yn parhau i gael eu hatgyfnerthu, gyda dros hanner y digwyddiadau yn cael eu cynnal yn 2015-16 a'r rhai a gynlluniwyd ar gyfer 2016-17 yn uniongyrchol gysylltiedig â phrosiectau archwilio neu ffrydiau gwaith cysylltiedig. |

## Sylwadau ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer cydweithio

| Blaenoriaethau dros dair blynedd a gynlluniwyd | Pryd | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Rhoi trefniadau ar waith er mwyn gwella'r rheolaeth ar ohebiaeth gan y cyhoedd neu bartïon eraill â diddordeb am faterion sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys darparu ymatebion cyflymach a mwy sylweddol | 2015 | Cwblhawyd | Mae canllawiau newydd i'r cyhoedd ar ohebu â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi cael eu datblygu a'u cyhoeddi ar ein gwefan. Cyflwynwyd prosesau mewnol diwygiedig er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â gohebiaeth yn fwy effeithiol. Mae ein cynllun blynyddol ar gyfer 2016-17 yn cynnwys blaenoriaeth i wella'r wybodaeth reoli i gefnogi'r trefniadau gohebu newydd. |
| Gwella ein dealltwriaeth o sectorau a'n perthynas â chyrff archwiliedig ymhellach, er mwyn creu sail well ar gyfer ein rhaglen waith a chyfrannu at ddatblygiadau a gwelliannau ar draws y sector cyhoeddus | 2015 a phob blwyddyn ar ôl hynny | Ar y trywydd cywir | Mae gwaith ein Harweinwyr Sector yn atgyfnerthu ein hymgysylltiad allanol ar lefel strategol, yn enwedig drwy gymryd rhan mewn grwpiau amrywiol fel sylwedydd. Mae rôl newydd y Cyfarwyddwr Ymgysylltu hefyd yn helpu i wella ymgysylltu â chyrff archwiliedig ymhellach. |
| Ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd, eu cynrychiolwyr a rhanddeiliaid eraill er mwyn asesu ein perfformiad a mesur effaith ein gwaith a'n llwyddiant | 2015 a phob blwyddyn ar ôl hynny | Cwblhawyd | Yn 2015-16, gwnaethom sefydlu strategaeth newydd ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac rydym bellach yn ei rhoi ar waith. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys cynnal cyfweliadau strwythuredig ag uwch randdeiliaid a mynd i amrywiaeth o ddigwyddiadau cyhoeddus, er mwyn ymestyn ein cyrhaeddiad ac asesu ein heffaith. Rydym hefyd wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen effaith ac rydym wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr yn Audit Scotland a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol i ddatblygu ein dull o sicrhau bod ein gwaith yn cael yr effaith fwyaf bosibl. |
| Annog ystod ehangach o gyrff sy'n derbyn arian cyhoeddus i gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol, ac ehangu'r wybodaeth a ddefnyddir yn yr ymarfer paru data | 2015-2016 | Ar y trywydd cywir | Yn 2015-16, gwnaethom ehangu'r wybodaeth a ddefnyddir fel rhan o ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol drwy gynnig mynediad digyfyngedig i adnodd Gwirio Ceisiadau newydd, gyda'r nod o helpu i nodi ceisiadau twyllodrus neu wallau posibl am fudd-daliadau, gwasanaethau neu gyflogaeth ar y cam gwneud cais. Rydym hefyd wedi ysgrifennu at gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, cymdeithasau tai a phrifysgolion er mwyn eu gwneud yn ymwybodol o fanteision cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol ac nad yw'r Archwilydd Cyffredinol yn codi tâl am y gwasanaeth hwn. Rydym hefyd yn cynnig ymweliadau ac arddangosiadau i'r cyrff hynny. |
| Gwella ymhellach effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd archwilio, arolygu a rheoleiddio yng Nghymru drwy weithio gyda chyrff adolygu allanol eraill i symleiddio ein hadolygiadau ac atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer cydweithio a rhannu cudd-wybodaeth ac adnoddau | 2015-2018 | Ar y trywydd cywir | Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cydweithio â'n partneriaid yn Arolygu Cymru ar amrywiaeth o gynhyrchion archwilio, a thrwy hynny rannu gwybodaeth ac adnoddau. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiad o gonsortia addysg rhanbarthol (gydag Estyn), astudiaeth o annibyniaeth pobl hŷn (gydag AGGCC), a'n gwaith llywodraethu parhaus ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr (gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru). |

## Sylwadau ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer llywodraethu ac arwain

| Blaenoriaethau dros dair blynedd a gynlluniwyd | Pryd | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Atgyfnerthu ein strategaeth ar gyfer y gweithlu er mwyn ateb y galw cyfredol a sicrhau ein bod yn gallu rhagweld ac ymateb i ddatblygiadau cyfreithiol, amgylcheddol a phroffesiynol yn y dyfodol, gan gynnwys drwy gynllunio olyniaeth yn effeithiol | 2015-2016 | Ar y trywydd cywir | Dechreuwyd cynnal prosiect cynllunio'r gweithlu strategol yn 2015; caiff y cam cychwynnol ei gwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2016. Cytunwyd ar gyfres o gerrig milltir allweddol ac mae cynnydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Rheoli a'r Bwrdd. |
| Atgyfnerthu'r gallu i arwain, gan gynnwys drwy ddefnyddio adolygiadau cylch cyfan o berfformiad aelodau uwch o staff a chefnogi adolygiadau o effeithiolrwydd y Bwrdd | 2015-2018 | Ar y trywydd cywir | Cytunwyd ar gynllun arfarnu perfformiad diwygiedig ar gyfer aelodau'r Uwch Dîm Arwain, sy'n cynnwys adborth 360°, a chafodd ei roi ar waith yn 2015-16. Mae cynigion ar gyfer Rhaglen Datblygu Uwch Arweinyddiaeth wrthi'n cael ei hystyried gyda rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys Academi Cymru. |
| Monitro esblygiad ein trefniadau llywodraethu unigryw, gyda golwg ar rannu gwybodaeth, profiad a'r hyn yr ydym yn ei ddysgu | 2015-2018 | Ar y trywydd cywir | Sylwadau a gafwyd yn y Datganiad Llywodraethu. |
| Gwneud defnydd mwy effeithiol o feincnodau a chymariaethau allanol er mwyn asesu ein perfformiad a mesur ein llwyddiant a'n heffaith | 2015-2018 | Ar y trywydd cywir | Rydym wedi bod yn gweithio gydag asiantaethau archwilio eraill y DU i ddatblygu ymhellach ein defnydd o feincnodi allanol fel rhan o ymarfer ehangach i wella ansawdd ein gwybodaeth reoli. |

## Sylwadau ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer defnyddio adnoddau

| Blaenoriaethau dros dair blynedd a gynlluniwyd | Pryd | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Gwneud gwell defnydd o ddulliau rheoli technoleg a gwybodaeth er mwyn rhesymoli a symleiddio ein systemau a'n prosesau busnes, drwy weithredu cynllun TGCh tair blynedd treigl | 2015-2018 | Ar y trywydd cywir | Yn ystod y cyfnod adrodd, rydym wedi gweithredu system newydd ar gyfer teithio a threuliau, llwyfan TG mwy effeithiol ac integredig ar gyfer cofnodi amser a rheoli data archwilio. Rydym hefyd wedi gwneud defnydd llwyddiannus o dechnoleg cwmwl er mwyn cefnogi'r cydweithio â chyflenwyr archwilio, ac rydym yn ystyried y defnydd o ddatrysiadau storio cwmwl ar gyfer ein systemau cyllid ac e-bost er mwyn eu gwneud yn fwy cadarn. |
| Gwneud trefniadau pellach i sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru fel lle cydnabyddedig i gyfrifwyr ar draws y sector cyhoeddus gael hyfforddiant | 2015-2017 | Ar y trywydd cywir | Cafodd cais am gyllid ychwanegol i gefnogi'r fenter hon ei gynnwys yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2016-17 a chafodd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid. Disgwylir i'r secondiadau cyntaf o dan y trefniadau newydd ddechrau yn hydref 2016. |
| Cadw gafael gadarn ar gostau, ceisio sicrhau mwy o effeithlonrwydd a chadw ffioedd mor isel ag sy'n bosibl | 2015-2018 | Ar y trywydd cywir | Sylwadau a roddwyd yn adran rheoli ariannol ac arbedion effeithlonrwydd y dadansoddiad o berfformiad. |
| Gwneud gwell defnydd o'n hasedau ffisegol a gwybodaeth er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein hamcanion | 2015-2018 | Cwblhawyd | Cafodd gwybodaeth staff ei rhesymoli'n sylweddol yn 2015-16 drwy ddatblygu Llawlyfr Corfforaethol newydd. Mae cynllun rheoli asedau newydd hefyd yn cael ei ddatblygu. |
| Dangos ein cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol drwy ein gwaith i:<br>• wella stiwardiaeth amgylcheddol;<br>• hyrwyddo ffordd iach o fyw a chydbwysedd bywyd-gwaith da ymhlith ein staff;<br>• hyrwyddo cyfle cyfartal, gan ddileu gwahaniaethu a meithrin perthnasoedd da; a<br>• hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chyrraedd safonau newydd y Gymraeg | 2015-2018 | Ar y trywydd cywir | Sylwadau a roddwyd yn adrannau stiwardiaeth amgylcheddol, lles cyflogeion, cydraddoldeb a hawliau dynol a hyrwyddo'r Gymraeg y dadansoddiad o berfformiad. |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru